



Ministry of Defence

# Amddiffyn mewn oes gystadleuol



CP 411

# Amddiffyn mewn oes gystadleuol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2021

CP 411

© Hawlfraint y Goron 2021
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.
Pan fyddwn yn nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: SPOStrategy-IntegratedReview@mod.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2462-6
CCS0221109268. 03/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# AMDDIFFYN MEWN OES GYSTADLEUOL


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn | |
| **01** | Newid y cyd-destun strategol | 05 |
| **02** | Maes y gad y dyfodol | 09 |
| **03** | Ein dull gweithredu strategol | 11 |
| **04** | Esblygu ar gyfer y dyfodol | 15 |
| **05** | Cyfraniad amddiffyniad i Brydain Fyd-eang | 27 |
| **06** | Ein gweithlu: ein hased gorau | 35 |
| **07** | Lluoedd wedi'u moderneiddio ar gyfer oes gystadleuol | 39 |
| **08** | Perthynas gryfach gyda diwydiant | 61 |
| **09** | Trawsnewid ein ffyrdd o weithio | 65 |

# Amddiffyn mewn oes gystadleuol

## Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn



Fel swyddog ifanc, deng mlynedd ar hugain yn ôl i'r diwrnod bron, cefais fy ngalw i'r sgwâr ymarfer i glywed datganiad o benderfyniadau allweddol adolygiad amddiffyn y llywodraeth, Opsiynau ar gyfer Newid. Ni wyddom bryd hynny, ond roedd y byd yn wynebu newid aruthrol. Nid cwymp yr Undeb Sofietaidd, ond newidiadau geo-wleidyddol gan gynnwys twf Tsieina, y bygythiad terfysgol gan Al Qaeda ac effaith fyd-eang y rhyngrwyd, oedd i gyd gryn bellter i ffwrdd ond nid oedd unrhyw un yn barod am yr hyn ddigwyddodd pan wnaethant.

Dyna pam ein bod wedi sicrhau bod cenhadaeth i ganfod a deall bygythiadau yn y dyfodol a buddsoddi yn y galluoedd i'w trechu yn ganolog yn y Papur Gorchymyn Amddiffyn hwn.

Wrth drafod Amddiffyn, mae bob amser yn demtasiwn defnyddio tarian sentimentaliaeth i amddiffyn galluoedd a enillodd frwydrau ond sydd bellach wedi dyddio. Mae sentimentaliaeth o'r fath, yn ogystal â gor-uchelgais a phrinder adnoddau, yn arwain at ganlyniadau llymach ymhellach ar hyd y llwybr. Mae'n peryglu bywydau ein pobl, a hwy yw ein hased gorau.

Yn yr un modd, byddai'n peryglu ein pobl pe byddem ond yn chwifio cleddyf o doriadau, yn torri'r hyn a brofwyd yn y frwydr o blaid rhywbeth newydd, heb ystyried beth a adawyd ar ôl. Nid yw hen alluoedd yn ddiwerth o reidrwydd, ac nid yw technolegau newydd bob amser yn berthnasol. Mae gan y rhai ohonom yn y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn ddyletswydd i fentro i barthau newydd, yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn y rhai traddodiadol, ond gan addasu bob amser i'r bygythiad.

Mae hanes yn dangos i ni dro ar ôl tro, bod methu â gwneud hynny yn creu'r risg o amherthnasedd a methiant. Wrth i'r bygythiad newid mae'n rhaid i ni newid hefyd, gan barhau i fod yn sicr ynghylch pa alluoedd y byddwn yn rhoi'r gorau i'w defnyddio, pam ein bod yn gwneud hynny, a sut y byddant yn cael eu disodli.

Dyna pam y dechreuodd y broses ar gyfer y Papur Gorchymyn Amddiffyn hwn gydag asesiad o'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu ac yn eu rhagweld, cyn ystyried sut y dylem fynd i'r afael â hwy, a dim ond bryd hynny pa offer a pha adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni. Rhoddodd yr Adolygiad Integredig y fframwaith i ni wneud hynny ac mae cyfiawnhad pam y byddwn yn gweld lefelau digynsail o fuddsoddiad yn ein Hamddiffyn yn y degawd nesaf.

Gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer y DU yn 2030 yw Undeb cryfach, mwy diogel, ffyniannus a gwydn, sy'n fwy parod i wynebu oes gystadleuol, fel gwlad sy'n gallu datrys problemau a rhannu beichiau, gyda phersbectif byd-eang. I sicrhau hyn mae angen integreiddio pŵer meddal a chaled Prydain yn well.

Yn yr oes fwy gystadleuol hon, nid oes gan 'Brydain Fyd-eang' ddewis ond camu i fyny, bod yn barod i wynebu'r heriau a siapio cyfleoedd y blynyddoedd i ddod, ochr yn ochr â'n cynghreiriaid a'n ffrindiau. Gadewch i ni fod yn glir, mae manteision a sefydliadau amlochroldeb, yr ydym wedi dod mor gyfarwydd â hwy, yn estyniad ac nid yn ddewis arall ein harweinyddiaeth ar y cyd a'n pŵer caled.

Mae'n rhaid i ni hyrwyddo'n weithredol y gwerthoedd hynny a rennir, sef rhyddid, cyfiawnder a goddefgarwch sydd wedi rhoi cyfle i filiynau o eneidiau ar draws y byd gael bywyd gwell, a gyflawnwyd drwy ein gweithredoedd ac nid drwy ein geiriau yn unig.  Mae diplomyddiaeth y DU wedi'i gwarantu gan hygrededd lluoedd arfog y DU a byddant yn fwy integredig, gweithredol ac ystwyth, yn gallu atal bygythiadau a threchu gelynion.

Mae ymrwymiad y Prif Weinidog i wario £188bn ar Amddiffyn yn y pedair blynedd nesaf – cynnydd o £24bn neu bedwar ar ddeg y cant – yn fuddsoddiad yn y weledigaeth honno o ddiogelwch a ffyniant yn 2030.  Mae adolygiadau blaenorol wedi bod yn rhy uchelgeisiol a heb eu hariannu'n ddigonol, a oedd yn golygu lluoedd a oedd wedi'u gor-ymestyn a heb offer digonol.  Ond mae strategaeth newydd yr Adolygiad Integredig a mwy o gyllid yn cynnig cyfle cyffrous i Amddiffyn i droi lluoedd gwag yn rhai credadwy, gan foderneiddio ar gyfer bygythiadau'r 2020au a thu hwnt, a chyfrannu at ffyniant cenedlaethol yr un pryd.

Bydd gan Y Llynges Frenhinol longau a thaflegrau newydd, bydd gan y Llu Awyr Brenhinol (RAF) awyrennau ymladd a synwyryddion newydd, a bydd y Fyddin yn cael eu hadleoli fwy a byddant wedi'u diogelu'n well.  Yn bwysicaf oll, bydd ein lluoedd arfog yn cael eu hintegreiddio ar draws pob parth, gan uno ein pobl, ein hoffer a'n gwybodaeth i gynyddu eu hallbwn a'u heffeithiolrwydd.  Mae hyn yn cynrychioli newid o fyddino torfol i gyflymder, parodrwydd a pherthnasedd yr oes wybodaeth er mwyn wynebu bygythiadau'r dyfodol.

Bydd yr egwyddorion hyn yn tywys ein dysgeidiaeth ac yn gorfodi datblygiadau.  Mae'r Cysyniad Gweithredu Integredig a gyhoeddwyd y llynedd yn cydnabod bod y newidiadau yn yr amgylcheddau gwybodaeth a gwleidyddol yn effeithio nid yn unig ar y cyd-destun yn awr ond ar sut i gynnal gweithrediadau milwrol.  Mae'r syniad o ryfel a heddwch fel cyflyrau deuaidd wedi'i ddisodli gan gontinwwm o wrthdaro, sy'n golygu bod rhaid i ni baratoi ein lluoedd ar gyfer ymgysylltiad byd-eang mwy parhaus ac ymgyrchu cyson, gan symud yn ddi-dor o weithredu i ymladd mewn rhyfeloedd.

Gan weithio gyda gweddill y llywodraeth, mae'n rhaid i'r lluoedd arfog feddwl a gweithredu'n wahanol. Ni fyddant bellach yn cael eu hystyried fel y dewis olaf, ond eu bod yn fwy amlwg a gweithredol o amgylch y byd, yn gweithredu islaw'r trothwy o wrthdaro agored a chynnal ein gwerthoedd a sicrhau ein buddiannau, bod yn bartner i'n ffrindiau a galluogi ein cynghreiriaid, p'un a ydynt yn yr ardal Ewro-Iwerydd, Indo-Môr Tawel neu du hwnt i'r rhain.

Wrth i ni weld cystadleuaeth gyson yn ymestyn ar draws y byd, mae'n rhaid i ni hefyd fod yn gyson wrth feirniadu a herio ein hunain.  Bydd sefydlu swyddogaeth asesu a her net yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynyddu trylwyredd a chymhariaeth gyda'n gwrthwynebwyr, yn cyflwyno dull mwy cydweithredol at ddysgu gwersi a llunio strategaethau ac ysgogi dull mwy cydlynol at ddatblygu'r lluoedd.

Mae'n rhaid i'r camau ar gyfer cynnal arweinyddiaeth Amddiffyn y DU ddechrau drwy sicrhau ein bod yn sefydliad credadwy sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar fygythiadau, ond mae'n rhaid i ni wneud hynny mewn cydweithrediad â'n cynghreiriaid a'n ffrindiau.  Fel yr ail gyfranogwr gwariant mwyaf yn NATO a chyfrannwr blaenllaw ar draws y pum maes a'r ataliad niwclear, mae gennym gyfrifoldeb i gefnogi trawsnewidiad y Gynghrair ei hun ar gyfer yr oes fwy cystadleuol hon.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn blaenoriaethu mwy ma £6.6bn o waith ymchwil, datblygu ac arbrofi yn y pedair blynedd nesaf er mwyn i'r lluoedd arfog allu addasu i'r bygythiad gydag uwch-dechnolegau.  Bydd y buddsoddiadau hyn yn ein galluoedd i ennill brwydrau yn y dyfodol yn cael eu tywys gan Strategaeth Wyddoniaeth a Thechnoleg 2020 a Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch.  Gyda'i gilydd byddant yn datblygu'r partneriaethau, hyblygrwydd a chyflymder ein gwaith o ddatblygu a chaffael gallu.  Bydd hyn, yn ei dro, nid yn unig yn cynnal ein mantais strategol fel pŵer gwyddoniaeth, ond yn symbylu arloesedd, yn ysgogi'r economi ac yn creu swyddi â sgiliau uchel ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Os yw'r Papur Gorchymyn Amddiffyn hwn yn unrhyw beth, mae'n asesiad onest o'r hyn y gallwn ei wneud a beth fyddwn ni'n ei wneud.  Byddwn yn sicrhau bod Amddiffyn yn canolbwyntio ar y bygythiadau, wedi'i foderneiddio ac yn gynaliadwy'n ariannol, yn barod i wynebu heriau'r dyfodol, manteisio ar gyfleoedd newydd i Brydain Fyd-eang a gosod y seiliau ar gyfer Undeb fwy diogel a ffyniannus.  Am y tro cyntaf mewn degawdau, byddwn yn paru arian dilys gydag uchelgeisiau credadwy.  Byddwn yn tynnu rhai llwyfannau yn ôl er mwyn cyflwyno systemau a dulliau gweithredu newydd.  A byddwn yn buddsoddi yn y nwydd pwysicaf oll – pobl ein lluoedd arfog.

Gwasanaethu fy ngwlad fel milwr oedd un o anrhydeddau mwyaf fy mywyd; a chyfrannu i gadw'r wlad hon yn ddiogel, cynnal ein gwerthoedd ac amddiffyn y rhai na allent amddiffyn eu hunain.  Mae peryglu eich bywyd wrth wasanaethu eich gwlad yn rhywbeth y bydd ond nifer fach ohonom yn gorfod ei wneud, yn ffodus.  Ond mae gennym i gyd ddyletswydd i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud hynny ar ein rhan wedi'u paratoi cymaint â phosibl a bod yr adnoddau gorau ar gael iddynt.

Felly, ni ddylid mesur llwyddiant y Papur Gorchymyn Amddiffyn hwn ar natur soffistigedig y geiriau i ddilyn, ond yn hytrach ar y ffordd y byddwn yn gweithredu ei ddiwygiadau.  Ac, yn y pen draw, y gwaith o gyflawni ei alluoedd i ddwylo dynion a merched ein lluoedd arfog.  Hwy sy'n ein cadw'n ddiogel a byddant yn parhau i wneud hynny yn y blynyddoedd i ddod.  Mae gennym ddyled iddyn nhw, eu teuluoedd a phawb ym maes Amddiffyn i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei wireddu.  Megis dechrau mae'r gwaith.

**Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS**


R08

# Newid y cyd-destun strategol

## Pennod 1

**1.1.** Roedd yr Adolygiad Integredig yn cyflwyno asesiad presennol y Llywodraeth o'r prif dueddiadau a fydd yn siapio diogelwch cenedlaethol a'r amgylchedd rhyngwladol hyd at 2030. Mae'n gyd-destun lle mae natur a dosbarthiad pŵer byd-eang yn newid wrth i ni symud at fyd mwy cystadleuol ac amlbegynol. Yn ystod y degawd nesaf, rydym o'r farn y bydd pedwar tuedd trosfwaol yn arbennig o bwysig i'r DU a'r newidiadau i'r drefn ryngwladol:

- Newidiadau geo-wleidyddol a geo-economaidd, er enghraifft pwysigrwydd cynyddol rhanbarth yr Indo-Môr Tawel, pendantrwydd rhyngwladol cynyddol Tsieina a dylanwad y pwerau canolig.
- Cystadleuaeth systematig, gan gynnwys rhwng gwladwriaethau, a rhwng gwerthoedd a systemau llywodraethu democrataidd ac awdurdodaidd.
- Newidiadau technolegol cyflym, a fydd yn ail-siapio ein heconomïau a'n cymdeithasau, gan gyflwyno buddiannau aruthrol ond a fydd hefyd yn datblygu i fod yn arena o gystadleuaeth geo-wleidyddol ddwysach.
- Heriau trawswladol sy'n galw am weithredu ar y cyd, er enghraifft newid yn yr hinsawdd, risgiau bioddiogelwch, terfysgaeth a throseddau difrifol a chyfundrefnol.


**1.2.** Bydd y tueddiadau hyn yn gorgyffwrdd ac yn rhyngweithio, a bydd effeithiau hirdymor Covid-19 yn dylanwadu ar eu trywydd mewn ffyrdd sy'n anodd i ni eu rhagweld ar hyn o bryd.

**1.3.** Mae'r Adolygiad Integredig hefyd yn disgrifio amgylchedd diogelwch byd-eang sy'n dirywio, lle mae'r DU gyfan, ei phobl a'i buddiannau yn wynebu ystod ehangach o fygythiadau gwladwriaethol a rhai nad ydynt yn wladwriaethol, wedi'u galluogi gan dechnoleg. Mae hefyd yn esbonio pa mor bwysig yw pob rhan o'r Deyrnas Unedig i'n hamddiffyn a'n diogelwch. Mewn oes o gystadleuaeth systemig, mae'r gwahaniaethau rhwng heddwch a rhyfel; cartref ac oddi cartref; y wladwriaeth a'r hyn nad yw'n wladwriaethol; y rhithwir a'r gwir yn mynd yn fwy a mwy aneglur. Mae technegau dylanwad sefydledig, er enghraifft gorfodaeth economaidd, propaganda, dwyn eiddo deallusol ac ysbïo wedi'u cywasgu gan drawsnewidiadau gwybodaeth a thechnolegol hollbresennol. Mae ein gwrthwynebwyr yn tanseilio'r normau a'r gwerthoedd rhyngwladol sydd wedi bod yn sail i'n diogelwch a'n ffyniant, ac maent yn ceisio hollti cydlyniant a phenderfynoldeb ein cynghreiriau a'n sefydliadau rhyngwladol. Wrth i ni gael ein herio fwyfwy islaw'r trothwy rhyfela agored, bydd y frwydr rhwng naratif a'r defnydd o ddulliau nad ydynt yn angheuol i ddylanwadu ar a sicrhau amcanion yn nodwedd o'r amgylchedd gweithredu yn y dyfodol.


**1.4.** Mae Rwsia yn parhau i gyflwyno'r bygythiad niwclear, milwrol confensiynol ac islaw'r trothwy mwyaf i ddiogelwch Ewropeaidd. Mae moderneiddio lluoedd arfog Rwsia, y gallu i integreiddio gweithgarwch y wladwriaeth gyfan a mwy o awch am risg, yn golygu bod Rwsia yn gyfranogwr galluog ac anrhagweladwy.

**1.5.** Pŵer cynyddol Tsieina yw'r ffactor geo-wleidyddol mwyaf arwyddocaol yn y byd o bell ffordd heddiw. Mae Tsieina yn cyflwyno her gymhleth, systemig. Fel yr esbonia'r Adolygiad Integredig yn glir, mae angen i ni fod yn barod i wthio'n ôl i ddiogelu ein gwerthoedd a'n buddiannau byd-eang, a chynnal ein gallu i gydweithredu wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a chyd-fuddiannau ein perthynas economaidd.

# Y bygythiad



Bygythiadau yn y wladwriaeth
Railguns Electro Magnetig
Y Gofod
Hypersonigau
Arfau Newydd
Diogelwch byd-eang ar ôl Covid-19
Seiber
Newid yn yr hinsawdd sy’n effeithio ar ansefydlogrwydd rhanbarthol
Arfau Ynni Uchel
Bygythiadau Bio-ddiogelwch
Grwpiau eithafol treisgar
Islaw’r trothwy
Gor-allu mewn rhai meysydd
Gor-amlygiad drwy globaleiddio
Sefydliadau byd-eang wedi gwanhau
Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear
Dronau sydd ar gael yn fasnachol
Dirprwyon Gwadadwy



Bydd effaith arwyddocaol datblygiadau Tsieina i foderneiddio eu gallu milwrol (sy'n datblygu'n gyflymach nag unrhyw wlad arall) a'u pendantrwydd rhyngwladol cynyddol yn y rhanbarth Indo-Môr Tawel yn cyflwyno her gynyddol.

**1.6.** Bydd Iran a Gogledd Korea yn parhau i gyflwyno heriau rhanbarthol ac mae eu rhaglenni niwclear yn bygwth sefydlogrwydd byd-eang.

**1.7.** Yn ogystal, bydd angen i'r DU barhau i wrthsefyll ystod o wladwriaethau aflonyddgar a bygythiadau nad ydynt yn rhai gwladwriaethol drwy ymdrech traws-lywodraethol ar y cyd. Bydd terfysgaeth yn parhau i gyflwyno bygythiad deinamig sy'n esblygu i'r DU a'i buddiannau. Bydd bygythiadau terfysgaeth yn ehangu drwy fynediad at alluoedd seiberofod ac arfau datblygedig eraill, a bydd ein gwrthwynebwyr yn manteisio ar effaith ymosodiadau o'r fath er eu budd eu hunain. Mae ymlediad arfau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (CBRN) ac arfau confensiynol datblygedig, wedi'u cyfuno â thechnolegau newydd, yn cynyddu'r risg o wrthdaro ac yn cynyddu eu ffyrnigrwydd. Er bod cytundebau rhyngwladol wedi ceisio cyfyngu datblygiad y galluoedd hyn ers amser maith, mae ein gwrthwynebwyr yn torri eu telerau fwyfwy neu'n tynnu'n ôl o'r ymrwymiadau hyn yn llwyr.

**1.8.** Mae newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth hefyd yn cynrychioli her fyd-eang. Fel lluosogwr bygythiadau, bydd newid yn yr hinsawdd yn ysgogi ansefydlogrwydd, ymfudiad, anialwch, cystadleuaeth am adnoddau naturiol a gwrthdaro. Er enghraifft, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mae'n debygol y bydd Llwybr Môr y Gogledd yn agor o fewn y degawd nesaf, a allai gyflwyno goblygiadau geo-wleidyddol a diogelwch. Bydd argyfyngau iechyd hefyd yn siapio'r amgylchedd gweithredu yn y dyfodol ac yn darparu cyfle i wladwriaethau gelyniaethus gynyddu eu dylanwad a chreu dibyniaeth.

**1.9.** Mae parthau mwy diweddar seiber-ofod a'r gofod yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae uwch dechnolegau eisoes yn cael eu datblygu i'w mabwysiadu yn y meysydd hyn ond gydag ychydig iawn o gytundeb rhyngwladol ar normau a chonfensiynau i'w rheoleiddio a diffyg safonau moesegol neu foesol i annog defnydd cyfrifol ohonynt. Bydd gwladwriaethau'n ceisio integreiddio'r galluoedd hyn fwyfwy gyda'r meysydd milwrol traddodiadol morol, tir ac awyr. Yna bydd integreiddiad aml-barth yn datblygu i fod yn norm. Bydd gwrthwynebwyr yn ceisio osgoi ein meysydd o gryfder ac yn ceisio ein profi lle maen nhw'n credu y mae gennym wendid. Nid yw dull o'r fath yn newydd, ond bydd yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i'r maes y gad traddodiadol.

**1.10.** Mae ein mantais dechnolegol hanesyddol yn cael ei herio'n gynyddol gan fuddsoddiadau wedi'u targedu mewn galluoedd wedi'u cynllunio i wrthsefyll ein cryfderau a herio sefydlogrwydd strategol, er enghraifft taflegrau hypersonig i drechu amddiffynfeydd taflegrau a thaflegrau mordeithio pŵer niwclear. Mae'r arfau confensiynol datblygedig hyn ar gael fwyfwy i ystod ehangach o wladwriaethau. Mae rhai gwledydd hefyd yn mabwysiadu dull cyfunol milwrol-sifil at ddatblygu technolegau newydd, a harneisio arloesedd sifil er budd eu galluoedd Amddiffyn. I'r gwrthwyneb, mae'r dull arloesol o alluoedd cost cymharol isel yn herio systemau amddiffyn yn yr awyr a rhyfela electronig galluog iawn neu luoedd arfog iawn, fel yr ydym wedi gweld yn Libya a Nagorno-Karabakh.



# Cyfraniad Amddiffyn i'r Adolygiad Integredig


**Bydd Amddiffyn yn parhau i gyfrannu at y pedwar amcan trosfwaol a nodwyd gan yr Adolygiad Integredig hyd at 2025 fel a ganlyn:**

- **<u>Cynnal mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg</u> – y byddwn yn ei chefnogi drwy: ein cyfraniad at seiber bŵer y DU drwy'r Llu Seiber Genedlaethol; buddsoddi o leiaf £6.6bn mewn gwaith Ymchwil a Datblygu yn y pedair blynedd nesaf, wedi'i dywys yn rhannol gan Strategaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn 2020; rhwydwaith o hybiau arloesedd a heriau'r Sbardunwr Amddiffyn a Diogelwch; wedi'i gefnogi gan y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch i greu amgylchedd mwy sicr i ddiwydiant.**

- **<u>Siapio'r drefn ryngwladol agored ar gyfer y dyfodol</u> – y byddwn yn ei chefnogi drwy: ddilyn Cyfreithiau Dyngarol Rhyngwladol yn ein gweithrediadau ein hunain; rhyddid gweithrediadau mordwyo i gefnogi ymdrechion cyfreithiau morol rhyngwladol i siapio ymddygiad cyfrifol yn y seiberofod a'r gofod, a datblygiad a defnydd moesegol o dechnoleg yn seiliedig ar werthoedd democrataidd; a thrwy ymgorffori cyfreithiau, rheolau a normau rhyngwladol yn y dulliau a ddefnyddir gan bartneriaid at ddiogelwch drwy ddatblygu capasiti.**

- **<u>Atgyfnerthu diogelwch ac amddiffyniad gartref a thramor</u> – y byddwn yn ei gefnogi drwy: amddiffyn y DU, y Tiriogaethau Tramor dibynnol ar y Goron, ein gallu i gynnal gweithrediadau achub nad ydynt yn ymladdgar pan fydd eu hangen, a'n harbenigedd CBRN, y bu'n rhaid eu defnyddio mewn ymateb i ymosodiad Salisbury 2018; ein cyfraniad i ddulliau atal drwy ddiogelwch ar y cyd gyda'n Cynghreiriaid yn NATO, a datblygu gallu a gwytnwch partneriaid cytûn i fygythiadau diogelwch sy'n esblygu; cefnogi gweithrediadau cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig fel rhan o ymdrech y Llywodraeth i leihau amlder gwrthdaro; a thrwy ddarparu galluoedd gwrthderfysgaeth PURSUE o'r radd flaenaf, cynnal ein cyfraniad at y Glymblaid Fyd-eang yn erbyn Daesh yn Irac a Syria, i gydlynu ymdrechion yn Afghanistan a gweithrediadau Ffrainc yn y Sahel, yn ogystal ag integreiddio ein gweithgareddau gwrthderfysgaeth ymhellach drwy ein Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth (CTOC) newydd.**

- **<u>Datblygu gwytnwch gartref a thramor</u> – y byddwn yn ei gefnogi drwy: Cymorth Milwrol i Awdurdodau Sifil, yn fwyaf diweddar i gefnogi'r ymateb i Covid-19; cefnogi awdurdodau lleol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol, ac i orfodi'r gyfraith yn dilyn ymosodiadau terfysgaeth, fel yn 2017; ein parodrwydd i ddarparu cymorth dyngarol dramor yn gyflym; a'n gallu i ddarparu cymorth arbenigol a chyflym wrth ymateb i risgiau iechyd byd-eang, er enghraifft yn ystod yr achosion o Ebola yn 2014.**



Delwedd: Tim Peake/ESA/NASA

# Maes y gad y dyfodol

## Pennod 2

**2.1.** Ni fydd amgylchedd gweithredu'r dyfodol wedi'i gyfyngu gan linellau ar fapiau neu gan ddaearyddiaeth. Byddwn yn wynebu heriau cymhleth ac integredig islaw, ac o bosibl uwchlaw'r trothwy o wrthdaro arfog. Bydd yr heriau hyn yn gymhleth, yn profi ein dull gweithredu ac yn targedu ein meysydd mwyaf agored i niwed. Byddwn yn debygol o wynebu cyfranogwyr y wladwriaeth a rhai nad ydynt yn rhai'r wladwriaeth, a fydd yn defnyddio dibynfentro, gweithgarwch mileinig islaw'r trothwy gwrthdaro arfog, terfysgaeth, dirprwyo, gorfodaeth a defnydd bwriadol o offer economaidd i danseilio ein buddiannau economaidd a diogelwch.

**2.2.** Mae mantais dechnegol y DU a'i chynghreiriaid wedi lleihau yn y ddau ddegawd diwethaf, wedi'i herio gan fuddsoddiad wedi'i dargedu yn y galluoedd a gynlluniwyd i wrthsefyll ein cryfderau a thargedu ein gwendidau. Bydd rhai gwladwriaethau yn ceisio caffael, yn agored ac yn ddirgel, technolegau a gwybodaeth o'r Gorllewin, gan gynnwys y DU, er mwyn datblygu eu rhaglenni milwrol eu hunain. Bydd gwaith ymchwil a datblygu a gynhelir gan lywodraethau gwladwriaethau yn cael eu datblygu ymhellach gan argaeledd cynyddol offer parod a fydd yn golygu y bydd y prosesau o ddatblygu systemau etifeddol yn fwy cywir ac angheuol. Mae galluoedd milwrol confensiynol yn datblygu. Mae nifer o wladwriaethau yn datblygu systemau **tir** gan gynnwys taflegrau a gynnau mawr gwrth-arfwisg, sy'n gallu rhagori ar alluoedd llawer o wladwriaethau NATO o ran cyrhaeddiad ac angeuoldeb. Bydd datblygiad Cerbydau Gleidio Hypersonig, a fydd yn gallu cludo arfbennau confensiynol neu niwclear gyda llwybr hedfan anrhagweladwy, yn rhoi ychydig iawn o rybudd ac yn cyflwyno heriau sylweddol i systemau taflegrau eu gwrthsefyll.

**2.3.** Bydd galluoedd **morol** cynyddol yn galluogi i bŵer gael ei ymestyn ymhellach yn ogystal â'r gallu i gynnal gweithrediadau o fwy o bellter.

- Mae llynges Tsieina, sydd eisoes y mwyaf yn y byd, yn datblygu'n gyflymach na'i holl gystadleuwyr. Mae Tsieina yn bwriadu cael cymaint â phump cludwr awyrennau erbyn 2030, yn ogystal â hyd at bedwar o gludwyr hofrenyddion ysgafn, wedi'u cefnogi gan fflyd gynyddol o longau distryw.
- Mae Rwsia yn buddsoddi ac yn datblygu galluoedd tanddwr sylweddol, gan gynnwys galluoedd môr dwfn a all fygwth ceblau tanddwr, yn ogystal â thorpido sy'n gallu cludo prif lwyth niwclear i dargedau arfordirol.

**2.4.** Bydd datblygiad galluoedd taro manwl-gywir, ystod hir rhybudd cyflym, wedi'u cyfuno â systemau radar ac amddiffyn **awyr** integredig, yn galluogi gwladwriaethau i gystadlu a hyd yn oed llywodraethu'r gofod awyr mewn llawer o ardaloedd lle bydd angen i'r DU weithredu.

- Mae Tsieina yn datblygu sbectrwm llawn o alluoedd awyr gan gynnwys ymladdwyr pedwerydd a phumed cenhedlaeth, llongau awyr Cudd-wybodaeth, Gwyliadwriaeth, Caffael Targedau a Rhagchwilio (ISTAR) y llong awyr trafnidiaeth trwm Y-20, Cerbydau Awyr Heb Griw (UAV) a System Amddiffyn Awyr Integredig galluog gyda'r taflegrau o'r ddaear i'r awyr mwyaf modern yn y byd.



- Mae gan Rwsia y gallu i gynnal ymosodiadau manwl-gywir o bellter a gwadu rhyddid gweithredu i'r DU a'n cynghreiriaid drwy system amddiffyn awyr integredig galluog iawn. Felly, gall Rwsia gyflwyno bygythiad sylweddol i allu'r DU i gefnogi ein lluoedd a diogelu ein buddiannau yn Ewrop, dwyrain ardal Môr y Canoldir a'r Dwyrain Canol.

**2.5.** Bydd datblygiad cyflym a dosbarthiad eang galluoedd milwrol o'r radd flaenaf yn anochel yn bryder i'n cynghreiriaid a'n partneriaid yn y rhanbarthau y byddant yn cael eu lleoli. Ond bydd yr effaith o ddadsefydlogi a ddaw yn sgil lledaeniad y technolegau hyn o wladwriaethau eraill yr un mor heriol, gwladwriaethau y mae eu hymddygiad niweidiol eisoes yn fygythiad i'w cymdogion. Bydd lledaeniad yn ei gwneud yn haws i wledydd llai datblygedig yn dechnolegol a chyfranogwyr nad ydynt yn rhai gwladwriaethol gael gafael ar systemau arfau mwy datblygedig. Ni fydd angen i wrthwynebwr ddibynnu'n gyfan gwbl mwyach ar ei allu ymchwil ei hun i gyflwyno bygythiad credadwy i'r gwledydd mwyaf datblygedig yn dechnolegol. Yr enghraifft amlycaf o hyn yn ddiweddar yw defnydd yr Houthis o daflegrau balistig wedi'u cyflenwi gan Iran. Pryder sylweddol arall yw parodrwydd cynyddol i ddefnyddio arfau cemegol neu fiolegol, gan gynnwys ar dir Prydain a thu hwnt i leoliadau gwrthdaro; mae Gogledd Korea a Rwsia wedi defnyddio asiantau cemegol yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf.

**2.6.** Gall ein hasedau **gofod**, rhai milwrol a sifil, fod mewn perygl hefyd yn sgil datblygiad arfau gwrth-loeren. Mae nifer o wladwriaethau eisoes wedi bod yn buddsoddi yn y galluoedd hyn ac yn eu profi. Yn yr un modd, mae ein darpar wrthwynebwyr yn ymwybodol o ddibyniaeth y gofod ar seiberofod. Mae'r technolegau hyn yn datblygu o ran eu gallu, eu math a'u nifer ac maent bellach yn cyflwyno sbectrwm llawn o fygythiadau y bydd angen i weithrediadau gofod ac wedi'u galluogi gan y gofod eu trechu. Bydd y gofod yn barth yr ymleddir mwyfwy drosto a bydd technolegau a chymwysiadau sy'n dod i'r amlwg yn fwy dibynnol nag erioed ar y gwasanaethau unigryw y mae'n eu darparu.

**2.7.** Oherwydd bod Amddiffyn yn ddibynnol ar gynnal gwybodaeth ar rwydweithiau a systemau cysylltiedig, bydd cyfleoedd i ymosod arnom drwy'r **seiberofod** bron yn sicr o gynyddu. Ar gyfer Amddiffyn, mae'r bygythiad seiberofod yn eang gyda rhwydweithiau gwybodaeth, systemau a llwyfannau arfau yn ddibynnol ar alluoedd seiberofod. Bydd bygythiadau seiberofod yn deillio o grwpiau gwladwriaethol, wedi'u noddi gan wladwriaethau a grwpiau troseddol gyda phersonél a galluoedd yn symud yn ddi-dor rhyngddynt. Fel gyda pharthau eraill, mae gweithgarwch seiberofod yn aml yn cael eu defnyddio fel rhan o ymosodiad cyd-gysylltiedig ac integredig ehangach. Bydd ysbïo seiberofod yn gallu cael ei ddefnyddio, a bydd yn cael ei ddefnyddio fel ymgyrchoedd dylanwadu a phropaganda ehangach, yn ogystal â fel dull i gefnogi gweithgarwch gelyniaethus ehangach hyd at a chan gynnwys rhyfela confensiynol.

**2.8.** Bydd y bygythiadau hyn yn parhau i ddatblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd defnydd cynyddol o awtomeiddio a phŵer deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid llawer o'r galluoedd hyn. Mae'n rhaid i ni fod yn wyliadwrus; deall y bygythiadau a wynebwn a bod yn barod i barhau i addasu.

# Ein dull gweithredu strategol

## Pennod 3

**3.1.** Wrth i'r cyd-destun a'r amgylchedd gweithredu newid, mae'n rhaid i Amddiffyn wneud hynny hefyd. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn cadw dinasyddion Prydain yn ddiogel rhag bygythiadau'r dyfodol a chyflawni'r uchelgais a'r amcanion trawslywodraethol a sefydlwyd yn yr Adolygiad Integredig. Mae'r Bennod hon yn nodi sut y bydd Amddiffyn yn newid ei ddull gweithredu i gyflawni'r uchelgais ar gyfer Prydain Fyd-eang a nodir yn yr Adolygiad Integredig ac i ddiogelu'r DU, ei dinasyddion a'i buddiannau yng ngoleuni'r cyd-destun strategol a gyflwynwyd ym Mhennod 1.

**3.2.** Fel un o'r prif offerynnau sydd ar gael i'r llywodraeth, mae gan Amddiffyn rôl unigryw i ddiogelu a hyrwyddo'r tri budd cenedlaethol sylfaenol a nodwyd gan yr Adolygiad Integredig: sofraniaeth, diogelwch a ffyniant. Ein prif ddiben yw diogelu ein pobl, ein tiriogaeth, ein seilwaith cenedlaethol allweddol a'n ffordd o fyw. Mae ein gweithrediadau yn sicrhau bod y DU yn cynnal rhyddid i weithredu a bod ei dinasyddion yn rhydd o orfodaeth neu ddylanwadu. Mae Amddiffyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymunedau lleol ac economi'r DU hefyd, gyda'n lluoedd arfog yn dod o bob rhan o'r Undeb, mae ein ôl-troed ar draws y DU yn darparu swyddi lleol, ein buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu arloesol a Diwydiant Prydain, a thrwy allforion amddiffyn.

**3.3.** Y gwerthoedd sy'n clymu dinasyddion o bob rhan o'r DU at ei gilydd yw ein cryfder parhaus a byddant yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n hymdrech. Byddwn yn ceisio cynnal cyfreithiau, rheolau ac ymddygiad rhyngwladol sy'n seiliedig ar y rhain – o Gyfreithiau Dyngarol Rhyngwladol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS). A byddwn yn sicrhau bod y fframweithiau sy'n llywodraethu ein gweithrediadau yn cyd-fynd â newidiadau technolegol, gan ymgorffori agwedd foesegol sy'n gyson â'n gwerthoedd a'n hegwyddorion craidd wrth ddylunio a lleoli technolegau newydd.

**3.4.** Mae ein agwedd at ryfela wedi esblygu'n gymharol araf yn y blynyddoedd diwethaf, tra bod ein gwrthwynebwyr wedi buddsoddi mewn offer a lluoedd sy'n amlygu ein gwendidau. Maent yn ymrwymedig i ddeall ein galluoedd a'n gweithgareddau, addasu eu hagwedd i'w galluogi i ennill heb ymladd rhyfel. Maent wedi canolbwyntio mwy ar gyflymder a pharodrwydd. Maent yn barod i ddefnyddio grym milwrol caled i'n herio, os ydynt o'r farn bod angen hynny, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddirprwyon. Bydd methiant i addasu agwedd, sgiliau a galluoedd ein lluoedd arfog i amgylchedd a bygythiad sy'n newid, byddwn yn cyflwyno mantais i'n gwrthwynebwyr. Mae'n rhaid sicrhau bod gan ein lluoedd arfog yr offer a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i arwain, dylanwadu, cydweithio, atal ac ymladd, pan fydd angen, er mwyn sicrhau bod y DU gyfan a'i buddiannau yn cael eu diogelu. Ni allwn fforddio sefyll yn stond wrth i'r byd o'n hamgylch newid. Mae'n rhaid i ni newid ein dulliau o atal ein gwrthwynebwyr, amddiffyn ein gwlad a buddiannau ein gwlad.

**3.5.** Rydym yn gwneud newid pendant i'n dull gweithredu. Roedd y Cysyniad Gweithredu Integredig, a gyhoeddwyd yn 2020, yn dangos sut yr ydym yn bwriadu addasu. Mae setliad ein hadolygiad ar wariant o fwy na £24bn yn ystod y pedair blynedd nesaf, a oedd yn cynyddu'r gwariant ar amddiffyn, wedi rhoi'r adnoddau sydd eu hangen arnom i gyflawni hyn. Mae hyn yn ychwanegol at ein buddsoddiadau arfaethedig i amddiffyn yn ystod yr un cyfnod.



**3.6.** Mae'r Cysyniad Gweithredu Integredig yn cyflwyno'r continwwm rhwng 'gweithredu ' ac 'ymladd rhyfel' a fydd yn galluogi ein lluoedd i fod yn fwy hyblyg wrth gyflawni ystod o dasgau. Bydd ein hymateb yn seiliedig ar foderneiddio ac integreiddio. Byddwn yn manteisio ar ein cryfderau traddodiadol gan gydnabod yr un pryd y bydd angen i ni addasu i fod yn barod ar gyfer bygythiadau'r dyfodol. Mae elfennau craidd ein dull gweithredu fel a ganlyn:

- **Mae ein cynghreiriaid a'n partneriaid** yn rhoi mantais strategol i ni, wrth rannu cyfrifoldebau diogelwch a darparu effaith lluosogi lluoedd. Bydd NATO, a'n gallu i gyfrannu llu ymladd rhyfel o safon uchel i'w defnyddio yn erbyn gwrthwynebwr yn parhau i fod yn ganolog i'n polisi. Ochr yn ochr â'n perthynas gadarn gyda'r UD, bydd yn parhau i fod yn gonglfaen ein diogelwch. Mae ein hymrwymiad Erthygl V ar y cyd, y bydd ymosodiad arfog yn erbyn un wladwriaeth yn cael ei ystyried yn ymosodiad ar bob un, yn ategu diogelwch y DU a'n Cynghreiriaid. Byddwn hefyd yn edrych at gynghreiriaid a phartneriaid eraill – gan gynnwys rhanbarth yr Indo-Môr Tawel – er mwyn cynyddu ein rhyngweithrededd ymhellach a rhannu'r baich ar draws y byd. Bydd angen i ni gyflawni'r cysyniad o fod mewn cynghrair drwy ddyluniad o ran y ffordd yr ydym yn datblygu capasiti a sut y byddwn yn gweithredu. Bydd sicrhau ein bod yn gweithio ochr yn ochr â'n cynghreiriaid i atgyfnerthu eu gwytnwch rhag bygythiadau a rennir yn hollbwysig.

- **Ein pobl**, o bedair cornel y DU, y Gymanwlad a thu hwnt, yw ein hadnodd pwysicaf. Hwy sy'n rhoi'r fantais i ni. Bydd angen i ni ddenu gweithlu mwy amrywiol sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i weithredu yn yr oes wybodaeth a buddsoddi a defnyddio datblygiadau technolegol cyflym.

- Bydd **arloesedd ac arbrofi** yn ysgogwyr moderneiddio, gyda mynediad at y dechnoleg ddiweddaraf. Oherwydd bod llawer o'r datblygiadau technolegol y tu allan i'r llywodraeth ar hyn o bryd, byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth gyda diwydiant i sicrhau bod gwaith ymchwil a datblygu arloesol yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gallu.

- Bydd **dealltwriaeth ac asesiad** yn fwyfwy pwysig er mwyn gwneud penderfyniadau a gweithredu'n effeithiol. Bydd angen i ni integreiddio yn ffisegol, yn rhithwir ac yn wybyddol.

- Esblygu o fod yn llu a ddyluniwyd yn bennaf ar gyfer digwyddiad o wrthdaro mawr ac ymladd rhyfel, i fod yn un sydd hefyd wedi'i ddylunio ar gyfer **ymgysylltiad byd-eang parhaol a parhaus.** Er mwyn llwyddo yn yr oes o gystadleuaeth systemig, bydd angen i ni fod un cam ar y blaen. Mae'n rhaid i ni a'n cynghreiriaid a'n partneriaid lywio'r tempo o weithgarwch strategol yn hytrach nag ymateb i eraill. Mae hynny'n galw am ffordd wahanol o feddwl. Mae'n golygu bod angen canolbwyntio ar osgo'r lluoedd i'r un graddau â'i strwythur. Mae'n galw am ffordd o feddwl sy'n seiliedig ar ymgyrchu parhaus, ac ystyried bod pob gweithgarwch yn rhan o ddyluniad gweithredol cyffredinol.

**3.7.** I gyflawni hyn bydd angen i ni fod yn:

- **Integredig ar draws y 5 parth** – y gofod, seiberofod, y môr, y tir a'r awyr. Byddwn yn mynd y tu hwnt i'r cysyniad traddodiadol o 'ar y cyd' i lefel o integreiddiad aml-faes sy'n ychwanegu llawer mwy na chyfanswm ei rannau.



- **Yn Integredig yn genedlaethol.** Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Integredig, mae angen newid sylweddol o ran integreiddio ar draws y llywodraeth, lle'r ydym yn rhannu cyfrifoldebau, er mwyn creu menter wirioneddol genedlaethol sy'n gallu defnyddio holl elfennau ein cymdeithas i sicrhau mantais genedlaethol. Wedi ein harwain gan y cyfeiriad a gyflwynir yn yr Adolygiad Integredig, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i gyflawni yn y blynyddoedd diwethaf drwy 'ddull cynhwysfawr' ac 'athrawiaeth gyfuno'. Ond mae'n rhaid i'n huchelgais fod yn fwy eofn.

- **Ymgysylltu'n rhyngwladol.** Dim ond drwy ymgysylltiad cyson a rhagweithiol y byddwn yn cynyddu ein dealltwriaeth, yn rhagweld bygythiadau ac yn datblygu'r partneriaethau a'r gallu fydd eu hangen arnom i fod yn ddiogel. Drwy agwedd fwy ymgysylltiol byddwn yn cynyddu ein dylanwad, yn hyrwyddo ein gwerthoedd ac yn creu undod y bydd ein gwrthwynebwyr yn ei ofni.

- **Yn fwy pendant.** Bydd angen i ni arddangos yr ewyllys a'r gallu – angheuol a nad ydynt yn angheuol – i wynebu'r bygythiadau yn gynnar. Dim ond drwy fod yn fwy hyderus y byddwn yn gwella dulliau atal a bod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi. Bydd hyn yn galw am lu sy'n fwy hyblyg, gwydn ac ymatebol i ddigwyddiadau.

- **Wedi ein harwain gan wybodaeth.** Gwybodaeth yw sylfaen integreiddiad. Bydd angen i ni fuddsoddi yn y galluoedd a fydd yn ein galluogi i gaffael a defnyddio gwybodaeth yn gyflym, er mwyn rhoi'r fantais i ni dros ein cystadleuwyr. Mae'n rhaid i ni ystyried yn ofalus effeithiau'r negeseuon a anfonwn.

**3.8.** Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y galluoedd pŵer caled ac yn y cyrhaeddiad byd-eang sy'n gosod y DU ar wahân i wledydd eraill, gyda llwyfannau a systemau arfau wedi'u moderneiddio ar draws pob parth. Fel y nodwyd yn Strategaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn 2020, byddwn yn blaenoriaethu ymchwil risg uwch er mwyn cefnogi'r gwaith o foderneiddio ein lluoedd arfog. Mae ein ffocws o'r newydd ar Ymchwil a Datblygu yn cyflwyno dull gweithredu newydd i sicrhau y byddwn yn defnyddio ein buddsoddiad yn strategol. Mae'n hollbwysig ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd i fod yn arloesol – a chanolbwyntio ar dechnolegau gweddnewidiol – a diogelu'r technolegau hynny a fydd yn rhoi'r fantais i ni. Bydd yn ein galluogi i sicrhau y bydd y DU yn parhau i feddu ar amddiffyniad cystadleuol, arloesol o safon fyd-eang i gyflymu'r broses o drawsnewid ein lluoedd arfog a chynnal ein mantais strategol.

**3.9.** Byddwn yn buddsoddi yng ngalluoedd ystwyth, rhyng-gysylltiedig y dyfodol, sydd wedi'u llywio gan ddata, gan dargedu llamau cenedlaethau wrth ddatblygu galluoedd er mwyn bod cam o flaen ein gwrthwynebwyr. Bydd cyflymder y newidiadau technolegol yn golygu y bydd angen i ni addasu, arbrofi a chymryd risgiau yn gyson, er mwyn diogelu'r fantais strategol. Drwy'r dull hwn, bydd Amddiffyn yn cefnogi uchelgais ehangach y llywodraeth i ddatblygu a defnyddio'r fantais strategol drwy Wyddoniaeth a Thechnegol i gyflawni nodau cenedlaethol. Bydd ein buddsoddiad yn cefnogi rhannau eraill o'r llywodraeth a diwydiant er budd diogelwch a gwytnwch economi'r DU gyfan.



# Grŵp Cludwyr Ymosod

Mae cyflwyniad Grŵp Cludwyr Ymosod (CSG) pumed cenhedlaeth Prydain yn dynodi newid sylweddol mewn gallu. Yn symbol o Brydain Fyd-eang ar waith, cafodd ein Cludwyr (HMS QUEEN ELIZABETH a HMS PRINCE OF WALES) eu cydosod yn yr Alban, o adrannau wedi'u hadeiladu ym mhob rhan o'r Undeb. Mae'r CSG yn darparu llwyfan i gyflawni amddiffyniad, polisïau tramor a blaenoriaethau masnachu'r Llywodraeth a thaflunio cyrhaeddiad a dylanwad y DU ar draws y byd. Mae'r gallu i leoli CSG sofran yn pwysleisio uchelgais ac arweinyddiaeth fyd-eang y DU fel gwlad gynhwysol, sy'n edrych tuag allan ac sy'n masnachu'n rhydd, gan amddiffyn ein gwerthoedd a'n buddiannau yn bendant a hyrwyddo rheolau rhyngwladol.

Mae'r CSG yn cynnwys ffrigadau, llongau distryw, llong danfor pŵer niwclear, llongau cefnogi a chludwr adain awyr jetiau F-35B a hofrenyddion y Llu Awyr Brenhinol a'r Llynges Frenhinol. Yn rhyngwladol ac yn ymgyfnewidiol drwy ddyluniad, mae'r CSG yn cynnig hyblygrwydd strategol unigryw, o atal bygythiadau gwladwriaethol a bygythiadau nad ydynt yn rhai gwladwriaethol, i waith dyngarol ac ymateb i drychinebau. Bydd CSG y DU ar gael yn barhaol i NATO, ymgorfforiad o'n hymrwymiad diwyro i amddiffyn yr ardal Ewro-Iwerydd. Bydd defnyddioldeb strategol y CSG yn cael ei arddangos drwy ei leoliad cyntaf yn 2021 i'r rhanbarth Indo-Môr Tawel. Ochr yn ochr â Llynges yr Unol Daleithiau a Chorfflu Morol yr Unol Daleithiau, bydd yn arddangos gallu'r DU i daflunio dylanwad byd-eang ac anfon neges bwerus ynglŷn â'n gallu a'n parodrwydd, i weithredu'n fyd-eang.



# Esblygu ar gyfer y dyfodol

## Pennod 4

**4.1.** Bydd cyflwyno'r Cysyniad Gweithredu Integredig yn sicrhau y bydd Amddiffyn yn parhau i gyflawni llawer o'r tasgau yr ydym wedi'u cyflawni'n draddodiadol. Ond mae angen i ni hefyd ymgymryd â thasgau newydd ac addasu'r ffordd yr ydym yn cyflawni tasgau traddodiadol o ystyried y cyd-destun strategol newidiol a'r bygythiadau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn datblygu athrawiaeth newydd, dulliau gweithredu newydd, galluoedd newydd a phartneriaid newydd i atal a rhwystro ein gwrthwynebwyr yn yr ardal lwyd rhwng heddwch a gwrthdaro. Mae ein model o Ymgysylltiad Parhaus yn ganolog i'n dull gweithredu newydd ar gyfer tasgau tramor, ond bydd ein gallu i ddiogelu'r DU, ein Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron yn parhau i fod yn hollbwysig.

### Ymgysylltu parhaus dramor

**4.2.** Yn y tirlun presennol o fygythiadau, ac mewn oes o gystadleuaeth gyson, mae'n rhaid sicrhau bod gennym bresenoldeb cynyddol i gystadlu gyda ac ymgyrchu yn erbyn ein gwrthwynebwyr o dan y trothwy o wrthdaro arfog, ac i ddeall, siapio a dylanwadu'r tirlun byd-eang, er budd y DU. Er mwyn mynd ar drywydd amcanion ein polisïau tramor a siapio'r amodau ar gyfer sefydlogrwydd, byddwn yn ail-gydbwyso ein llu i ddarparu presenoldeb parhaus mwy rhagweithiol, wedi'u lleoli ymlaen llaw. Bydd hyn yn sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o'n lluoedd arfog a chynnal yr effaith o rwystro a ddaw o fod yn barod i reoli argyfyngau ar raddfa.


**4.3.** Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Integredig, bydd y DU yn parhau i chwarae rôl ryngwladol flaenllaw yn datrys ac atal gwrthdaro. Bydd ein hymgysylltiad cyson yn cynyddu gallu'r DU i ragweld a rheoli argyfyngau cyn iddynt ddwysau a lleihau'r cyfleoedd i gyfranogwyr y wladwriaeth a rhai nad ydynt yn rhai'r wladwriaeth rhag tanseilio diogelwch rhyngwladol. Byddwn yn ymgysylltu yn y lleoedd hynny yr ydym yn credu y gallwn gyflawni'r effaith orau yn erbyn yr heriau byd-eang a wynebwn. Byddwn yn cyfuno ein hymdrechion gyda rhai adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, yr heddlu a'n cynghreiriaid, drwy gwaith cydweithredol wedi'i ariannu gan y Gronfa Gwrthdaro, Diogelwch a Sefydlogi (CSSF).

**4.4.** Bydd y dull hwn yn dangos mwy o ymrwymiad i'n cynghreiriaid a'n partneriaid na'n model presennol o ymweliadau, ymarferion a phecynnau hyfforddiant ysbeidiol, ad hoc. Bydd hefyd yn darparu dealltwriaeth gywir amser real er mwyn hysbysu penderfyniadau i'n helpu i gynnal mantais strategol.

**4.5.** Yn gyffredinol, bydd ein hymgysylltiad dramor yn rhoi dylanwad a dealltwriaeth i ni, yn atgyfnerthu ein partneriaethau, ein ffyniant a'n masnach, ac yn atal ein gwrthwynebwyr. Yn fwy penodol, bydd:

- Gennym **gnewyllyn proffesiynol mwy o bersonél sydd wedi'u lleoli'n barhaol**, yn darparu diplomyddiaeth amddiffyn o amgylch y byd. Byddwn yn cynyddu ein rhwydwaith byd-eang o draean, gan ehangu ein rhwydwaith Amddiffyn a Staff Amddiffyn Prydain i gydlynu gweithgarwch ar draws y rhanbarthau.

- Byddwn yn integreiddio ein gweithgareddau yn **sylfaen fyd-eang sy'n gallu ehangu**, a fydd yn cynnwys canolfannau a chyfleusterau sofran neu mewn partneriaeth. Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleusterau a seilwaith ar draws ein rhwydwaith. Yng Nghyprus, bydd ein buddsoddiad yn galluogi i luoedd ac awyrennau fod ar gael yn gyflymach yn ardal Ddwyreiniol Môr y Canoldir, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.




Bydd ein hymrwymiad parhaus yn Gibraltar yn galluogi i'n llongau ymgysylltu'n gyson o Gwlff Gini i Ddwyrain Môr y Canoldir. Bydd presenoldeb gwell yn Cenia yn hwyluso mwy o ymrwymiad i Ddwyrain Affrica, gan gynnwys drwy ein Rhaglen Hyfforddiant ac Ymarferion Tramor. Bydd buddsoddiad pellach yn Oman a mwy o fyddino i'r wlad a'r rhanbarth yn dangos ein hymrwymiad hirdymor i sefydlogrwydd a ffyniant y Gwlff, yn ogystal â'n presenoldeb yn Nhiriogaeth Cefnfor India Prydain. Ac yn yr Almaen, byddwn yn buddsoddi yn ein cyfleusterau storio presennol i gynyddu parodrwydd y lluoedd tir i'w byddino yn Ewrop.

- Defnyddio'r sylfaen hon i gynnal **presenoldeb amlwg i** ddatgan ein dylanwad, cefnogi ein cyfeillion ac atal ein gwrthwynebwyr. Byddwn yn cyfrannu at safle amlwg NATO ar agweddau rhwystro ac amddiffyn, wedi'u halinio gyda chysyniad rhwystro ac amddiffyn NATO ei hun. Gwnawn hynny drwy weithrediadau cyson mewn cyfnodau o heddwch, gan gynnwys drwy ein grŵp brwydr Uwch Bresenoldeb Amlwg yn Estonia a'n presenoldeb yng Ngwlad Pwyl, ymgyrchoedd plismona awyr a chyfraniadau at grwpiau morol NATO yn ardal yr Ewro-Iwerydd a chynyddu ein presenoldeb ymarfer gyda'n Cynghreiriaid i gefnogi amcanion Goruchaf Gomander y Cynghreiriaid yn Ewrop (SACEUR). A byddwn yn cynyddu ein presenoldeb a'n hymgysylltiad yn yr ardal Indo-Môr Tawel, yn ymrwymedig i bartneriaethau rhanbarthol hirdymor agosach a mwy dwys. Bydd ein Llongau Patrôl Alltraeth, ac yn ddiweddarach ein ffrigadau Math 31, yn hollbwysig i'n presenoldeb amlwg yn Ne'r Iwerydd, Y Caribî, Môr y Canoldir a Gwlff Gini, yn ogystal â Chefnfor India a'r Môr Tawel.


- Mabwysiadu dull ymgyrchu at **ddatblygu capasiti partneriaid**, gyda gallu wedi'i optimeiddio i weithio ochr yn ochr â lluoedd gwledydd eraill. Byddwn yn hyfforddi, cynghori, cynorthwyo a, phan fydd angen, yn cyd-fynd â hwy. Byddwn yn barod i weithredu gyda hwy mewn amgylcheddau gelyniaethus. Mae gweithgareddau o'r fath yn cyfrannu at ddiogelwch Ewro-Iwerydd; yng Ngorllewin y Balcanau ac Wcráin; ac yn ehangach, yng Ngorllewin a Dwyrain Affrica, y Gwlff, Irac, Afghanistan a'r rhanbarth Indo-Môr Tawel. Bydd cyfraniad Amddiffyn i'n perthnasoedd yn y rhanbarthau hyn yn rhan o ddull gweithredu ehangach y llywodraeth at wrthdaro ac ansefydlogrwydd, fel y nodwyd yn yr Adolygiad Integredig.

- Gwella cyfraniad amddiffyn i strategaeth gwrth-derfysgaeth y Llywodraeth, ymgyrchu i **rwystro terfysgaeth dramor**. Byddwn yn datblygu ein galluoedd cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth, rhagchwilio a galluoedd ymosod yn ôl ac ymlaen er mwyn i ni allu ymateb yn gyflym wrth i'r bygythiad ddatblygu. Bydd ein Lluoedd Arbennig yn barod i ymyrryd yn benderfynol pan fydd ein buddiannau'n cael eu bygwth.


- **Rhwystro a gwadu bygythiadau gwladwriaethol**, gan wneud ymdrech gyson, deinamig a chalibredig i sicrhau nad yw darpar wrthwynebwyr y DU yn gallu dylanwadu ar yr amgylchedd. I wneud hyn, byddwn yn defnyddio cymysgedd o weithgarwch gweithredol, cyfathrebu ac ymgysylltu strategol. Byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill a'r gymuned gudd-wybodaeth i sicrhau ein heffaith genedlaethol fwyaf.



# Ein Sylfaen fyd-eang



**Mae pob lleoliad yn ddangosol**




***Mae'r Rhwydwaith Attaché Amddiffyn yn ddangosool**

## Ymateb mewn argyfwng

**4.6.** Bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar weithredu'n flaengar, ceisio atal a rheoli argyfyngau cyn iddynt waethygu a lleihau'r cyfleoedd i'n gwrthwynebwyr fanteisio ar wrthdaro ac ansefydlogrwydd. Ond bydd hyn wedi'i ategu gan yr ewyllys a'r gallu i ail-gyflunio, gwthio ymlaen a defnyddio pŵer caled pan fydd y bygythiad yn mynnu hynny. Bydd yr ymyriadau risg uwch hyn yn amrywio o ymgyrchoedd gwrth-derfysgaeth wedi'u targedu i weithrediadau mwy a mwy cymhleth. Byddwn yn fwy cynnil ynglŷn â lle a sut y gallwn gael effaith gatalytig, gan fanteisio ar ein cryfderau, gweithio mewn mwy o bartneriaeth a chynnal yr hyblygrwydd i ail-leoli ein lluoedd wrth i'r sefyllfa newid. Fel rhan o agenda grym er daioni y DU, bydd Amddiffyn yn parhau i chwarae rôl yn darparu cymorth dyngarol a gwaith i leddfu effeithiau trychinebau, gan gynnwys yn ardal yr Iwerydd a'r Caribî yn ystod y tymor corwyntoedd.

## Ymladd rhyfel

**4.7.** Mae gan y DU ymrwymiad diwyro i NATO ac mae'n parhau i fod yn rhwym i'r gofyniad amddiffyn ar y cyd a hunan-amddiffyn o dan Erthygl V Cytuniad Washington: y bydd ymosodiad ar unrhyw aelod NATO yn ymosodiad ar bawb. Er mwyn ategu hygrededd ein osgo rhwystro, byddwn yn cynnal lluoedd niwclear a chonfensiynol â chefnogaeth dda ac offer digonol ar lefel parodrwydd uchel, ar draws pob parth, sydd â'r gallu i ymladd rhyfel dwyster uchel. Byddwn yn cynllunio ein lluoedd ymladd rhyfel i'w hintegreiddio gyda'r cynghreiriaid, drwy NATO yn bennaf, gan weithredu fel gwlad fframwaith (darparu'r swyddogaeth arwain a galluogi i NATO) i orchymyn ac ymgasglu gweithgarwch rhyfel ymladd y Cynghreiriaid.



Byddwn yn buddsoddi mewn parodrwydd a distrywioldeb, a sicrhau y gall lluoedd y DU wneud gwahaniaeth pendant yng nghamau cynnar unrhyw wrthdaro. Bydd lluoedd tir y gellir eu byddino'n gyflym yn atgyfnerthu ein presenoldeb amlwg, gyda'r Grŵp Cludwyr Ymosod (CSG) yn cynnig opsiwn lleoli hyblyg wrth ymateb i senario ymladd rhyfel. Bydd y DU yn gallu cyfrannu galluoedd allweddol o'r tir, yr awyr, y môr, seiberofod a'r gofod, ochr yn ochr â'n Lluoedd Arbennig, gan sicrhau ein bod yn gallu rheoli unrhyw sefyllfa sy'n dwysáu yn erbyn gwrthwynebwr. Bydd y Fyddin yn darparu llu ymladd alldeithiol, hyblyg ac wedi'i foderneiddio, yn seiliedig ar Bencadlys Corfflu Ymateb Cyflym y Cynghreiriaid fel Pencadlys Corfflu NATO, a 3 Adran (y DU) fel adran ymladd rhyfel, wedi'u hoptimeiddio i ymladd gwrthwynebwyr mewn cyd-destun NATO. Bydd dewisiadau doethach wrth gyflogi ein Milwyr Wrth Gefn yn gwneud defnydd gwell o arbenigedd i lenwi rolau amddiffyn allweddol mewn argyfwng a darparu lluoedd dilyn ymlaen mewn gwrthdaro mawr. Bydd ein galluoedd ymosod manwl-gywir yn parhau i gyfrannu at waith amddiffyn a rhwystro NATO, yn ogystal â bod yn elfen bwysig yn ein lluoedd y gellir eu byddino'n fyd-eang.


**4.8.** Bydd buddsoddiadau sylweddol mewn ffrigadau Rhyfela Gwrth-danfor a ffocws ar ryngweithredd agosach gyda chynghreiriaid, gan gynnwys yr UD, Ffrainc, Norwy a'r Iseldiroedd yn sicrhau bod y DU yn cadw ei rôl hanesyddol fel canolbwynt gallu NATO, er mwyn sicrhau ein rhyddid i weithredu yng Ngogledd yr Iwerydd ac atgyfnerthu cynghreiriaid Ewropeaidd. Bydd y buddsoddiadau hyn yn sicrhau ein bod hefyd yn gallu cyfuno lluoedd y DU gyda lluoedd NATO, yn benodol yn y Gogledd Uchel a'r Arctig, y Môr Baltig, y Balcaniaid, Môr y Canoldir a'r Môr Du. Mae'r Gogledd Uchel a chynnal diogelwch wrth amddiffyn Gogledd yr Atlantig yn parhau i fod yn bwysig iawn, gan ategu gwerth ein perthynas gadarn gyda Gwlad yr Iâ a'n partneriaid yn y Llu Alldeithiol ar y Cyd (JEF), Denmarc, Estonia, y Ffindir, Latfia, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden ac o'r gwanwyn yn 2021, Gwlad yr Iâ.

## Amddiffyn y DU a'n tiriogaeth

**4.9.** Mae rhai tasgau yn parhau i fod yn rhai cyson, a'n blaenoriaeth bob amser fydd amddiffyn y DU, ei phobl a'i thiriogaeth. Byddwn yn darparu asedau awyr a morol parodrwydd uchel i rwystro ac ymateb i fygythiadau i'r DU. Gan weithio gyda'r gymuned cudd-wybodaeth a diogelwch, bydd ein rhwydweithiau seiberofod a chudd-wybodaeth yn diogelu'r DU rhag ysbïo a bygythiadau i'n seilwaith cenedlaethol hollbwysig. Byddwn yn parhau i amddiffyn y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron, diogelu eu pobl a sicrhau eu hawl i wneud penderfyniadau eu hunain. Bydd y lluoedd arfog yn cynnal presenoldeb rhwystro yn Ynysoedd y Falkland, yn diogelu dyfroedd tiriogaethol Gibraltar ac yn parhau i gyfrannu at ddiogelwch Ardaloedd y Ganolfan Sofran yng Nghyprus. Mae Arolwg Antartig Prydain yn darparu presenoldeb parhaol y DU yn Nhiriogaeth Brydeinig yr Antartig a De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De. Bydd patrolau tymhorol blynyddol yr Antartig gan ein llong Batrôl Rhew, HMS PROTECTOR, yn cynnal ac yn sicrhau cydymffurfiaeth gwladwriaethau eraill yn atal gweithgarwch milwrol, profi arfau a dilyn protocolau amgylcheddol o dan System Cytuniad Gogledd Iwerydd.

**4.10.** Byddwn yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i ddiogelwch a gwytnwch ehangach y DU i gefnogi awdurdodau sifil, gan ddarparu sgiliau arbenigol. Byddwn yn cynnal lluoedd ar lefelau uchel o barodrwydd er mwyn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau cenedlaethol o beryglon amgylcheddol, gan gynnwys llifogydd difrifol, i ymosodiadau gelyniaethus gan derfysgwyr neu wladwriaethau. Bydd y lluoedd arfog a gwyddonwyr amddiffyn yn parhau i gefnogi awdurdodau domestig gyda bygythiadau ffrwydrol a CBRN ac yn darparu timau gwaredu ordnans ffrwydrol i ddiogelu bomiau a dyfeisiadau eraill nad ydynt wedi ffrwydro.

# Diogelu ein gwlad



Byddwn hefyd yn darparu cymorth i asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU a phartneriaid eraill hefyd i rwystro'r bygythiad a gyflwynir gan smyglo, ymfudo anghyfreithlon a mynediad anghyfreithlon i bysgodfeydd y DU. Byddwn yn datblygu ein dull gweithredu at wytnwch cenedlaethol yn unol â'r Strategaeth Cydnerthedd Genedlaethol Gynhwysfawr.

## Ataliaeth Niwclear

**4.11.** Mae ataliaeth niwclear annibynnol, gredadwy ar lefel ofynnol, yn seiliedig ar bresenoldeb parhaus ar y môr ac sydd wedi'i haseinio i amddiffyn NATO, yn parhau i fod yn hollbwysig fel y prif warant i'n diogelwch ni, a'n cynghreiriaid. Ers mis Ebrill 1969, mae llong danfor taflegryn balistig y Llynges Frenhinol wedi bod ar batrôl rhwystro bob amser yn y môr. Wedi'u harfogi â thaflegrau niwclear strategol, mae'r llongau tanfor hyn wedi gweithredu fel rhwystr niwclear parhaus y wlad yn erbyn rhai o'r bygythiadau mwyaf i'r DU a'n cynghreiriaid, drwy anfon neges glir i unrhyw ddarpar ymosodwyr. Nid yw bygythiadau eithafol i'r DU a'n cynghreiriaid wedi diflannu.

**4.12.** Mae rhai gwladwriaethau ag arfau niwclear yn cynyddu ac yn amrywio eu harfau, wrth i gystadleuaeth fyd-eang gynyddol, heriau i'r drefn amlochrog, a'r niferoedd cynyddol o dechnolegau a allai aflonyddu, gyflwyno bygythiad i sefydlogrwydd strategol. Mae'n rhaid i'r DU sicrhau na all gwrthwynebwyr posibl fyth ddefnyddio eu galluoedd i'n bygwth ni neu ein cynghreiriaid yn NATO, i atal ein gallu i wneud penderfyniadau mewn argyfwng, neu noddi terfysgaeth niwclear. Mae gwybodaeth bellach am bolisi ataliaeth niwclear y DU yn yr Adolygiad Integredig.

**4.13.** Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ymrwymo i raglen unwaith mewn dwy genhedlaeth i foderneiddio ein lluoedd niwclear. Bydd hyn yn cynnwys disodli ein llongau tanfor Dosbarth Vanguard presennol gyda phedair llong danfor Dosbarth Dreadnought newydd. Wedi'u dylunio a'u hadeiladu yn y DU, bydd y llongau tanfor newydd hyn ymhlith y peiriannau mwyaf datblygedig a adeiladwyd erioed, a fydd yn defnyddio technoleg flaenllaw a blaengar i ddarparu gallu medrus ac aruthrol. Byddwn hefyd yn disodli arfbennau niwclear y DU er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ataliaeth effeithiol yn ystod y broses o gomisiynu'r Dosbarth Dreadnought, gan weithio'n agos gyda'r UD er mwyn sicrhau bod ein arfben sofran newydd yn parhau i fod yn gydnaws ag eroshell Mk7 a System Arfau Strategol Trident. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Ffrainc o dan Gytuniad Teutates, ac yn gweithio gyda'n gilydd ar y dechnoleg sy'n gysylltiedig â stiwardiaeth cyflenwadau niwclear i gefnogi ein galluoedd ataliaeth niwclear annibynnol ni a nhw. Byddwn yn cydweithio ar draws y sector niwclear i optimeiddio'r Fenter Niwclear Amddiffyn ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod y DU yn cynnal ac yn datblygu ei sgiliau drwy ystod eang o gwmnïau. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r nod hirdymor o fyd heb arfau niwclear ac yn parhau i weithio i ddiogelu ac atgyfnerthu dulliau effeithiol o reoli arfau, diarfogi a mesurau atal twf arfogaeth niwclear, gan ystyried yr amgylchedd diogelwch presennol.



# Rhwystro bygythiad CBRN

**Mae'r defnydd o arfau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear (CBRN) yn parhau i fod yn fygythiad parhaus a chynyddol i'r DU, lluoedd sydd wedi'u lleoli a sefydlogrwydd rhyngwladol. I rwystro'r bygythiad hwn, bydd gennym alluoedd ar waith sy'n ein galluogi i gynnal ein rhyddid i weithredu'n wleidyddol ac yn filwrol, er gwaethaf presenoldeb, y bygythiad neu'r defnydd o ddeunyddiau CBRN. Mae'n rhaid i Amddiffyn fod yn barod hefyd i ddarparu lluoedd i rwystro CBRN i gefnogi ymateb cydnerthedd cartref y DU i fygythiadau lluosog a'n gallu wrth gefn i weithredu dramor. Dylem gefnogi ymdrechion NATO i wella eu parodrwydd i rwystro ac amddiffyn yn erbyn digwyddiad CBRN ac i sicrhau bod eu lluoedd yn barod i ymladd a threchu amgylchedd bygythiol CBRN, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd gallu gwyddoniaeth a thechnoleg CBRN o'r radd flaenaf yn parhau i wneud cyfraniad hollbwysig wrth gynnal ein mantais weithredol yn erbyn CBRN a rhwystro'r bygythiadau CBRN presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.**






# Cyfraniad Amddiffyn i COVID-19

**O lwyddiant ysgubol y gwaith o greu'r ysbytai maes ar hyd a lled y wlad, gan gynnwys yr ysbytai Nightingale, i ddarparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a chefnogi gyrwyr ambiwlans, staff ysbytai'r GIG a chartrefi gofal, mae Amddiffyn wedi bod yn cefnogi ar y rheng flaen ac yn yr ymdrech gynllunio gymhleth sy'n sail i hyn. Fe wnaethom leoli timau asesu milwrol i bob un o ranbarthau'r GIG yn Lloegre ac i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: yn asesu'r sefyllfa ar lawr gwlad ac yn creu a chydlynu ymatebion effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys cymorth i ddosbarthu'r brechlyn, profion cymunedol, profi cludwyr yng Nghaint, cefnogi'r GIG a'r Gwasanaethau Ambiwlans, ac awyrgludo cleifion o Ynysoedd yr Alban, yn ogystal â chefnogaeth cynllunio mewn argyfwng. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, fe wnaethom gefnogi ymateb ein tiriogaethau tramor i Covid-19, yn darparu cymorth i Gibraltar, Ynysoedd y Falkland a'r Caribî, a chefnogi'r Adran Drafnidiaeth drwy brofi cludwyr a oedd yn croesi'r Sianel. Mae ymateb Amddiffyn i Covid-19 wedi dangos gallu ein lluoedd arfog i addasu i argyfyngau newydd, cynyddu a theilwra cyfraniadau er mwyn darparu'r cymorth mwyaf addas i'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig. Gan ateb bron i 400 o geisiadau am Gymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil, cefnogi pedwar ar ddeg o adrannau eraill y llywodraeth, mae cyfraniad Amddiffyn i'r ymateb i Covid-19 wedi bod yn ymateb y llu gyfan ac yn ymateb y DU gyfan.**





# Cyfraniad Amddiffyniad i Brydain Fyd-eang

## Pennod 5

**5.1.** Bydd integreiddio gyda'n cynghreiriaid yn hollbwysig er mwyn cynnal ein mantais strategol ar draws y byd. Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein hymrwymiadau i NATO, yr UD a thu hwnt er mwyn mynd i'r afael â'n heriau diogelwch cyffredin. Tra bod NATO a'n perthynas gyda'r UD yn parhau i fod yn sylfaen i'n diogelwch, byddwn yn edrych i gynghreiriaid a phartneriaethau eraill – gan gynnwys i gefnogi gogwydd Llywodraeth y DU at y rhanbarth Indo-Môr Tawel er mwyn cynyddu ein rhyngweithrededd a rhannu baich ar draws y byd.

**5.2.** Mae'r gallu a'r parodrwydd i ymrwymo gallu caled i ymladd rhyfel yn sylfaen sylfaenol i'n dylanwad a'n hataliaeth. Wedi'i gyfuno â chryfder ein cynghreiriaid a'n partneriaethau, mae'n ffurfio rhan hollbwysig o'r effaith ataliol sy'n cadw ein gwrthwynebwyr dan reolaeth. Mae hyblygrwydd ein lluoedd arfog a'u gallu i fyddino lle mae eu hangen fwyaf, yn elfen ganolog o'n cynnig i gynghreiriaid a phartneriaid. Mae gweithredu, hyfforddi ac ymarfer gyda'n gilydd, yn ogystal â datblygu athrawiaeth a galluoedd gyda'n gilydd, yn creu'r sail i amddiffyniad modern.

**5.3.** Mewn oes o gystadleuaeth a bygythiadau diogelwch byd-eang, mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddarparu cefnogaeth filwrol i'n cynghreiriaid a'n partneriaid lle bynnag y bydd eu hangen. Mae gallu Prydain i gyflwyno pŵer yn y modd hwn yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol o'n polisi amddiffyn. Arddangos ein gallu, a gweithredu'n effeithiol ochr yn ochr â'n partneriaid yw'r ffordd orau i sicrhau sefydlogrwydd ac atal gwrthdaro.

**5.4.** Bydd NATO yn parhau i fod yn sail i'r diogelwch yn ein rhanbarth cartref yr Ewro-Iwerydd. Hwy yw'r fforwm blaenllaw lle mae Ewrop, yr UD a Canada yn llunio eu strategaeth ar gyfer ymateb i fygythiadau, ac felly mae'n rhaid iddynt addasu'n gyson i fyd sy'n newid.

**5.5.** Prif gryfder NATO yw ei allu i addasu. Mae'n rhaid i'r Gynghrair fod yn ymwybodol o newidiadau technolegol a defnyddio'r ystod lawn o alluoedd milwrol ac anfilwrol yn erbyn y bygythiadau a wynebwn. Byddwn yn parhau i fod y cynghreiriad arweiniol Ewropeaidd yn NATO, fel un o'r unig ddau gynghreiriad (gyda'r UD) sy'n gallu darparu arfau niwclear ymosodiad seiber, manwl-gywir ac awyrennau ymosod pumed cenhedlaeth ar draws rhanbarth NATO. Bydd ein hymdrechion i foderneiddio ein lluoedd arfog ni ein hunain yn sicrhau y gallwn chwarae rôl arweiniol yn nhrawsnewidiad NATO ei hun wrth gyflawni ei swyddogaethau ataliaeth ac amddiffyniad. O safbwynt gwleidyddol a milwrol, mae'n rhaid i NATO ymateb i dueddiadau fel:

- pwysigrwydd y gofod a seiberofod fel parthau gweithredol ac ymladd rhyfel.
- yr her systemig a gyflwynir gan Tsieina.
- y bensaernïaeth rheoli arfau yn gwanhau, ymlediad arfau datblygedig ar draws y byd a'r bygythiad cynyddol o orfodaeth niwclear gan ein gwrthwynebwyr, yn benodol Rwsia.
- argyfyngau iechyd byd-eang (gan gynnwys ein hymateb i Covid-19) a'r heriau a gyflwynir gan newid yr hinsawdd.
- cyflymder, graddfa ac effaith aflonyddgar bosibl datblygiadau technolegol.



- yr angen i atal a chyfyngu ymosodiadau hybrid ar y Gynghrair a'i haelodau, er enghraifft ymosodiadau seiber, llofruddiaethau, tarfu ar systemau yn y gofod, gwybodaeth ffug ac ymdrechion i erydu ein sylfaen dechnolegol drwy ysbïo.

**5.6.** Mae'r heriau hyn yn golygu bod angen i NATO sicrhau bod ei strwythur gorchymyn, strwythur lluoedd, gweithgarwch gweithredol, athrawiaeth a'r galluoedd y mae'n gofyn i gynghreiriaid fuddsoddi ynddynt, yn cadw ar yr un trywydd cyflymder â graddfa a chymhlethdod y newidiadau. Maent hefyd yn gofyn i NATO weithio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys gydag asiantaethau anfilwrol y Gynghrair, yn ogystal ag ystod o wledydd partner sy'n rhannu eu gwerthoedd a'u diddordebau. Bydd gwella ein gallu ar y cyd i reoli ystod eang o argyfyngau aml-barth yn allweddol. Mae'r DU yn ymrwymedig i chwarae rôl arweiniol ym mhob un o'r materion hyn, gan lywio datblygiad cysyniadol NATO a derbyn ein cyfradd o'r baich o ran cyllid, galluoedd a chyfrannu at bob gweithrediad ac ymgyrch. Mae ein rôl ryngwladol ehangach yn ased i NATO, oherwydd mae cyswllt annatod rhwng diogelwch y Gynghrair a diogelwch byd-eang.

**5.7.** Bydd ein dull gweithredu ein hunain o fewn NATO yn cael ei lywio drwy ddatblygu llu gwirioneddol ar y cyd, parodrwydd uchel, gan integreiddio technolegau a dulliau gweithredu arloesol a gweithredu ym mhob un o'r pump parth, gan gynnwys y seiberofod a'r gofod. Byddwn yn parhau i fod y prif wariwr Ewropeaidd ar Amddiffyn yn NATO, gan ddarparu cyfres unigryw o alluoedd a gweithgareddau, gan gynnwys:

- Dull ymgyrchu er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rheolaeth well a, lle bo'n briodol, gwrthsefyll ymosodiad islaw'r trothwy o wrthdaro arfog yn yr ardal Ewrop-Iwerydd.
- Datblygu'r Llu Ymdeithio ar y Cyd (JEF) ymhellach (gyda **Denmarc, Estonia, y Ffindir, Latfia, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden** ac o'r gwanwyn 2021, **Gwlad yr Ia**) er mwyn cynnig opsiynau hyblyg i'r gwledydd hyn reoli cystadleuaeth islaw'r trothwy yn ogystal ag ymateb i argyfyngau, a gwella ei ryngweithrededd â NATO.
- Presenoldeb amlwg er mwyn rhwystro ein gwrthwynebwyr, gan gynnwys yr Uwch Bresenoldeb Amlwg, Plismona'r Awyr, patrolau llyngesol rheolaidd ac ymarfer gyda'n cynghreiriaid.
- Gweithgareddau ymgysylltu cyson yn rhanbarthau daearyddol pell ag agos NATO, gan ddarparu swyddogaeth atal ansefydlogrwydd a bygythiadau terfysgaeth. Rydym yn cynnal ymrwymiad parhaus i KFOR, ymgyrch NATO yn Kosovo. A byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r bygythiadau i ardaloedd deheuol a dwyreiniol NATO, gan gynnwys drwy fynd i'r afael â hwy drwy ymyriadau sylfaenol.
- Lluoedd parodrwydd uchel, gan gynnwys ein Grŵp Cludwyr Ymosod a Lluoedd Ymosod Arfordirol, a bod yn barod i ymateb i fygythiadau o fewn 30 diwrnod.
- datgan ataliad niwclear ar gyfer amddiffyn Cynghreiriaid NATO.
- Ein galluoedd ymosod seiberofod sy'n ymrwymedig i'r Gynghrair.
- Cyfres o alluoedd ymladd rhyfel parodrwydd uchel sydd wedi'u halinio â'n hymrwymiadau i Fenter Parodrwydd NATO a Phroses Cynllunio Amddiffyn NATO.

**5.8.** Mae'r DU a'r **UD** yn gynghreiriaid anhepgor ac yn bartneriaid digyffelyb ar gyfer diogelwch, amddiffyn a pholisi tramor. Cydweithrediad amddiffyn y DU-UD yw'r mwyaf eang, dwfn a datblygedig rhwng unrhyw ddwy wlad unrhyw le yn y byd.



Gyda'n gilydd, rydym yn rhannu baich arweinyddiaeth ryngwladol, sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin, ein cyrhaeddiad a'n galluoedd byd-eang, a'n diddordeb cyffredin mewn cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol yn yr oes hon o gystadleuaeth systemig. Mae ehangder ein perthynas yn ddigyffelyb, gan ymestyn ar draws y sbectrwm Amddiffyn llawn, gan gynnwys cudd-wybodaeth (yn bennaf drwy'r perthnasoedd Pump Llygad), cydweithrediad niwclear, ymchwil gwyddonol a rhaglenni gallu blaenllaw. Byddwn yn datblygu ein partneriaeth unigryw ymhellach mewn meysydd sy'n cynnwys y seiberofod, y gofod, y genhedlaeth nesaf o alluoedd ac ataliaeth, ac yn cydweithio i atgyfnerthu cynghrair NATO ymhellach.

**5.9.** Mae'r **Pump Llygad (Awstralia, Canada, Seland Newydd, y DU** a'r **UD)** yn hollbwysig i'n dull gweithredu. Mae'n grŵp o gynghreiriaid o'r un anian, sydd â barn unfryd ynghylch y bygythiadau, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli. Hwy hefyd yw'r trefniant rhannu cudd-wybodaeth rhyngwladol arweiniol. Ond mae'n llawer mwy na hynny. O ran Amddiffyn, dyma'r sail ar gyfer cydweithio ar ddadansoddiad strategol, datblygu gallu, rhyngweithredededd, rhannu baich a chydlynu gweithredol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu fel cymuned Pum Llygad ar bob lefel, o'r Gweinidogion Amddiffyn i lawr, i sicrhau ein bod yn cyflawni ar bopeth sydd gan y grŵp i'w gynnig. Mae ein partneriaethau gyda **Canada, Awstralia** a **Seland Newydd** yn ganolog i'n gogwydd i'r rhanbarth Indo-Môr Tawel wrth i ni weithio i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â'r heriau diogelwch yn y rhanbarth. Mae'r gwaith o ddatblygu ein gallu Ymladd Rhyfel Gwrth-danfor gydag Awstralia a Chanada drwy'r rhaglenni ffrigad Math 26 a dosbarth Hunter, yn ddim ond un enghraifft o fanteision cydweithrediad dwys.

**5.10.** Mae'r DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda **phartneriaid** a **chynghreiriaid Ewropeaidd,** a bydd yn parhau i fuddsoddi yn helaeth yn niogelwch a ffyniant Ewropeaidd. Byddwn yn cydweithio i feithrin dylanwad a chydweithrediad ar draws Ewrop, er mwyn gwrthsefyll dylanwad malaen, atal ac amddiffyn rhag bygythiadau, datblygu gwytnwch a chwilio am gyfleoedd i rannu ein ffyniant a rennir pan fydd ein buddiannau yn alinio. Er bydd NATO yn parhau i fod ein prif fforwm ar gyfer ymgysylltu ar ddiogelwch Ewropeaidd, byddwn yn adfywio perthnasoedd dwyochrog yn Ewrop, yn gwella ein rhwydwaith o Attachés Amddiffyn a Staff Amddiffyn a dwysáu ein perthynas gyda'r Llu Alldeithiol ar y Cyd. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad i ranbarth y Môr Du, y Gogledd Uchel, y Baltigau a'r Balcanau Gorllewinol (lle byddwn yn cyflwyno menter hyfforddiant rhanbarthol newydd), gan adeiladu a gweithio drwy grwpiau amlochrog, er enghraifft y Grŵp Gogleddol.

**5.11.** Yn gynghreiriaid am dros ganrif, mae **Ffrainc** a'r DU yn bartneriaid hollbwysig i ddiogelwch Ewrop ac yn NATO. Rydym yn gweithredu ochr yn ochr â'n gilydd yn Estonia, Gorllewin Affrica ac Irac ac mae gennym berthynas niwclear agos. Degawd ar ôl cytuniadau Tŷ Lancaster, rydym yn agosach ac yn fwy rhyngweithredol nag erioed, gyda'n Llu Alldeithiol ar y Cyd Cyfun (CJEF) yn cyflawni eu gallu gweithredu llawn yn 2020. Mae hyn yn darparu gallu unigryw ar gyfer gweithrediadau alldeithiol a fframwaith i sicrhau cydweithrediad ac aliniad ar gyfer lleoliadau cenedlaethol, gan gynnwys ein Grwpiau Cludwyr Ymosod priodol. Byddwn yn parhau i gydweithio i ddatblygu gallu, cyflenwi'r technolegau y genhedlaeth nesaf o daflegrau, gan gynnwys taflegrau mordeithio a gwrth-longau a system canfod ffrwydron annibynnol arloesol. Mae'r DU a Ffrainc hefyd yn bartneriaid naturiol yn Ewrop ar greu tueddiadau newydd, er enghraifft addasu amddiffyniad i'r newid yn yr hinsawdd, symudiadau yn y gofod a'r seiberofod, rheoli arfau a'n rolau yn y rhanbarth Indo-Môr Tawel.

**5.12.** Mae'r **Almaen** yn aelod hollbwysig o NATO ac rydym yn rhannu ystod eang o fuddiannau amddiffyn gyda hwy ac mae'n parhau i fod yn lleoliad pwysig ar gyfer byddino lluoedd y DU.





Bydd ein partneriaeth ddiwydiannol amddiffyn, a ddatblygwyd yn ystod 40 mlynedd o gydweithrediad ar ymladd yn yr awyr, yn datblygu i feysydd newydd, gan gynnwys systemau tir. A byddwn yn bartneriaid allweddol ar y gofod, y seiberofod a diogelwch Ewrop. Ynghyd â'r Eidal a Sbaen, byddwn yn parhau i ddatblygu'r system Eurofighter, y jet ymladd a ddefnyddir yn fwyaf eang yn Ewrop. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth yn amlach gyda'r Almaen ar leoliadau gweithredol, er enghraifft plismona'r awyr ac ymgyrchoedd morol y tu hwnt i'r ardal Ewro-Iwerydd.


**5.13.** Mae'r **Eidal** yn datblygu i fod yn bartner mwy arwyddocaol i'r DU, gydag ymrwymiad a rennir i ddiogelwch ym Môr y Canoldir, y Lefant ac Afghanistan. Rydym yn bartneriaid ar hofrenyddion, taflegrau ac, ynghyd â Sweden, ar ddatblygiad gallu ymladd yn yr awyr yn y dyfodol. Yn ogystal â'n partneriaid JEF, mae gan **Wlad Groeg, Gwlad Pwyl, Sbaen** a **Thwrci** rolau allweddol yn amddiffyn ardaloedd dwyreiniol a gorllewinol NATO, maent yn wynebu bygythiadau diogelwch sylweddol y gall y DU helpu i'w rheoli, ac maent yn bartneriaid diwydiannol amddiffyn ar gyfer y DU. Mae gan **Weriniaeth Cyprus** gyswllt agos ac unigryw gyda'r DU drwy'r Ardaloedd Canolfan Sofran sy'n ased fwyfwy pwysig ar gyfer amddiffyn Ewrop gyfan.

**5.14.** Mae'r **Wcráin** wedi dioddef colledion tiriogaethol sylweddol o ganlyniad i ymddygiad ymosodol Rwsia. Gyda'n Cynghreiriaid NATO byddwn yn helpu i gynyddu gwytnwch y tactegau ymosodol parhaus – confensiynol ac islaw'r trothwy – a ddefnyddir gan eu cymydog. Bydd ein cenhadaeth meithrin capasiti, sy'n cynnwys hyfforddiant tir a môr, yn helpu i ddatblygu Lluoedd Arfog yr Wcráin a'u rhyngweithrededd gyda NATO. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid eraill yn **rhanbarth y Môr DU, Bwlgaria, Gwlad Groeg, Rwmania** a **Thwrci** yn bennaf, er mwyn sicrhau rhyddid modrwyo a diogelwch. Fel rhan o hyn byddwn yn parhau i arfer ein rhyddid i weithredu yn y Môr Du, yn unol â Chonfensiwn Montreux, drwy NATO a lleoliadau ar ein pen ein hunain.

**5.15.** Mae **Twrci** yn Gynghreiriad hollbwysig i NATO, gyda rôl i'w chwarae mewn llawer o agweddau ar ddiogelwch rhanbarthol ehangach, gan gynnwys y frwydr yn erbyn terfysgaeth. Mae'n delio'n uniongyrchol ag ymyriadau milwrol Rwsia yn rhanbarthau Môr y Canoldir a'r Môr Du. Byddwn yn gweithio i atgyfnerthu perthynas hirdymor ar weithrediadau (gan gynnwys mesurau sicrwydd NATO), galluoedd a chydweithrediad diwydiannol.

**5.16.** Mae gan y DU berthnasoedd hirsefydledig gyda **Saudi Arabia** a phob un o chwe gwlad **Cyngor Cydweithrediad y Gwlff** er mwyn cefnogi diogelwch ac amcanion ffyniant a rennir. Oherwydd bod y rhanbarth yn lleoliad pwyntiau tagu morol sy'n hollbwysig i fasnach rhyngwladol, bydd y perthnasoedd hyn yn parhau i fod yn bwysig, yn ogystal â'n hymrwymiadau cynyddol yn **Oman**. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n cynghreiriaid i wneud y rhanbarth yn fwy diogel a sefydlog, gan gynnwys drwy ein timau ymarferion hyfforddi a gwasanaeth benthyca milwrol. Rydym hefyd yn gweithio i gefnogi rhaglen ddiwygio Gweinyddiaeth Amddiffyn Saudi Arabia. Yn 2018 bu i ni sefydlu Sgwadron Typhoon ar y Cyd sy'n hyfforddi peilotiaid y DU a **Qatar** ac yn darparu profiad i Qatar ar sut i baratoi ar gyfer derbyn eu hawyren Typhoon gyntaf gan y DU yn 2022.

**5.17.** Yn **Irac**, mae'r DU yn gyfrannwr pwysig i'r Gynghrair 82 Aelod i Drechu Daesh. Yn dilyn ymgyrch unedig, nid oes gan Daesh diriogaeth arwyddocaol yn Irac a **Syria** mwyach. Mae'r DU wedi hyfforddi mwy na 120,000 o filwyr Iracaidd a Chwrdaidd Iracaidd ac yn ystod yr ymgyrch awyr aml-barth pendant dros Irac a Syria, rydym wedi darparu traean o holl gudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth, caffael targed a rhagchwilio a rhyddhawyd mwy na 4,000 o arfau manwl-gywir. Bydd yr ymrwymiad hwn i amddiffyniad y cynghreiriaid yn parhau yn y dyfodol.



Bydd gwella Cyrch NATO yn Irac, ac yn benodol addysg filwrol broffesiynol a chefnogaeth ymgynghorol gweinidogol, yn cyfrannu at ddyfodol Irac fel gwladwriaeth weithredol, sefydlog a diogel, sy'n gallu darparu ar gyfer ei hanghenion diogelwch ei hun. Mae'r DU yn cynnal ein cysylltiadau dwfn a hanesyddol ar draws y Lefant a Gogledd Affrica, gydag ymarferion hyfforddiant ar y cyd rheolaidd a chydweithrediad gwrth-derfysgaeth yn, er enghraifft, **yr Aifft** a **Moroco**, yn ogystal ag ymgysylltiad cyson yn **Jordan**, gyda'i staff parhaol Gwasanaeth Benthyg y DU. Mae **Israel** yn parhau i fod yn bartner strategol allweddol.

**5.18.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol **Dwyrain Affrica** i fuddiannau'r DU, a bydd **Cenia** yn parhau i fod yn bartner strategol i ni ac yn ganolog i'n cynlluniau ar gyfer y rhanbarth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda hwy yn rhanbarthol a rhyngwladol i sicrhau y gallwn fynd i'r afael â bygythiadau ar y cyd, gan gynnwys eithafiaeth a therfysgaeth dreisgar, hyrwyddo sefydlogrwydd rhanbarthol a chydweithio ar weithrediadau cefnogi heddwch. Bydd ein perthynas yn esblygu ym mhob parth, a bydd cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer hyfforddiant a pharodrwydd ar y cyd a datblygiad sefydliadol ar y cyd. Gall ein lluoedd ddysgu gan ei gilydd drwy hyfforddi a dysgu gyda'i gilydd. Rydym yn bwriadu cynyddu ein presenoldeb milwrol yn Cenia, ac atgyfnerthu ein rhwydweithiau gyda Staff Amddiffyn a hwb rhanbarthol Prydain.

**5.19.** Byddwn yn cyfrannu'n weithredol i weithredu yn erbyn **Al Shabab**, y grŵp terfysgaeth sydd â chysylltiad ag AQ yn **Somalia** sy'n cyflwyno bygythiad uniongyrchol i fuddiannau'r DU a sefydlogrwydd rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith Amddiffyn ar draws y llywodraeth a chyda phartneriaid rhanbarthol a chynghreiriaid allweddol i wanychu a rhwystro'r grŵp. Byddwn hefyd yn gweithio i gefnogi'r gymuned ryngwladol i helpu Somalia i ddarparu eu diogelwch eu hunain a pharatoi ar gyfer datrysiadau hirdymor. Byddwn yn parhau i gefnogi Somalia gryfach a fwy sefydlog; yn darparu hyfforddwyr a chynghorwyr i Fyddin Genedlaethol Somalia a swyddogion cyswllt i Genhadaeth **Undeb Affrica** yn Somalia (AMISOM) a chyrchoedd y Cenhedloedd Unedig. Ochr yn ochr â hyn rydym yn darparu cymorth meithrin capasiti i wledydd sy'n cynnwys Cenia, Ethiopia ac Wganda, gan gyfrannu at eu gweithrediadau AMISOM – a'i gwneud yn anos i Al Shabab allu gweithredu.

**5.20.** Yng **Ngorllewin Affrica** mae ein gwaith i gefnogi gweithrediadau heddwch y Cenhedloedd Unedig (CU) bellach yn cynnwys cyfraniad sylweddol o 300 o bersonél y DU i genhadaeth y CU ym **Mali** (MINUSMA), gan ddarparu grŵp rhagchwilio ystod hir. Mae hyn yn cefnogi ein nod i atgyfnerthu gallu'r CU i lwyddo yn eu cyrchoedd mwyaf anodd, ond hefyd gallwn gyfrannu ar unwaith yn erbyn ansefydlogrwydd yn y Sahel a chefnogi ymdrechion cynghreiriaid Ewropeaidd eraill gan gynnwys **Cymuned Economaidd Gwladwriaethau Gorllewin Affrica (ECOWAS)**. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i gefnogi ymdrechion diogelwch ym Masn ehangach Llyn Chad a datblygu sefydliadau **Nigeria** sy'n gyson â'n gwerthoedd. Rydym yn mabwysiadu dull mwy strategol at fynd i'r afael â bygythiadau o ystyried pwysigrwydd masnach morol drwy **Gwlff Gini** i'r DU. Byddwn yn datblygu partneriaethau diogelwch morol gyda gwladwriaethau arfordirol allweddol fel **Ghana.** Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ymweliad Llong Patrôl Alltraeth y DU yn ddiweddarach yn 2021, a fydd yn cyfrannu at ddiogelwch morol, gan gynnwys mynd i'r afael â môr-ladrata.

**5.21.** Mae ein cyfraniadau at waith **Cadw Heddwch y CU** ar draws Affrica yn dangos ein hymrwymiad i heddwch a diogelwch rhyngwladol. Byddwn yn ceisio helpu gwledydd eraill i ddatblygu eu capasiti fel Cyfranogwyr Milwyr drwy ymgyrchoedd hyfforddiant a chymorth, yn ogystal ag anfon arbenigwyr o'r DU i gyrchoedd a phencadlys y CU.



## Indo-Môr Tawel

**5.22.** Mae'r rhanbarth Indo-Môr Tawel yn bwysig i'r DU: mae'n hollbwysig i'n heconomi, ein diogelwch â'n huchelgais rhyngwladol i gefnogi cymdeithasau agored. Mae o leiaf 1.7 miliwn o ddinasyddion Prydain yn byw ar draws y rhanbarth ac mae ein perthnasoedd masnachu yn parhau i dyfu. Yn y degawdau i ddod bydd yn hollbwysig i lawer o'r prif heriau byd-eang – o'r hinsawdd a bioamrywiaeth i ddiogelwch morol a chystadleuaeth geo-wleidyddol sy'n gysylltiedig â rheolau a normau. Mae'r Adolygiad Integredig yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol rhanbarth yr Indo-Môr Tawel i ddiogelwch a ffyniant y DU ac mae'n cyflwyno fframwaith ar gyfer mwy o ymgysylltiad gan y DU. Mae Amddiffyn yn rhan hanfodol o gynnig integredig y DU i'r rhanbarth ac, felly, byddwn yn atgyfnerthu ein cydweithrediad amddiffyn rhanbarthol yn y rhanbarth Indo-Môr Tawel, i gefnogi ymdrechion y Llywodraeth i ddatblygu partneriaethau diogelwch ehangach. Ein nod fydd lliniaru bygythiadau cynyddol i'n diogelwch, gan weithio gyda phartneriaid Indo-Môr Tawel i feithrin gwytnwch a chapasiti, mynd i'r afael â heriau diogelwch a rennir a chynnal rhyddid modrwyo a chyfreithiau rhyngwladol. Byddwn yn datblygu partneriaethau gallu ac yn cefnogi ffyniant y DU drwy atgyfnerthu allforion amddiffyn. Yn fwy penodol, byddwn yn:

- Cynyddu ein gweithgareddau datblygu capasiti a hyfforddiant ar draws y rhanbarth Indo-Môr Tawel, wedi'u cyflenwi drwy leoliadau milwrol mwy cyson ac am gyfnodau hwy a thrwy wneud defnydd gwell o'n cyfleusterau rhanbarthol presennol.

- Gwneud y defnydd gorau o ymgysylltiad rhanbarthol fel rhan o leoliad y Grŵp Cludwyr Ymosod yn 2021.

- Cynyddu ein presenoldeb morol yn y rhanbarth Indo-Môr Tawel drwy leoli Llongau Patrôl Alltraeth o 2021, Grŵp Ymateb Arfordirol o 2023 a ffrigadau Math 31 yn ddiweddarach yn y degawd, gan gynnwys cynnal rhyddid i fordrwyo.

- Gwneud defnydd cynyddol a mwy cyson i'r **Trefniadau Amddiffyn Pump Pŵer (FPDA)**.

- Ceisio sicrhau cydweithrediad amddiffyn agosach gydag aelod-wladwriaethau **Cymdeithas Gwledydd De-ddwyrain Asia (ASEAN)**.

- Gwarantu ein mynediad rhanbarthol drwy ganolfannau presennol y DU, gan gynnwys Tiriogaeth Cefnfor India Prydain, mynediad at gyfleusterau cynghreiriaid, a datblygu cyfleuster hyfforddiant gwell yn Duqm, Oman.

- Dwysáu ac ehangu perthnasoedd diwydiannol amddiffyn yn y rhanbarth, gan gynnwys gydag Awstralia, Japan, Gweriniaeth Korea ac India, wedi'u hategu gan gydweithrediad ar wyddoniaeth a thechnoleg. Byddwn hefyd yn gwella ein rhaglen o ymarferion, cyfnewidfeydd a datblygu gallu gyda'r partneriaid allweddol hyn.

- Ehangu ein rhwydwaith Attaché a Chynghorwyr Amddiffyn a sefydlu Staff Amddiffyn Prydain newydd yn Canberra i weithio ochr yn ochr â'r Staff Amddiffyn presennol yn Singapore a chydlynu gweithgarwch Amddiffyn ar draws y rhanbarth.

**5.23.** Ein partneriaeth gydag **India** yw conglfaen allweddol gogwydd y DU at ranbarth yr Indo-Môr Tawel. Byddwn yn sefydlu partneriaeth forol gydag India i gefnogi amcanion diogelwch cyffredin yng Nghefnfor India. Byddwn yn gwella ein cydweithrediad diwydiannol, yn cynyddu ein haddysg a hyfforddiant amddiffyn ac yn diwygio'r berthynas i'n galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol. Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymarferion integredig ar y cyd, yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r amgylchedd morol ac yn llofnodi cytundebau allweddol er mwyn cynyddu rhyngweithredededd.



Bydd ein holl weithgareddau yn cael eu hategu gan ddialog strategol er mwyn hyrwyddo aliniad lefel uchel a rhaglen gadarn o addysg a chyfnewidfeydd addysg.

**5.24.** Mae ein perthynas Amddiffyn gyda **Japan** wedi dwysáu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda rhaglen well o ymarferion, cyfnewidfeydd hyfforddiant, trefniadau diogelwch a rhaglenni datblygu gallu sy'n rhychwantu'r pum parth. Yn y degawd nesaf bydd datblygiadau pellach gyda'n partner diogelwch agosaf yn Asia. Byddwn yn cynyddu'r cydweithrediad rhwng Lluoedd Hunan Amddiffyn Japan a lluoedd arfog Prydain er mwyn sicrhau rhanbarth Indo-Môr Tawel rhydd ac agored.

**5.25.** Mae gan y DU berthynas hirsefydledig gyda **Pacistan** i gefnogi amcanion diogelwch a sefydlogrwydd rhanbarthol a rennir. Ceir cysylltiadau diaspora gyda'r DU. Mae ffiniau dadleuol ac amgylchedd diogelwch cymhleth yn golygu y bydd perthynas amddiffyn Pacistan gyda'r DU yn parhau i fod yn bwysig. Mae ein cydweithrediad yn cwmpasu ymarferion milwrol, addysg a chyfnewidfeydd, hyfforddiant ac ymweliadau milwrol, proffesiynol.

**5.26.** Mae ein perthynas amddiffyn gyda **Gweriniaeth Korea** yn faes ffocws arwyddocaol iawn i'r DU, am ei bod yn ddemocratiaeth o'r un anian, sydd â safbwyntiau tebyg ar flaenoriaethau diogelwch rhanbarthol a'r rheolau, normau a safonau a fydd yn siapio'r system ryngwladol yn gyffredinol. Byddwn yn adeiladu ar y bartneriaeth strategol barhaus a sefydlwyd yn ystod Rhyfel Korea drwy wella'r cyfleoedd i gyfnewid personél, hyfforddiant, addysg a rhannu gwybodaeth. Byddwn yn ceisio gwella ein rhyngweithredededd drwy ymarferion integredig ar y cyd ac atgyfnerthu ymhellach ein hymrwymiad cyffredin i weithio mewn trydydd gwledydd ar fentrau cadw heddwch rhyngwladol. Mae gan Weriniaeth Korea rym milwrol modern sydd wedi'i ariannu'n dda, sydd ag uchelgeisiau i gyfrannu ymhellach at ddiogelwch rhyngwladol. Disgwylir i'w gwariant ar amddiffyn ragori ar ein gwariant ni yn fuan, a bydd y DU yn cefnogi ffyniant cydfuddiannol drwy gydweithrediad diwydiannol agosach, wedi'i ategu gan arbenigedd milwrol, yn benodol drwy eu rhaglen Cludwyr Awyrennau Ysgafn hwy.

**5.27.** Yn **Afghanistan**, mae'r DU yn gyfrannwr allweddol i Genhadaeth Cefnogaeth Gadarn NATO i hyfforddi, cynghori a chynorthwyo lluoedd diogelwch Afghanistan. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i'r gweithrediad ac i gefnogi'r broses heddwch yn Afghanistan. Setliad gwleidyddol parhaol yw'r unig ffordd o sicrhau diogelwch rhag terfysgaeth i bobl Afghanistan, y Deyrnas Unedig a'i Chynghreiriaid. Mae'r DU yn ymrwymedig i gynhaliaeth ariannol lluoedd diogelwch Afghanistan hyd at 2024. Lluoedd diogelwch hunangynhaliol, ochr yn ochr â chynnydd at setliad gwleidyddol, sy'n cynnig y rhagolygon gorau o gyflawni amcanion diogelwch y DU i beidio â chaniatáu i Afghanistan ddychwelyd i fod yn hafan i derfysgwyr unwaith eto.





# Ein gweithlu: ein hased gorau

## Pennod 6

**6.1.** Mae'n rhaid i'n ffocws ar ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf gyfateb ag agwedd fwy modern at ein hased gorau – ein pobl. Mae'r Bennod hon yn esbonio sut y byddwn yn denu ac yn cadw gweithlu amrywiol, cynhwysol, proffesiynol a llawn cymhelliant, o bob rhan o'r Undeb a'r Gymanwlad, sy'n meddu ar y sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer gwrthdaro a chystadleuaeth gyfoes. Ac mae'n esbonio sut y byddwn yn trefnu, yn cefnogi ac yn gwobrwyo ein pobl, drwy strwythurau gyrfa newydd a chynnig newydd sy'n adlewyrchu'n well y ffordd maent yn dymuno byw a gweithio yn yr 21ain ganrif.

### Sgiliau modern a pherthnasol

**6.2.** Wrth i ni ymateb i fygythiadau sy'n esblygu'n gyflym i'n gwerthoedd a'n ffordd o fyw, bydd ein pobl – milwrol a sifil – yn parhau i fod yn ganolog wrth i ni gyflawni ein mantais gystadleuol, ein cysylltiadau â chymdeithas, a'n statws byd-eang. Ond nid yw mantais gystadleuol yn deillio o niferoedd yn unig. Yn hytrach, mae'n llifo o'r talentau y mae ein pobl yn meddu arnynt, yn unigol ac ar y cyd, a sut y byddwn yn eu defnyddio.

**6.3.** Rydym eisiau denu'r unigolion mwyaf talentog i'r maes Amddiffyn. Wrth i'r byd newid o'n cwmpas, byddwn yn buddsoddi yn ein pobl ac yn eu cymhwyso gyda'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i ennill yn yr oes o gystadleuaeth systemig rhyngwladol. Mae hyn yn dechrau o'r foment y byddant yn ymuno. Byddwn yn parhau i gynnig prentisiaethau i fwy na 80% o recriwtiaid y lluoedd arfog, gyda thraean o'r rhai hynny mewn meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg. Bydd ein Llu Seiber Cenedlaethol a'n Rheolaeth Gofod yn feysydd braenaru ac yn arbenigwyr yn ein maes. Bydd ein gwyddonwyr yn arwain ein harloesedd a'n harbrofi. Byddwn hefyd yn proffesiynoli diplomyddiaeth amddiffyn, wrth i ni ehangu ein rhwydwaith byd-eang.

**6.4.** Mae aelodau'r lluoedd arfog yn cael eu recriwtio o fywyd sifil a byddant yn dychwelyd i'r bywyd hwnnw ar ddiwedd eu gwasanaeth. I sicrhau y gallent wneud defnydd effeithiol o'r sgiliau a'r cymwysterau y byddant yn eu caffael yn y fyddin, byddwn yn cynnal adolygiad yn y 12 mis nesaf i achrediad proffesiynol cyrsiau gyrfa.

**6.5.** Wrth adlewyrchu ar natur gynyddol arbenigol llawer o'n rolau, byddwn yn sicrhau y bydd sgiliau yn ganolog i'r ffordd y byddwn yn trefnu a gwobrwyo ein gweithlu. Mae hyn yn golygu trawsnewid strwythurau gyrfa, cyflwyno ffyrdd newydd o recriwtio talent, a diddymu'r rhwystrau symud rhwng y fyddin, y gwasanaeth sifil a diwydiant. Yn y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd yr ydym yn talu a gwobrwyo ein personél milwrol. Bydd yr adolygiad cost-niwtral hwn, a fydd yn cael ei arwain gan arbenigwr â phrofiad blaenorol o reoli talent byd-eang, yn llywio ein hymdrechion i ddatblygu agwedd fodern, holistaidd, gydol oes i'r cynnig milwrol. Bydd hyn yn cael ei deilwra'n agosach at anghenion newidiol yr unigolyn ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa a bydd yn adlewyrchu'n well y sgiliau maent wedi'u cyfrannu i'r maes Amddiffyn. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod gyrfa yn y lluoedd arfog yn parhau i fod yn ddewis gyrfa blaenllaw i bobl fwyaf talentog y DU.

### Moderneiddio'r Lluoedd Cyfan

**6.6.** Bydd heriau'r degawd nesaf yn golygu y bydd angen i ni wneud y defnydd gorau o allbynnau, talentau a synergeddau'r lluoedd cyfan. Bydd ein lluoedd wrth gefn yn cael rolau wedi'u diffinio'n gliriach. Byddant yn darparu capasiti, ochr yn ochr â'u cydweithwyr rheolaidd a sifil, ac yn ffynhonnell amgen o dalent amrywiol i gynnal gweithrediadau gartref a thramor.



Byddwn yn creu sbectrwm effeithlon a hyblyg o wasanaeth milwrol, gan ddarparu ystod o opsiynau ymrwymiad i'n pobl ar adegau gwahanol yn eu bywydau. Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn recriwtio a chyflogi milwyr wrth gefn, a'n galluogi i ddenu arbenigedd o bob rhan o gymdeithas, llywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd i ysgwyddo rhai o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu, ac ystyried unrhyw argymhellion o'r adolygiad Lluoedd wrth Gefn 30 maes o law.

**6.7.** Wrth i ni foderneiddio, byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i awtomeiddio tasgau, ysgogi mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Drwy harneisio technoleg, defnyddio data a dadansoddeg, a thrawsnewid ein gwasanaethau corfforaethol yn gynhwysfawr, byddwn yn datblygu gweithlu wedi'i symleiddio, ond medrus a galluog iawn.

**6.8.** Os ydym am ddenu a chadw pobl mwyaf talentog y DU, mae'n rhaid i'r ffordd y byddwn yn rheoli ac yn grymuso'r cohort hwnnw fod i'r un graddau â'n cystadleuwyr. Byddwn yn cynhyrchu Strategaeth Pobl Ddigidol, a fydd yn canolbwyntio ar roi cyfleoedd rheoli gyrfa yn nwylo ein pobl drwy gymwysiadau digidol mewn dull unedig ar draws Amddiffyn.

## Cefnogi ein pobl

**6.9.** Byddwn yn cydnabod bod gofynion bywyd milwrol yn unigryw, a byddwn yn parhau i gefnogi ein personél yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd yn unol â hynny. Byddwn yn gwneud datblygiadau pellach yn y degawd nesaf drwy fuddsoddi tua £1.5bn i wella llety byw sengl newydd. Byddwn hefyd yn cynnig mwy o ddewis ynghylch lle, sut a gyda phwy y mae ein pobl yn byw, drwy'r model llety'r dyfodol. Byddwn yn cyflwyno hyn mewn Strategaeth Llety Amddiffyn yn 2021.

**6.10.** Mae teuluoedd y lluoedd yn ganolbwynt i gymuned y lluoedd arfog ac mae'n hollbwysig ein bod yn darparu'r hyblygrwydd a'r gefnogaeth briodol i'n pobl i fagu eu plant wrth iddynt wasanaethu. Fel rhan o Strategaeth Teuluoedd ddiwygiedig, byddwn yn cyflwyno mesurau i leihau'r baich ar rieni a allai gael eu lleoli ar fyr rybudd, gan gynnwys buddsoddi £1.4bn yn ystod y degawd nesaf i ddarparu gofal plant cofleidiol. Drwy fentrau cyflogi priod, cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaeth hyblyg a dull modern at berthnasoedd cymdeithasol, rydym yn benderfynol o sicrhau bod y lluoedd arfog yn gyflogwyr mwy ystyriol o deuluoedd, ac annog ein pobl i ddilyn gyrfaoedd hir a boddhaus yn eu lifrau.

**6.11.** Rydym yn benderfynol, wrth ddenu talentau mwyaf y DU, y byddwn yn meithrin amgylchedd sy'n eu grymuso go iawn i fod y fersiwn gorau o'u hunain. Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn iechyd, llesiant a lles ein pobl. A byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd drwy hyfforddiant chwaraeon a pherfformiad elit, i sicrhau bod ein hased gorau – ein pobl – yn cael eu meithrin, eu hyfforddi a'n bod yn gofalu amdanynt yn y ffordd maent yn ei haeddu.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**6.12.** Rydym yn falch o'r cyfleoedd y mae gyrfa Amddiffyn yn ei gynnig i bobl o bob cefndir, waeth beth yw eu hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, oedran neu gred. Ond os ydym am fanteisio i'r eithaf ar dalentau pob un o'n pobl, mae'n rhaid i ni ddwysáu ein hymdrechion i fod yn sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol, ac sy'n cynrychioli'r gymdeithas a wasanaethwn yn well. Rydym yn cydnabod fod amrywiaeth a chynhwysiant yn hollbwysig i'n heffeithiolrwydd gweithredol ac mae'n sicrhau y gallwn ddiogelu diogelwch, sefydlogrwydd a ffyniant ein gwlad.

**6.13.** Byddwn yn cyflwyno ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn gweithredu argymhellion adolygiadau Wigston a Gray i ymddygiad annerbyniol. A byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn estyn allan i'r gymuned, gan greu cysylltiadau cryf gyda phob rhan o gymdeithas. Rydym wedi sefydlu Cyfarwyddiaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd i ysgogi newid, fel datganiad clir a chyhoeddus o'n bwriad i wella profiad byw y rhai sy'n gweithio ym maes Amddiffyn yn bendant, yn gyflym ac yn sylweddol. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn chwarterol i Weinidogion. Byddwn yn parhau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae gan Amddiffyn, bolisi, canllawiau ac offer i gefnogi cydymffurfiaeth, helpu i wella cynhwysiant ac annog syniadau da ar gydraddoldeb.

**6.14.** Mae'r lluoedd arfog yn cynrychioli elfen allweddol o'n hunaniaeth genedlaethol. Rydym yn recriwtio yn genedlaethol ac yn lleoli ein hunain o amgylch holl rannau'r DU, rydym yn darparu cyfleoedd heb eu hail ar gyfer symudedd cymdeithasol a datblygiad personol ac rydym yn cynrychioli buddiannau'r DU dramor fel endid unedig. Mae'r cyd-ymdrechion ar draws y DU i gefnogi ein personél, eu teuluoedd a chyn-filwyr yn darparu enghreifftiau cadarnhaol o sut y gallwn gydweithio, o dan drefniadau, llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid, i gyflawni buddiannau cyffredin. Byddwn yn gweithredu ymhellach drwy ymgorffori Cymuned y Lluoedd Arfog mewn cyfraith, er mwyn sicrhau nad yw personél presennol a blaenorol a'u teuluoedd o dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth.

## Cadetiaid

**6.15.** Mae'r cadetiaid yn rhan allweddol o'n hagenda ieuenctid ac rydym yn helpu pobl ifanc ar draws y DU i ehangu eu gorwelion a datgloi eu potensial. Byddwn yn cynnal y pum llu cadetiaid sy'n cael eu noddi gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar draws y DU, sy'n darparu cyfleoedd i 130,000 o gadetiaid ar hyn o bryd. Ar ôl rhagori ar ein targed blaenorol i gynyddu'r nifer o unedau cadetiaid yn ysgolion uwchradd y wladwriaeth, byddwn yn gweithredu ymhellach, gyda'r Adran Addysg, drwy fuddsoddi yn y Rhaglen Ehangu Cadetiaid er mwyn cyflwyno'r cyfle gwych hwn i fwy o bobl ifanc. Byddwn yn cyhoeddi astudiaeth annibynnol wedi'i hadolygu gan gyfoedion yn ddiweddarach eleni, sy'n trafod sut mae cadetiaid yn elwa ar eu profiad a'r cyfraniad a wnânt i gymdeithas yn gyffredinol.

## Cyn-filwyr

**6.16.** Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wneud y DU y wlad orau yn y byd i fod yn Gyn-filwr y Lluoedd Arfog. Mae gennym gyfrifoldebau clir i sicrhau bod ein pobl yn dychwelyd i fywyd sifil wedi'u cyfoethogi gan eu Gwasanaeth, drwy broses bontio ddi-dor. Mae Gwasanaeth Pontio newydd Amddiffyn yn pwysleisio'r ymrwymiad hwn, gyda chymorth wedi'i deilwra'n arbenigol ar gyfer y rhai sy'n cael anhawster penodol.

**6.17.** Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gydnabyddiaeth rhwng y wlad a'r rhai sy'n gwasanaethu, o aberthau, ffordd o fyw a gofynion unigryw gwasanaeth milwrol. Mae wedi'i ategu gan ddwy egwyddor allweddol, sef ceisio diddymu anfantais oherwydd gwasanaeth milwrol ac y gellir cyfiawnhau ystyriaeth arbennig, gan gynnwys ar gyfer y rhai sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol ac sydd wedi profi profedigaeth. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei ymgorffori mewn cyfraith yn Neddf Lluoedd Arfog 2021 yng nghyd-destunau tai, addysg a gofal iechyd, a'i droi o fod yn god gwirfoddol yn y cyd-destunau hynny i rywbeth sy'n orfodadwy ar ran y Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr a'u teuluoedd.

**6.18.** Sefydlwyd Swyddfa Materion Cyn-filwyr gyntaf y DU gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2019. Mae'n ceisio dod â holl swyddogaethau'r llywodraeth ynghyd, gan ddefnyddio rhaglenni presennol a newydd ar draws y trydydd sector a darpariaeth y wladwriaeth, i sicrhau dyletswydd y wlad i'w Chyn-filwyr drwy ddarparu 'Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr', y cyntaf o'i math yn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Bydd gofynion adroddiad blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael eu diwygio i sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer ein Cyn-filwyr yn unol â'r Strategaeth hon.

**6.19.** Mae Veterans UK, adain gyflenwi'r Llywodraeth i gefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd, Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr a thaliadau cynllun iawndal anaf/profedigaeth, yn destun rhaglen trawsnewidiad digidol gwerth £25 miliwn o'r cofnodion papur presennol erbyn 2023.



# Lluoedd wedi'u moderneiddio ar gyfer oes gystadleuol

## Pennod 7


**7.1.** Bydd y Bennod hon yn esbonio sut y byddwn yn trawsnewid ein lluoedd arfog i addasu i'n tasgau a'n dulliau newydd. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae ein Cysyniad Gweithredu Integredig yn ei gwneud yn ofynnol i'n lluoedd fod yn gredadwy ac yn gallu atal ac, os bydd angen, trechu ein gwrthwynebwyr mewn brwydr yn ogystal â'n galluogi i gystadlu islaw'r trothwy gwrthdaro arfog. Mae hefyd yn golygu bod angen i'n lluoedd arfog gael eu hintegreiddio ar draws parthau ac ar draws y llywodraeth, ac i gyfleu agwedd fwy deinamig drwy ymgysylltiad parhaus.

**7.2.** Mae'r gofynion hyn wedi llywio ein cynlluniau o ran gallu yn y dyfodol. Byddwn yn buddsoddi mwy yng ngallu ein lluoedd arfog i sicrhau y gallent ddelio â'r bygythiadau a wynebwn yn awr ac yn y dyfodol. Rydym wedi mabwysiadu ffordd o feddwl graff ac ansentimental at y galluoedd hynny a fydd yn llai perthnasol i'r bygythiad wrth iddo newid. Bydd y newidiadau a wnawn yn sicrhau bod ein lluoedd arfog yn fwy hyblyg, yn fwy angheuol ac yn fwy integredig. Byddwn yn cynnal ein mantais weithredol drwy gyflymu'r cyflymder y byddwn yn addasu ein galluoedd a thrwy ddefnyddio technoleg newydd ac sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gynyddu'r gwariant ar Ymchwil a Datblygu, ffocws cynyddol ar arbrofi a thrwy gyflymu ein prosesau caffael.

**7.3.** Mae'n rhaid i ni symbylu ein lluoedd presennol er mwyn cyflawni'r heriau presennol a moderneiddio ar gyfer bygythiadau'r dyfodol. Rydym eisoes wedi dechrau ar y daith hon o foderneiddio; mae galluoedd y gwnaethom fuddsoddi ynddynt ddegawd yn ôl yn cael eu gwireddu yn awr a byddant yn hollbwysig i'n llwyddiant yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n bosibl mae ein Grŵp Cludwyr Ymosod yw'r enghraifft fwyaf bwerus o hyn. Bydd ein hosgo newydd yn mynnu argaeledd uwch gan ein llu presennol a llu'r dyfodol, felly byddwn yn buddsoddi i wella parodrwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd ein lluoedd arfog.

**7.4.** Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn galluoedd trawsnewidiol a digidol a fydd yn galluogi integreiddiad aml-barth ac yn sicrhau ein bod yn gallu cystadlu'n fwy effeithiol yn y gofod ac yn y seiberofod. Bydd gallu yn y dyfodol wedi'i ddiffinio llai gan y nifer o bobl a llwyfannau ond yn hytrach gan dechnolegau wedi'u hysbysu gan wybodaeth, awtomeiddio a diwylliant o arloesedd ac arbrofi.

**7.5.** Ein lluoedd ni fydd un o'r lluoedd mwyaf integredig, digidol a hyblyg yn y byd, yn taflunio ein dylanwad ac yn hyrwyddo ein galluoedd ar lwyfan y byd, ar dir, awyr, y môr, y seiberofod a'r gofod. Bydd integreiddiad aml-barth yn ategu'r ffordd y byddwn yn gweithredu ac yn ymladd. Bydd yn llywio dulliau arbrofi, datblygu a blaenoriaethu galluoedd y lluoedd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd lluoedd arfog y DU yn parhau i fod yn rhyngweithredol gyda'n cynghreiriaid mwyaf galluog ac yn cadw un cam o flaen ein gwrthwynebwyr.




*Mae elfennau'r Lluoedd yn gallu cyflawni tasgau lluosog – mae'r graffeg uchod yn ddarluniadol



## Ymchwil a Datblygu

**7.6.** Mae'r Adolygiad Strategol yn nodi pwysigrwydd datblygu mantais gystadleuol wydn ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg, gan sicrhau bod ein sylfaen ymchwil yn arwain at ddyluniad a defnydd o dechnolegau hollbwysig a newydd. Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i wario o leiaf 2.4% o Gynnyrch Domestig Gros ar Ymchwil a Datblygu erbyn 2027, rydym yn adnewyddu ein ffocws ar Ymchwil a Datblygu er mwyn cyflawni llamau enfawr yn ein gallu yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i wario o leiaf £6.6 biliwn ar Ymchwil a Datblygu yn y pedair blynedd nesaf. Byddwn yn buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o alluoedd (gan gynnwys arfau ynni dan gyfarwyddyd a dronau heidio), ym mharthau mwy diweddar y gofod a'r seiberofod, ac yn y llwyfannau a systemau arfau modern a fydd yn ein galluogi i ymestyn ein mantais dechnolegol dros ein cystadleuwyr. Bydd buddsoddiad uwch mewn Ymchwil a Datblygu yn ategu'r gwaith o foderneiddio ein lluoedd arfog a sicrhau mantais strategol hirdymor. Bydd rhwydwaith o hybiau Amddiffyn arloesol sy'n gweithio ochr yn ochr â chlystyrau technegol y DU a buddsoddi mewn heriau sbarduno Amddiffyn a Diogelwch yn sicrhau y bydd y buddsoddiad hwn mewn Ymchwil a Datblygu yn arwain at offer arloesol. Fel rhan o'n strategaeth tymor hwy, rydym hefyd yn bwriadu datblygu gallu Profi a Gwerthuso ar gyfer Arfau Newydd, Deallusrwydd Artiffisial, systemau synthetig/digidol a systemau yn y gofod yn y dyfodol. Y rhain yw'r meysydd yr ydym yn dechrau eu hystyried o dan raglen Profi a Gwerthuso y Dyfodol, lle rydym yn bwriadu buddsoddi mwy na £60 miliwn yn y pedair blynedd nesaf. Yn gyffredinol, bydd ein buddsoddiad yn cyflymu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau yn nwylo ein personél ac yn datblygu ffynhonnell o alluoedd yn y dyfodol ar gyfer lluoedd arfog y dyfodol.

**7.7.** Byddwn yn blaenoriaethu ein ffynhonnell Ymchwil a Datblygu yn seiliedig ar yr heriau gallu y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy yn yr amgylchedd gweithredu newydd hwn. Mae ein Strategaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg 2020 yn nodi'r pum maes pwysicaf lle bydd datblygu gallu yn cyflawni mantais bendant i'r DU yn y dyfodol.

- Cudd-wybodaeth, Gwyliadwriaeth a Rhagchwilio treiddiol, sbectrwm llawn.
- Rheolaeth a Rheoli, Cyfathrebu a Chyfrifiaduron Aml-barth.
- Sicrhau a chynnal mantais islaw'r trothwy.
- Pŵer caled anghymesur.
- Rhyddid mynediad a symud.




# Deallusrwydd Artiffisial

**Bydd Deallusrwydd Artiffisial (DA) a galluoedd awtonomaidd wedi'u galluogi gan DA yn hollbwysig er mwyn moderneiddio Amddiffyn: cyflymu tempo penderfyniadau a gweithredu; ymestyn ystod, dyfalbarhad a màs ein galluoedd; diogelu personél rhag niwed drwy gynnal tasgau 'diflas, budr a pheryglus'; a chyflawni arbedion sylweddol o ran effeithlonrwydd a fforddiadwyedd. Mae'n bosibl y bydd brwydrau yn y dyfodol yn cael eu hennill neu eu colli o ganlyniad i gyflymder ac effeithlonrwydd y datrysiadau DA a ddefnyddir. Mae'n hollbwysig ein bod yn symud yn gyflym i sicrhau holl fuddiannau'r technolegau trawsnewidiol hyn, a byddwn yn cyhoeddi Strategaeth DA uchelgeisiol i ysgogi a chydlynu ymdrechion ar draws Amddiffyn ar gyflymder.**

**Rydym yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn DA ar draws Amddiffyn. Bydd creu Canolfan Amddiffyn newydd ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial yn rhan hollbwysig o'r datblygiadau hyn, gan wasanaethu fel canolbwynt i gyflymu datblygiad a defnydd o'r technolegau allweddol hyn o faes y gad i'r swyddfa gefn. Bydd y gweithgareddau yn amrywio o weithredu technegau rheoli data, datblygu llwyfannau DA cyffredin, pecynnau offer ac arfer gorau, profi a dilysu galluoedd newydd a chyflawni datrysiadau a allai ehangu'n gyflym yn y pen draw i gyflawni'r heriau a'r bygythiadau sy'n wynebu'r wlad.**

**Bydd rhai o'r bygythiadau hyn yn deillio o ddefnydd diegwyddor o Ddeallusrwydd Artiffisial gan eraill. Felly, mae'n hollbwysig bod y DU yn parhau i fod ar flaen y gad yn y ddadl sy'n esblygu'n gyflym ar ddatblygiad a defnydd cyfrifol o DA ac Ymreolaeth wrth Amddiffyn, gan weithio gyda phartneriaid democrataidd-rhyddfrydol i siapio normau a safonau cyfreithiol, moesegol a rheoleiddiol rhyngwladol. Rydym yn datblygu fframwaith ar gyfer ein datblygiad a'n defnydd moesegol ni ein hunain o DA mewn partneriaeth ag arbenigwyr mewn diwydiant a'r byd academaidd, ac alinio hyn yn agos gyda fframweithiau ehangach y llywodraeth.**



Icons not to scale

# Rheolaeth Strategol

Seiber Amddiffynnol

Asgwrn Cefn Digidol

Cefnogaeth Amddiffyn

Rhwydwaith Attaché Amddiffyn

Skynet 6

Syntheteg

Gwasanaeth Awyr Arbennig

Catrawd Rhagchwilio Arbennig

Llu Seiber Cenedlaethol

Pencadlysoedd Gweithredol

Meddygol Amddiffyn

Cudd-wybodaeth Amddiffyn

ISR y Gofod

Academi Amddiffyn a DCDC

Gwasanaeth Llongau Arbennig

Grŵp Arbennig y Lluoedd Arbennig

Yr Almaen

Oman

Cenia

Falkland Islands

Ascension

Brunei

Gibraltar

Cyprus

BIOT

**7.8.** Mae Rheolaeth Strategol yn ganolog wrth i ni wynebu'r llu o fygythiadau a wynebwn yn awr. Mae'n ysgogi integreiddiad ar draws pob parth. Bydd Rheolaeth Strategol yn sicrhau ein bod yn uno'r bobl, yr offer a'r wybodaeth, ac yn cyflawni ein hallbynnau mewn ffordd fwy soffistigedig – o'r gofod, yn yr awyr, ar dir, ar y môr neu yn y seiberofod – sy'n golygu bod y llu yn ei gyfanrwydd yn llawer mwy na chyfanswm ei rannau.

**7.9.** Bydd ein gallu i rannu a defnyddio data yn hollbwysig er mwyn sicrhau integreiddiad aml-barth a mantais o ran gwybodaeth. Bydd Rheolaeth Strategol yn arwain rhaglen drawsnewid ddigidol er mwyn i ni allu rhannu a defnyddio data yn well. Bydd creu Asgwrn Cefn Digidol (seilwaith digidol ar gyfer defnyddio gwybodaeth a galluogi integreiddiad aml-barth) yn ategu'r gwaith o foderneiddio ein lluoedd arfog yn ogystal â chefnogi'r gwaith ehangach o drawsnewid gallu Amddiffyn. Bydd yr Asgwrn Cefn Digidol unigol, modern a diogel hwn yn llywio arbedion sylweddol drwy ddisodli'r seilwaith digidol annibynadwy sy'n heneiddio. Bydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio unrhyw ddata drwy'r cwmwl, ac ar draws rhwydweithiau diogel, er mwyn galluogi penderfyniadau gwell, cyflymach rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chyda NATO a chynghreiriaid allweddol. Bydd hefyd yn sicrhau bod ein rhwydweithiau digidol wedi'u hintegreiddio ar draws y llywodraeth.

**7.10.** Bydd Gorchymyn Strategol yn darparu'r llwyfan i'n lluoedd arfog ddatblygu osgo mwy dynamig a chystadleuol. Bydd defnyddio a gwella ein canolfannau gweithredu presennol ar draws y byd yn sicrhau mwy o bresenoldeb. Bydd buddsoddi i foderneiddio a thrawsnewid systemau cymorth peirianneg a logistaidd yn gwella argaeledd a chynhaliaeth galluoedd, offer a phobl. Bydd Gorchymyn Strategol yn arbrofi ac yn arloesi'n barhaus gyda thechnoleg er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal mantais weithredol.

## Seiberofod

**7.11.** Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad yn sylweddol er mwyn adeiladu ar a chynnal statws y DU fel seiber bŵer arweiniol, cyfrifol a democrataidd. Mae'r Llu Seiber Cenedlaethol (NCV) yn trawsnewid ein gallu i herio gwrthwynebwyr fel elfen integredig o'n gallu milwrol. Mae'n ymdrech cenedlaethol y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrannu'r mwyafrif o'r cyllid ar ei gyfer. Mae'n fenter ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn, Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ) a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Gyfrinachol (SIS), gan weithio mewn partneriaeth agos â phartneriaid gorfodi'r gyfraith a phartneriaid rhyngwladol. Mae'r Llu Seiber Cenedlaethol yn darparu galluoedd a ddefnyddir i dwyllo, diraddio, gwadu, amharu neu ddinistrio targedau yn a thrwy'r seiberofod wrth gyflawni ein hamcanion diogelwch cenedlaethol. Mae arbenigedd gweithredol a galluoedd gwyddonol a thechnegol y Weinyddiaeth Amddiffyn, cudd-wybodaeth fyd-eang GCHQ ac arbenigedd SIS wrth recriwtio a chynnal asiantwyr yn golygu bod y Llu Seiber Cenedlaethol yn lu integredig, pwerus.

Ar yr un pryd, byddwn yn cynnal ein gwerthoedd ac rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio ein galluoedd seiber mewn ffordd gyfrifol ac yn unol â chyfreithiau'r DU a chyfreithiau rhyngwladol.

**7.12.** Fel rhan o'r ymdrechion ehangach ar draws y llywodraeth i wella seiber-ddiogelwch y DU, byddwn yn atgyfnerthu ein gwytnwch ni ein hunain i ymosodiad seiber drwy warchod ein systemau a'n rhwydweithiau i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag bygythiadau presennol ac yn y dyfodol.

**7.13.** Rydym yn buddsoddi mewn llwybr gyrfa newydd penodedig ar gyfer arbenigwyr seiber-ofod Amddiffyn. Bydd hyn yn cynnwys model cyflogaeth newydd i reoli, datblygu a gwobrwyo ein talent seiber-ofod ac ehangu ein Hysgol Seiber Amddiffyn er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn y timau cywir ar yr adeg gywir. Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r parth, drwy arbrofi, addysg, hyfforddiant ar y cyd a thynnu ar arbenigedd gan ein cynghreiriaid, diwydiant a'r byd academaidd.


**7.14.** Mae'r amgylchedd electromagnetig y mae'r maes seiber yn rhan ohono, yn agwedd sylfaenol o'r gofod brwydrau modern. Mae ein gwrthwynebwyr yn gynyddol weithredol ar ei draws ac yn ddibynnol arno. Mae'n rhaid i ni allu deall, defnyddio a sicrhau mantais yn yr amgylchedd hwn. Felly, rydym yn buddsoddi mwy na £500 miliwn mewn galluoedd a fydd yn ein galluogi i ymateb yn yr amgylchedd electromagnetig. Bydd ei integreiddio ar draws ei gontinwwm yn ganolog i'n dull gweithredu.

## Y Gofod

**7.15.** Mae'r gofod, a'n mynediad sicr iddo, yn hollbwysig i weithrediadau milwrol. Gallai colli neu amhariad i'r gofod gael effaith ddifrifol ar ein gallu i ymgymryd â'r rhan fwyaf o dasgau Amddiffyn, a gallai gael effaith enbyd ar weithgarwch sifil, masnachol ac economaidd. Wrth i'n dibyniaeth ar y gofod gynyddu, felly hefyd ein bregusrwydd. Mae ein gwrthwynebwyr yn ceisio tanseilio ein gallu ym mhob parth ac yn lleihau ein mantais weithredol. Mae'n rhaid i ni ddatblygu galluoedd milwrol, sifil a masnachol sy'n gallu gwrthsefyll a diogelu bygythiadau yn y gofod. Mae'n rhaid i ni hefyd helpu i siapio amgylchedd rhyngwladol o normau o ran ymddygiad a gweithredu sy'n atal gwrthwynebwyr ac sy'n lleihau eu hawch i ymgysylltu mewn gweithgareddau amharu bwriadol neu wadu gwasanaethau gofod hanfodol. Erbyn 2030, uchelgais y Llywodraeth yw i'r DU feddu ar y gallu i fonitro, diogelu ac amddiffyn ein buddiannau yn a thrwy'r gofod, gan ddefnyddio cymysgedd o alluoedd cenedlaethol a phartneriaethau rhannu baich gyda'n cynghreiriaid.

**7.16.** I gefnogi hyn byddwn yn cyflwyno rhaglen Skynet 6, gan fuddsoddi tua £5bn dros y 10 mlynedd nesaf i ailgyfalafu a gwella ein gallu cyfathrebu drwy loeren a gwario £1.4bn ychwanegol ar y gofod yn y degawd nesaf i:

- Sefydlu rheolaeth newydd y Gofod i wella rheolaeth filwrol y DU o barth y gofod, helpu i gydlynu gweithrediadau masnachol yn y gofod ac arwain datblygiad gallu newydd yn y gofod.



- Gwella ein hymwybyddiaeth o’r gofod, gan gynnwys sefydlu Canolfan Gweithrediadau Cenedlaethol y Gofod, a fydd yn ein galluogi i olrhain, priodoli a chymryd camau yn erbyn gweithgarwch drygionus.

- Datblygu clwstwr o loerennau Cudd-wybodaeth, Gwyliadwriaeth a Rhagchwilio ac asgwrn cefn digidol ategol yn y gofod wedi’u hadeiladu yn y DU.

- Creu Academi Gofod i ddatblygu sgiliau a’r hyfforddiant ein harbenigwyr gofod Amddiffyn.

**7.17.** Bydd Ymchwil a Datblygu yn y gofod yn cyflymu datblygiad a dewis technolegau newydd. Bydd y buddsoddiadau hyn yn dangos ein gallu i weithredu mewn amgylchedd sy’n fwyfwy gorlawn a chreu llwybr credadwy i gyflawni uchelgais y Llywodraeth i fod yn gyfranogwr ystyrlon yn y gofod erbyn 2030. Bydd ein huchelgais yn y gofod yn ategu sector masnachol hyfyw y DU yn y gofod, a fydd yn defnyddio arbenigedd i roi gallu yn nwylo’r defnyddiwr ac atgyfnerthu ein hygrededd fel partner rhyngwladol ystyrlon. Mae’r uchelgais hwn yn cynnwys y gallu i lansio lloerennau Prydeinig o’r DU erbyn 2022. Mae sector gofod y DU yn cynnwys gweithlu medrus iawn sy’n cynrychioli mwy na 41,900 o swyddi, o Gernyw i Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban. Mae’r sector gofod byd-eang yn tyfu a disgwylir iddo ddyblu erbyn 2040. Disgwylir i’r sector greu mwy na 10,000 o swyddi Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn y DU.

## Lluoedd Arbennig

**7.18.** Bydd ein Lluoedd Arbennig Haen 1 yn parhau i fod heb eu hail – yn cael eu parchu gan ein ffrindiau a’u hofni gan ein gwrthwynebwyr. Byddwn yn sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cymhwyso i ymgymryd â gweithrediadau ymosod manwl-gywir, cyflym pan fydd buddiannau’r DU o dan fygythiad. Byddant yn darparu llu CT lefel uchel i gefnogi’r heddlu yn y DU, a llu ymyrraeth parodrwydd uchel gyda chyrhaeddiad byd-eang. Ond byddwn hefyd yn datblygu eu rôl a’u gallu i gyflawni’r bygythiad sy’n newid. Byddwn yn cynyddu eu capasiti a gwella eu gallu i weithredu’n gudd yn yr amgylcheddau mwyaf didrugaredd o amgylch y byd, a’u cymhwyso gyda gallu aml-barth integredig. Mae’r Lluoedd Arbennig yn ganolog i’n hagwedd at foderneiddio. Maent yn ymgorffori’r diwylliant o arloesedd, arbrofi a datblygu technoleg sy’n rhoi mantais i ni.

**7.19.** Byddwn hefyd yn tynnu ar luoedd sy’n gallu cyflawni gweithrediadau arbennig o Frigâd Gweithrediadau Arbennig y Fyddin, Llu Rheolaeth y Dyfodol ac o feysydd Amddiffyn eraill i gynnal gweithrediadau arbennig i hyfforddi, cynghori a chyd-fynd â phartneriaid mewn amgylcheddau bygythiad uchel. Bydd gweithrediadau arbennig yn integreiddio gallu ar draws y pum parth gweithredol. Byddant yn gwella rhyngweithrededd gyda phartneriaid rhyngwladol fel NATO, sicrhau mynediad i’r offer a’r galluoedd cudd-wybodaeth mwyaf dyfeisgar a mabwysiadu osgo mwy pendant. Byddant yn cyfleu dylanwad y DU ar draws y byd ac yn rhagweld ac yn atal bygythiadau islaw’r trothwy rhyfel yn ogystal ag ymddygiad ymosodol gwladwriaethau.



## Llu Integredig 2030

Icons not to scale

# Y Llynges Frenhinol

Llong danfor Ymosod (Dosbarth Astute)

Cludwr Awyrennau gyda F35B

Llongau Distryw (Math 45)

Ffrigadau (Math 23/26 System Tynnu)

System Mesurau Gwrth Ffrwydron

Llongau Patrôl Alltraeth Swp 2

Tanceri (Dosbarth Llanw /Ton)

RoRo Strategol

Llu Rheolaeth (FCF) a Gweithrediadau Morol y DU

Wildcat (HMA/BRH)

Llong Danfor Taflegrau Balistig

Doc Llwyfan Glanio

Doc Llwyfan Glanio (Wrth Gefn)

Ffrigad (Math 31)

Llongau Arolwg

Llong Gwyliadwraeth Cefnfor Aml-Rôl

Llong Cefnogaeth Gadarn y Fflyd

Llong Patrol Iâ

Llong Patrôl y Glannau

Merlin Mk2 (ASW a Crowsnest) / Mk4

**7.20.** Mae'r Llynges Frenhinol yn trawsnewid yn gyflym, gan ganolbwyntio'n gynyddol ar fygythiadau a dod yn fwyfwy angheuol. Wedi'u hoptimeiddio i ymladd ochr yn ochr â'n cynghreiriaid, bydd y Llynges Frenhinol yn cyfrannu at fuddiannau'r DU: diogelu ein gwlad, ein Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron, i ddiogelu'r amgylchedd morol, gan gynnwys ein pysgodfeydd, taflunio dylanwad byd-eang, rhoi hwb i fasnach a ffyniant y DU a chynnal ein gwerthoedd a chyfreithiau Rhyngwladol.

**7.21.** Fel y Llynges fwyaf blaenllaw yn Ewrop – un o ddim ond tair llynges yn y byd sy'n gallu gweithredu dau gludwr 5ed cenhedlaeth ac awyrennau jet F-35B – mae'r Llynges Frenhinol yn darparu cyfraniad hollbwysig i system Amddiffyn a Rhwystro NATO yn yr ardal Ewro-Iwerydd drwy ei lluoedd galluog, parodrwydd uchel. Drwy briodoli'r ataliaeth niwclear yn barhaol, Grŵp Cludwyr Ymosod a lluoedd Ymosod Arfordirol, byddwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad parhaus i amcanion diogelwch NATO.

**7.22.** Bydd y Llynges Frenhinol yn bresenoldeb parhaol o amgylch y byd, gyda mwy o longau, llongau tanfor, morwyr a môr-filwyr wedi'u lleoli ar sail barhaus, gan gynnwys i ddiogelu llwybrau llongau a chynnal rhyddid modrwyo. Gyda chefnogaeth gan ein partneriaid yn rhanbarth yr Indo-Môr Tawel, bydd Llongau Patrôl Alltraeth yn cael eu lleoli'n gyson ac yn 2023 bydd Grŵp Ymateb Arfordirol (LRG) yn ategu'r defnydd episodig o'n Grŵp Cludwyr Ymosod; gan gyfrannu at ddiogelwch a sicrwydd rhanbarthol.

**7.23.** Bydd y Llynges Frenhinol yn buddsoddi £40 miliwn ychwanegol yn y pedair blynedd nesaf i ddatblygu ein Llu Rheolaeth y Dyfodol fel rhan o'r broses o drawsnewid ein lluoedd tir a môr, yn ogystal â mwy na £50 miliwn i drawsnewid llong cymorth dosbarth Bay i ddarparu gallu ymosod arfordirol mwy ystwyth ac angheuol. Bydd y llu hwn a fydd yn gallu cyflawni gweithrediadau arbennig yn cael eu lleoli i ymateb yn gyflym i argyfyngau, ac yn gweithio ochr yn ochr â'n cynghreiriaid a'n partneriaid mewn meysydd o ddiddordeb i'r DU, yn barod i ymosod o'r môr, rhagweld ac atal gweithgarwch islaw'r trothwy, a gwrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol. Bydd hyn yn cael ei alluogi drwy leoli dau Grŵp Ymateb Arfordirol; bydd y cyntaf yn cael ei leoli yn 2021 i'r ardal Ewro-Iwerydd o dan NATO a'i adeiladu gan JEF, a bydd ail grŵp yn cael ei leoli i'r rhanbarth Indo-Môr Tawel yn 2023. Byddant hefyd yn gallu darparu hyfforddiant i'n partneriaid mewn rhanbarthau o'r byd lle mae diogelwch morol yn heriol iawn.

**7.24.** Mewn cydweithrediad â'r UD, a Chynghreiriaid eraill NATO, bydd y Llynges Frenhinol yn parhau i fuddsoddi mewn galluoedd tanddwr oherwydd mae hyn yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn diogelu ein seilwaith cenedlaethol hollbwysig, diogelu masnachu morol a chynnal ein mantais tanddwr. Bydd hyn yn cynnwys darparu Gallu Canfod Ffrwydron mewn partneriaeth â Ffrainc. Bydd y Llynges Frenhinol yn ymddeol Llongau Gwrth-Fesurau Ffrwydron wrth gyflwyno'r galluoedd newydd hyn.



Byddwn hefyd yn datblygu gallu Goruchwylio Cefnfor Aml-Rôl newydd i ddiogelu'r seilwaith cenedlaethol tanddwr hollbwysig y mae ein ffyniant yn ddibynnol arno. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i adeiladu saith llong danfor dosbarth Astute, ac mae pedair ohonynt eisoes yn weithredol. Mae'r dosbarth Trafalgar wedi'i ymestyn i sicrhau cyfnod pontio di-dor i'r dosbarth Astute. Rydym yn ymrwymedig i ariannu'r genhedlaeth nesaf o longau tanfor niwclear i warantu ein diogelwch ymhell i ail hanner y ganrif.

**7.25.** Bydd ein Llongau Patrôl Alltraeth yn cael eu lleoli'n barhaol yn Ynysoedd y Falkland, y Caribî, Gibraltar (i wasanaethu Môr y Canoldir a Gwlff Gini) a Dwyrain Swes yn y rhanbarth Indo-Môr Tawel. Gan ddarparu llwyfan ar gyfer ymgysylltiad parhaus a diogelu buddiannau'r DU, bydd hyn yn rhyddhau ffrigadau a longau distryw o dasgau llai heriol. Mae Llongau Patrôl Alltraeth wedi bod yn gweithredu yn y rolau hyn yn Ne'r Iwerydd am fwy nag 20 mlynedd ac yn fwy diweddar yn y Caribî, ac maent yn gallu cyfrannu at weithrediadau gwrth-gyffuriau, gwrth-fôr-ladrad, gwrth pysgota anghyfreithlon a gweithrediadau dyngarol ochr yn ochr â'n partneriaid yn y rhanbarthau hyn.

**7.26.** Bydd y Llynges Frenhinol yn canolbwyntio buddsoddiad ar wella cynaliadwyedd, angeuoldeb ac argaeledd y fflyd a darparu Llynges fwy modern, uwch-dechnoleg ac awtomataidd. Er mwyn galluogi hyn, bydd y Llynges Frenhinol yn ymddeol galluoedd etifeddiaeth gan gynnwys dwy o'n ffrigadau hynaf T23. Byddwn yn cyflwyno ffrigadau Math 31 a Math 32, ac nid yw'r llongau hyn yn disodli'r llwyfannau presennol yn unig, byddant yn fwy hyblyg na'u rhagflaenwyr. Wedi'u cymhwyso ag uwch synwyryddion ac arfau datblygedig, byddant yn croesawu modiwleiddiad a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio technoleg newydd ar hyd eu hoes a newid rôl yn ddibynnol ar natur y bygythiad. Bydd gallu angheuol y fflyd arwyneb yn cynyddu o ganlyniad i uwchraddio gallu amddiffyn yn yr awyr ein llongau distryw Math 45, gan ddisodli ein taflegrau llong-i-long Harpoon, a lansio ffrigadau Rhyfela Math 26 arloesol sydd wedi'u cynllunio yn y DU ochr yn ochr â Chanada ac Awstralia.



# Adeiladu llongau

**Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer 2030 yw meddu ar fenter adeiladu llongau sydd ar flaen y gad o ran arloesedd technolegol ac amgylcheddol, gan lywio'r sector i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol mewn rhannau allweddol o'r farchnad, gan gynnwys dylunio, adeiladu, integreiddio, profi a gwerthuso ac atgyweirio llongau'r llynges. Fel un o brif gwsmeriaid mentrau adeiladu llongau'r DU, mae Amddiffyn yn ymrwymedig i chwarae rhan arweiniol ar draws y llywodraeth i gefnogi'r Ysgrifennydd Amddiffyn yn ei rôl fel y Tsar Adeiladu Llongau.**

**Byddwn yn buddsoddi mewn adfywiad adeiladu llongau ym Mhrydain drwy ffynhonnell adeiladu llongau. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r gwariant presennol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn darparu cyfleoedd ar draws yr Undeb.**

**Bydd buddsoddiad strategol a hirdymor yn cynyddu gallu fflyd arwyneb y Llynges Frenhinol ac yn galluogi datblygiad:**

- **Fflyd o 3 llong Cefnogaeth Gadarn er mwyn i'r Grŵp Cludwyr Ymosod allu gweithredu'n fyd-eang.**
- **Gallu Goruchwylio Cefnfor Aml-Rôl, a fydd yn gwella ein gallu i ddiogelu ein seilwaith cenedlaethol tanfor hollbwysig a gwella ein gallu i ganfod bygythiadau yng Ngogledd yr Iwerydd.**
- **Ffrigadau Math 32, a gynlluniwyd i ddiogelu dyfroedd tiriogaethol, darparu presenoldeb parhaus tramor a chefnogi ein Grwpiau Ymateb Arfordirol.**
- **Llongau Cefnogaeth Aml-Rôl (MRSS), i ddarparu'r llwyfannau i Ymosodiadau Arfordirol, gan gynnwys Gweithrediadau Morol Arbennig, ar ddechrau'r 2030au.**
- **Y cam cysyniad ac asesiad ar gyfer ein llongau distryw Math 83 newydd a fydd yn dechrau disodli ein llongau distryw Math 45 ar ddiwedd y 2030au.**

**Mae hyn yn ychwanegol at ein hymrwymiadau presennol i adeiladu wyth ffrigad Rhyfela Gwrth-Danfor Math 26 ar y Clyde a phump ffrigad diben cyffredinol Math 31 yn Rosyth. Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i sicrhau natur gystadleuol sector adeiladu llongau Prydain a darparu'r llongau modern sydd eu hangen ar y Llynges Frenhinol i ddiogelu ein dyfroedd tiriogaethol a'r llwybrau llongau byd-eang y mae ein heconomi yn ddibynnol arnynt.**

**Yn gyffredinol, bydd ein buddsoddiad i adeiladu llongau yn dyblu yn ystod oes y Senedd hon gan gynyddu i fwy na £1.7bn y flwyddyn.**



Image Credit: BAES Systems Maritime

Icons not to scale

# Y Fyddin



Pencadlys ARRC a Phencadlysoedd Adrannol



Timau Ymladd Brigâd Trwm



Tîm Ymladd Brigâd Ymosodiadau Rhagchwilio Dwfn



Timau Ymladd Brigâd Ysgafn



Tîm Symudiadau- Brigâd Awyr



Tîm Ymladd Brigâd Hedfan




Brigâd Gweithrediadau Arbennig y Fyddin



Brigâd Cymorth y Lluoedd Diogelwch



Brigâd 77



Grwpiau Symud Gwybodaeth



Brigâd Peirianwyr



Brigâd Signalau



Brigâd Cynhaliaeth Theatr



Brigadau Cynhaliaeth Weithredol

**7.27.** Bydd y Fyddin yn derbyn buddsoddiad sylweddol er mwyn gallu bod yn fwy ystwyth, integredig, angheuol ac ymdeithiol. Byddwn yn buddsoddi £3bn ychwanegol mewn offer newydd i'r Fyddin, yn ychwanegol at fwy na'r £20bn arfaethedig. Bydd buddsoddi mewn cerbydau newydd (gan gynnwys Ajax, Boxer a Challenger III); moderneiddio gallu tanio manwl-gywir ystod hir (gan gynnwys systemau roced lansio lluosog ac Apache); amddiffynfeydd awyr newydd; dronau goruchwylio tactegol; a galluoedd rhyfela electronig a seiberofod newydd, yn trawsnewid offer y Fyddin yn ystod y degawd nesaf.

**7.28.** Bydd y Fyddin yn cael ei chynllunio i weithredu ar lefel fyd-eang ac ar sail barhaol. Bydd y Gatrawd Ranger newydd yn flaengad yr elfen ymdeithiol hon fel rhan o Frigâd Gweithrediadau Arbennig y Fyddin. Bydd pedair uned pob arf y Gatrawd hon yn cael eu halinio gyda'r Adrannau Troedfilwyr newydd a ddatblygwyd yn wreiddiol o'r Bataliynau Troedfilwyr Arbenigol presennol: 1 SCOTS, 2 PWRR, 2 LANCS a 4 RIFLES. Byddant yn gallu gweithredu mewn amgylcheddau cymhleth â bygythiad uchel, gan ymgymryd â rhai o'r tasgau a gyflawnir yn draddodiadol gan y Lluoedd Arbennig. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys rhwystro gwrthwynebwyr a chyfrannu at yr ataliaeth gydweithredol drwy hyfforddi, cynghori ac, os bydd angen, cyd-fynd gyda phartneriaid. Bydd y Fyddin yn sefydlu'r Gatrawd hon ym mis Awst ac yn buddsoddi mwy na £120 miliwn yn ystod y pedair blynedd nesaf yn ei harfogi.

**7.29.** Hefyd, byddwn yn sefydlu Brigâd Cymorth newydd i'r Lluoedd Diogelwch. Byddant yn tynnu ar bersonél ac arbenigedd o bob rhan o'r Fyddin. Bydd yr unedau hyn yn arbenigwyr ar feithrin gallu cynghreiriaid a chenhedloedd partner. Bydd unedau Cymorth y Lluoedd Diogelwch yn helpu i atal gwrthdaro a sicrhau gwytnwch ar gam cynnar. Bydd sylfaen fyd-eang Amddiffyn yn ategu hyn.

**7.30.** Bydd presenoldeb amlwg cynyddol y Fyddin yn cael ei gefnogi gan Lu Ymateb Byd-eang parod iawn, a fydd yn cynnwys 16 Brigâd Ymosodiad Awyr a'r Brigâd Brwydro Awyrennau, a fydd yn barod i ymateb i argyfyngau sy'n datblygu, o ddarparu cymorth dyngarol i ymateb i argyfyngau ac ymladd rhyfel. Bydd yr adran Rheolaeth Gweithrediadau Tir newydd yn cydlynu ymgysylltiad byd-eang y Fyddin yn ddyddiol.

**7.31.** Er byddwn yn defnyddio'r strwythur newydd hwn i weithredu, bydd ein gallu i ymladd mewn rhyfel yn parhau i fod yn gonglfaen ein gwaith atal ac yn sylfaen Byddin Brydeinig o'r radd flaenaf. Bydd 3ydd Adran (DU) yn parhau i fod yn ganolog i hyn, yn gallu rheoli brwydrau aml-barth mewn fwy o ddyfnder; wedi'i chynllunio i weithredu gyda NATO ac yn gallu darparu fframwaith i'r Cynghreiriaid. Bydd yr Adran 1af (DU) yn gallu gweithredu'n annibynnol neu fel rhan o leoliadau amlochrog. Bydd yn darparu swyddogaeth galluogi theatr ac yn cynnig yr hyblygrwydd i NATO i gynnal gweithrediadau yn eu hardaloedd dwyreiniol a gorllewinol.



Bydd 6ed Adran (DU) yn darparu swyddogaeth rhyfela seiber, electronig, gweithrediadau gwybodaeth a galluoedd anghonfensiynol a gweithrediadau a gynhelir o dan y trothwy rhyfel. Byddwn hefyd yn parhau i arwain pencadlys Corfflu Ymateb Cyflym y Cynghreiriaid (ARRC), a fydd yn barod i fyddino ac arwain Llu Ymateb NATO. Mae'r elfen Milwyr Wrth Gefn yn hollbwysig i'r genhedlaeth ymladd rhyfel.

**7.32.** Bydd Byddin y Dyfodol wedi'i symleiddio, bydd yn fwy angheuol, ystwyth ac wedi'u cyfateb yn well â'r bygythiadau presennol a rhai'r dyfodol. Bydd y strwythur newydd yn ad-drefnu'r Fyddin i Dimau Brwydro Brigâd (BCT) ac yn gallu cyflawni'r galw drwy dynnu ar eu hunedau cymorth logisteg ac ymladd penodedig. Bydd BCT Rhagchwilio Dwfn yn cyfuno synwyryddion aruthrol Ajax gydag uwch systemau tanio i ddarparu swyddogaeth oruchwylio gyson o bell er mwyn cydlynu ymosodiadau dwfn. Yn gyffredinol, bydd yr ailstrwythuro hwn yn golygu gostyngiad o'r cryfder Hyfforddedig Amser Llawn presennol o 76,000 i 72,500 erbyn 2025.

**7.33.** Mae ailstrwythuro'r Fyddin yn golygu bod angen llai o unedau. Bydd creu Bataliynau Cymorth Gwasanaeth Brwydro yn golygu y bydd angen llai o unedau ar wahân o logistegwyr, peirianwyr trydanol a mecanyddol a meddygon. Bydd adran y Troedfilwyr yn cael ei hailstrwythuro yn dair adran lai. Bydd yr adrannau hyn yn cynnwys nifer gytbwys o fataliynau a fydd yn cynnig yr ystod lawn o rolau troedfilwyr. Ni fydd unrhyw fathodynnau capiau yn cael eu diddymu ac ni fydd angen unrhyw ddiswyddiadau. Bydd yn sicrhau y gall yr holl droedfilwyr gael mynediad at yr ystod lawn o gyfleoedd gweithredol. Ar draws pob rhan o'r Fyddin, bydd y strwythurau newydd hyn yn darparu mwy o wytnwch gweithredol, integreiddiad, y gallu i leoli a mwy o gyfleoedd i'n pobl. Bydd cyflwyno 'Recriwtio Deallus' yn sicrhau bod personél yn cael eu lleoli'n well ar draws y Troedfilwyr. Bydd y strwythur newydd hwn yn golygu dileu bataliwn troedfilwyr unigol a bydd pedwar bataliwn arall yn darparu unedau sylfaen y Gatrawd Ranger.

**7.34.** Drwy ddulliau integreiddio mwy cynhyrchiol ar gyfer Milwyr wrth gefn, cynyddu angeuoldeb systemau arfau a gallu llwyfannau i oroesi a gweithlu arbenigol sy'n addas ar gyfer yr oes ddigidol, bydd y Fyddin yn parhau i fod o'r radd flaenaf. Bydd llunio timau pobl-peiriannau hefyd yn chwarae rôl amlycach wrth i'r Fyddin gyflawni. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn barod ar gyfer heriau'r dyfodol drwy sefydlu bataliwn arbrofi newydd, o Gatrawd Swydd Efrog, a fydd yn arwain y gwaith o dreialu technoleg arloesol a'i defnydd wrth i ni ymladd; profi'r BCT i'r eithaf, ysgogi arloesedd a sicrhau bod strwythurau, offer a ffordd o ymladd y Fyddin yn esblygu yn unol â'r bygythiadau.

**7.35.** Bydd buddsoddi mewn magnelau ystod hwy yn golygu y gall y Fyddin ddarparu ymateb mwy manwl ac angheuol ac ymosod ar wrthwynebwyr posibl gyda mwy o ddyfnder, gan ddarparu mwy o amddiffyniad.



Rydym yn bwriadu buddsoddi mwy na £250 miliwn dros ddeng mlynedd yn y System Rocedi Lansio Lluosog Cyfeiriedig (GMLRS) a fydd yn darparu llwyfan magnelau roced ystod hir gyda thaflegrau newydd sy'n teithio ymhellach ac sy'n fwy cywir. Yn ogystal, mae'r Fyddin yn gwario mwy na £800 miliwn yn y deng mlynedd nesaf ar Lwyfan Tanio Symudol newydd wedi'i awtomeiddio a fydd yn darparu systemau magnelau cymorth agos gwell a mwy o symudedd gweithredol. Yn y tymor byr, bydd y Fyddin yn buddsoddi i gynnal y system taflegrau Exactor. Yn y tymor hwy, bydd y gallu hwn yn cael ei uwchraddio i ddarparu mwy o angeuoldeb yn erbyn bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

**7.36.** Bydd buddsoddi mewn system amddiffyn yr awyr o'r ddaear yn darparu system o lwyfannau sydd wedi'u cysylltu'n ddigidol ac sy'n gallu goroesi, gyda gallu newydd ystod byr, gan gynnwys dronau bach a gallu ystod canolig newydd. Bydd y rhain yn rhoi gallu amddiffyn yr awyr i'r Fyddin i drechu bygythiadau modern yn yr awyr.

**7.37.** Bydd buddsoddiad o fwy na £200 miliwn dros ddeng mlynedd yn darparu gallu cudd-wybodaeth rhyfela electronig a signalau. Bydd cynnydd mewn personél newydd yn gallu casglu a defnyddio cudd-wybodaeth signalau a fydd yn dangos datblygiad arwyddocaol yn ein gallu i ymladd rhyfel electronig ar bob ffurf.

**7.38.** Bydd moderneiddio'r Fyddin yn golygu y bydd rhai llwyfannau etifeddiaeth eisoes sydd wedi'u hymestyn y tu hwnt i'w hoes gynlluniedig yn cael eu hymddeol. Wrth wneud hyn bydd y Fyddin yn gallu buddsoddi arian newydd i gyflymu dyddiad cerbyd arfog Boxer a gwella ei allu. Bydd Boxer yn galluogi'r Fyddin i ymateb yn brydlon i ddarparu milwyr ar y meysydd brwydrau, gan deithio pellteroedd mawr yn gyflym, ar draws gwlad ac, yn yr amgylcheddau mwyaf llym a gelyniaethus. Yn ôl y bwriad, bydd y Fyddin yn buddsoddi tua £1.3bn yn ein gallu arfog drwy uwchraddio 148 o'n prif danciau brwydro er mwyn sicrhau y bydd Challenger III yn un o'r tanciau mwyaf diogel a'r mwyaf angheuol yn Ewrop. Bydd gweddill y fflyd yn cael eu hymddeol. Ni fyddwn yn uwchraddio Warrior mwyach, ond byddwn yn parhau i'w defnyddio nes y cânt eu disodli gan Boxer, a disgwyliwn i hynny ddigwydd erbyn canol y degawd hwn.

**7.39.** Mae'r Fyddin yn ymddeol ei hofrenyddion Chinook CH-47 hynaf ac yn buddsoddi, ochr yn ochr â'r UD, mewn fersiynau mwy diweddar o'r awyrennau gweithredol profedig hyn, gan wella gallu, effeithlonrwydd a rhyngweithredededd. Bydd ein hofrenyddion Ymosod Apache AH-64 yn cael eu huwchraddio i allu o'r radd flaenaf erbyn 2025. Bydd buddsoddi mewn hofrennydd codi canolig yn ystod canol y 2020au yn ein galluogi i gyfuno fflyd gwahanol y Fyddin o hofrenyddion codi canolig o bedwar math o lwyfan i un; gan gynnwys disodli'r Puma. Bydd y Fyddin hefyd yn cadw ac yn uwchraddio Watchkeeper.



Nid yw'r eiconau i raddfa

# Y Llu Awyr Brenhinol

**Typhoon**

**F35B Lightning II**

**P-8A Poseidon**

**Voyager**

**C-17 Globemaster**

**A400M Atlas**

**Rivet Joint**

**Shadow**

**Protector**


**E-7A Wedgetail**

**Red Arrows**

**CH-47 Chinook**

**Hofrennydd Codi Canolig**

**Asgell Diogelu'r Lluoedd yr RAF**



**Prosiect System Brwydro Awyr yn y Dyfodol ar waith (gan gynnwys drônau heidio)**


**7.40.** Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn parhau i ddarparu pŵer pendant yn yr awyr a'r gofod er bod yr amgylchedd gweithredu yn dod yn fwy cymhleth a heriol. Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn cynnal proses radical o foderneiddio'r ffordd y mae'n cael ei drefnu a sut mae'n ymdrin â'i bobl, hyfforddiant, canolfannau a'r awyrennau a'r offer mae'n eu gweithredu, gan ddefnyddio effeithiolrwydd gynyddol llu sydd wedi'u rymuso'n ddigidol.

**7.41.** Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn parhau i gynyddu ei allu Brwydro Awyr yn y blynyddoedd nesaf wrth i ni sefydlu pob un o'r saith Sgwadron Typhoon gweithredol a chynyddu'r Llu Lightning II, gan gynyddu maint y fflyd y tu hwnt i'r 48 awyren rydym eisoes wedi'u harchebu. Gyda'i gilydd byddant yn darparu gallu aruthrol, a fydd yn cael ei uwchraddio'n barhaus er mwyn delio â'r bygythiad, defnyddio integreiddiad aml-barth ac ehangu defnydd. Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn datblygu gallu Typhoon, gan integreiddio arfau newydd gan gynnwys arf lansio manwl gywir i'r awyr 'SPEAR Cap 3' a ddatblygwyd yn y DU, a buddsoddi yn y rhaglen Radar 2 i ddarparu radar pwerus wedi'i sganio'n electronig. Byddwn yn integreiddio mwy o arfau'r DU yn Lightning II a buddsoddi i sicrhau bod ei feddalwedd a'i allu yn cael eu diweddaru ynghyd â gweddill y fflyd F-35 byd-eang.

**7.42.** Byddwn hefyd yn gwneud buddsoddiad strategol o fwy na £2bn yn y pedair blynedd nesaf yn y System Brwydrau Awyr y Dyfodol (FCAS). Bydd y system hon yn darparu cymysgedd arloesol o lwyfannau gyda chriw, heb griw ac awtonomaidd gan gynnwys dronau heidio. Bydd hyn yn darparu system ddatblygedig brwydro awyr a fydd yn gallu ymladd yn yr amgylcheddau mwyaf gelyniaethus. Bydd datblygiad technolegau newydd, a newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn defnyddio efelychwyr ar gyfer ymarfer cyrchoedd a hyfforddiant, yn galluogi'r Llu Awyr Brenhinol i fod ymhlith y lluoedd awyr mwyaf arloesol yn dechnegol, cynhyrchiol ac angheuol yn y byd.

**7.43.** Bydd rhaglenni offer blaengar y Llu Awyr Brenhinol yn cyfrannu'n helaeth at ffyniant cenedlaethol, drwy arloesedd a buddsoddiad mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, gan ddatblygu ein partneriaeth unigryw gyda sector awyrofod a thechnoleg gofod y DU.

**7.44.** Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn ymddeol offer sydd â defnydd cynyddol gyfyngedig yn yr amgylchedd digidol a'r amgylchedd gweithredu yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys ad-drefnu fflydoedd hŷn er mwyn gwella effeithlonrwydd, ymddeol Typhoon Tranche I erbyn 2025, a Hawk T1. Byddwn yn gwella'r system hyfforddiant hedfan milwrol newydd ac yn buddsoddi ymhellach mewn hyfforddiant synthetig a fydd yn darparu peilotiaid mwy abl a hynny'n gyflymach ac yn fwy effeithlon. Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn ymddeol yr Hercules C130 erbyn 2023. Bydd llu Atlas A400M yn cynyddu ei gapasiti a'i allu, gan weithredu ochr yn ochr â awyrennau cludo a thanceri Globemaster C-17 a Voyager.



**7.45.** Byddwn yn ymddeol y Warchodaeth E-3D yn 2021, fel rhan o'r broses o drawsnewid i fflyd fwy modern a galluog o dair Wedgetail E – 7A yn 2023. Bydd yr E-7A yn trawsnewid ein gallu Rhybudd a Rheolaeth Gynnar yn yr Awyr yn y DU a chyfraniad y DU i NATO. Bydd y naw awyren patrôl morol Poseidon P – 8A yn helpu i ddiogelu ein moroedd. Bydd cyflwyno 16 system Protector a fydd yn cael eu tywys o bell yn asgwrn cefn i'r swyddogaeth oruchwylio aml-sbectrwm parhaus, a fydd yn gallu ymosod a gweithredu'n bendant yn erbyn ein darpar wrthwynebwyr o amgylch y byd.

**7.46.** Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn dwysáu dylanwad y DU o amgylch y byd drwy atgyfnerthu ein cynghreiriaid yn ardal yr Indo-Môr Tawel, y Dwyrain Canol ac Affrica. Bydd datblygu rhwydwaith byd-eang o ganolfannau addasadwy gyda'n cynghreiriaid a'n partneriaid allweddol yn ein galluogi i leoli ein hawyrennau yn bendant a gallu ymateb cyn ein darpar wrthwynebwyr. Bydd y Llu Awyr Brenhinol yn chwarae rôl hollbwysig wrth ymgysylltu'n barhaus, gan gynnwys ceisio cyfleodd ffyniant drwy ddarparu hyfforddiant hedfan o'r radd flaenaf a meithrin capasiti lluoedd awyr ein partneriaid, er enghraifft y Sgwadron Typhoon ar y Cyd gyda Qatar. Hefyd, bydd y Llu Awyr Brenhinol yn parhau i ddarparu swyddogaeth meithrin capasiti arbenigol, gan gynnwys ym meysydd cudd-wybodaeth a thargedu, y gofod, goruchwyliaeth a rhagchwilio, diogelu'r lluoedd, rheoli gofod brwydrau, rheoli traffig awyr, cyngor eromeddygol a diogelwch awyr.



# Amddiffyn y DU gyfan

**Gyda galluoedd helaeth ac ôl-troed mawr ar draws y DU gan fuddsoddi mewn diwydiant, seilwaith, swyddi a sgiliau, mae Amddiffyn yn ymgorffori'r cydfuddiannau a'r dibyniaethau a rennir sy'n dod â'r DU at ei gilydd mor llwyddiannus ar draws yr Undeb. P'un a yw hynny'n golygu cadw'r DU yn ddiogel, neu'r ymateb ar draws y DU gyfan i Covid-19, mae Amddiffyn wedi'i blethu yn y pedair gwlad. Yn 2019-20 roedd y gwariant ar Amddiffyn gyda diwydiant a masnach y DU wedi cefnogi mwy na 18,000 o swyddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r setliad diweddaraf wedi ein galluogi i ddiogelu ein hymrwymiadau presennol yn y gwledydd hyn ac ysgogi twf yn y sectorau cysylltiedig.**

**Mae ein buddsoddiadau yn System Brwydrau Awyr y Dyfodol (FCAS) a rhaglen ofod y DU yn ddwy enghraifft pan all cwmnïau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fanteisio'n llawn ar gyllid Amddiffyn. Mae Amddiffyn yn cyflogi tua 14,000 o luoedd arfog a 6,000 o sifiliaid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda llawer o'r lluoedd arfog yn cael eu lleoli'n rheolaidd ar weithrediadau sy'n cefnogi ymrwymiadau'r DU i NATO a chadw heddwch y Cenhedloedd Unedig. Mae Amddiffyn yn dychwelyd mwy na 15,000 o gyn-filwyr a sifiliaid medrus y flwyddyn i'r gymdeithas ar hyd a lled y DU, gan wella cysylltiadau i gymunedau a chyfoethogi ein cyfraniad i'r wlad.**

**Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn chwarae rôl bwysig yn cefnogi ein pobl a'n galluoedd i amddiffyn y DU gyfan. Mae'r Alban yn gartref i longau tanfor y DU, Ataliaeth Barhaus ar y Môr a fflyd y Llu Awyr Brenhinol o awyrennau rhybudd awyr Boeing P8 Poseidon a Wedgetail E-7A. Mae Canolfan Llynges Ei Mawrhydi ar y Clyde yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr Alban, gan ddarparu mwy na 6,800 o swyddi ac amcangyfrifir bod y gwelliannau seilwaith werth tua £1.5bn dros ddeng mlynedd. Yn RAF Lossiemouth, mae gennym tua £160 miliwn i'w wario o hyd o'r £470 miliwn sydd wedi'i ymrwymo i welliannau parhaus i'r seilwaith er mwyn gallu darparu ar gyfer yr Awyrennau Patrôl Morwrol a chefnogi twf y llu Typhoon. Bydd hyn yn arwain at 550 o luoedd arfog ychwanegol a'u teuluoedd yn symud i'r ganolfan.**

**Mae rhagoriaeth yr hyfforddiant a roddir i'n lluoedd arfog yng Nghymru yn ganolog i'w llwyddiant – o hyfforddiant peilotiaid jet cyflym yn RAF Fali i'r fantais ymladd mewn rhyfel a ddatblygir yn yr ardaloedd hyfforddiant o amgylch Aberhonddu, a'r gwaith profi a gwerthuso hollbwysig yn Aberporth. Bydd y ganolfan Gwarchodfa Forwrol Frenhinol yng Nghaerdydd, sy'n werth £11 miliwn, yn darparu cyfleoedd i ddatblygu presenoldeb y Llynges Frenhinol.**

**Yng Ngogledd Iwerddon, mae contractau amddiffyn yn parhau i roi hwb i'r economi ranbarthol. Fel enghraifft, mae cwmnïau yn Belfast wedi sicrhau estyniad pum mlynedd i gynnal systemau Amddiffyniad Awyr Ystod Byr lluoedd tir y DU a chytundeb gwerth £30 miliwn i ddylunio a gweithgynhyrchu prototeip ar gyfer fflyd cyntaf y DU o awyrennau brwydro heb griw, sy'n cefnogi mwy na 100 o swyddi yn Belfast. Hefyd, gyda galluoedd adnabyddus Gogledd Iwerddon ym meysydd seiber-ddiogelwch a gweithgynhyrchu uwch, mae mewn sefyllfa ddelfrydol i elwa ar fuddsoddiad ychwanegol Amddiffyn mewn technolegau newydd yn y ddau faes hyn.**



# Amddiffyn y DU gyfan

Niferoedd milwrol arferol

Niferoedd y milwyr wrth gefn

Sifiliaid

## Gogledd Iwerddon

Niferoedd milwrol arferol: 1,780

Niferoedd y milwyr wrth gefn: 1,940

Sifiliaid: 900

**£83 miliwn** - cyfanswm gwariant gyda diwydiant

**500** o swyddi uniongyrchol wedi'u cefnogi â diwydiant

**Gwasanaethau Proffesiynol - £22m:** y categori gwariant diwydiannol mwyaf

## Yr Alban

Niferoedd milwrol arferol: 9,820


Niferoedd y milwyr wrth gefn: 4,800

Sifiliaid: 3,970

**£2.1bn –** cyfanswm gwariant gyda diwydiant

**12,400** o swyddi uniongyrchol wedi'u cefnogi â diwydiant

**Adeiladu llongau - £1.06bn:** y categori gwariant diwydiannol mwyaf



## Cymru

Niferoedd milwrol arferol: 2,160 | Niferoedd y milwyr wrth gefn: 1,700 | Sifiliaid: 1,080

**£909 miliwn** – cyfanswm gwariant gyda diwydiant

**5,700** o swyddi uniongyrchol wedi'u cefnogi â diwydiant

**Arfau a Bwledi - £1.06bn:** y categori gwariant diwydiannol mwyaf

**>500 o bersonél mewn lleoliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn**

**Lleoliadau eraill y Weinyddiaeth Amddiffyn**

## Gogledd Iwerddon

**Belfast:** Bydd y buddsoddiad parhaus mewn Taflegrau Aml-rôl ysgafn yn cynnal gweithlu Thales. Yn ogystal, ym mis Mawrth 2021, fe sicrhaodd y safle estyniad o 5 mlynedd er mwyn cynnal Amddiffyn Awyr Ystod Byr.

**Belfast:** Mae Spirit AeroSystems wedi ennill contract gwerth £30 miliwn yn ddiweddar am 3 blynedd i ddylunio a gweithgynhyrchu prototeip ar gyfer fflyd cyntaf y DU o awyrennau ymladd heb griw.

**Belfast:** Mae cyfle i iard longau Harland and Wolf fanteisio ar y ffynhonnell adeiladu llongau.

**Belfast:** Mae Thales Alenia yn gartref i Ganolfan ryngwladol Integreiddio Gyriant Trydan y Gofod a bydd mewn sefyllfa dda i elwa ar wariant amddiffyn gyda'r diwydiant gofod.

## Yr Alban

**Scotstoun, Rosyth a Govan** bydd y iardiau llongau hyn yn elwa ar y ffynhonnell adeiladu llongau. Babcock yn Rosyth fydd y brif safle cydosod ar gyfer y ffrigadau Math 31. Mae iardiau BAE Systems Glasgow yn gweithio ar longau Math 26. Mae iardiau yr Alban yn debygol o elwa ar y Math 32 newydd, MROSS ac MRSS ac addasu LSDA.

**Lossiemouth:** Mae yna fuddsoddiad seilwaith parhaus gwerth £470 miliwn i gartrefu'r Cyfleuster Strategol Awyrennau Patrôl Morwrol a chefnogi twf llu Typhoon. Mae £220 miliwn i'w wario o hyd. Bydd Lossiemouth hefyd yn ganolfan ar gyfer fflyd yr RAF o dair awyren Rhybudd Cynnar yn yr Awyr Boeing E-7A Wedgetail.

**Canolfan Llynges Clyde :** HMNB Clyde yw'r ail gyflogwr safle unigol mwyaf yn yr Alban, gan gyflogi tua 6,800 o bobl ar hyn o bryd, ffigur a fydd yn cynyddu wrth i'r ganolfan ddod yn gartref i holl longau tanfor y Llynges Frenhinol. Cafodd Rhaglen seilwaith Clyde ei sefydlu yn 2015 ac mae'n werth tua £1.6 biliwn.



## Cymru

**Sealand:** Mae'r Asiantaeth Electroneg a Chydrannau Amddiffyn yn cyflogi mwy na 400 aelod o staff sy'n arbenigo mewn gwaith cynnal a chadw, atgyweirio, ailwampio ac uwchraddio electronig a chydrannau. Yn 2019 fe sicrhaodd DECA aseiniad hirdymor a oedd yn werth £500 miliwn gan yr UD i gefnogi gwasanaethau hollbwysig ar gyfer y fflyd F-35 fyd-eang.

Bydd **Aberhonddu** yn parhau i fod yn gartref i'r Frigâd 160 a Phencadlys Cymru ac mae'r Fyddin yn parhau i fod yn ymrwymedig i adleoli uned y Fyddin Reolaidd i Gymru.

**Merthyr Tudful:** Mae General Dynamics UK yn adeiladu'r genhedlaeth nesaf o gerbydau arfog AJAX. Disgwylir i'r gwaith hwn barhau hyd at 2025 ac mae'n cefnogi cannoedd o swyddi yn Safle de Cymru.

**Ynys Môn:** Mae RAF Fali yn gartref i unig ysgol hyfforddi peilotiaid ymladdwyr yr RAF. Mae cyfanswm o tua 1,500 o bersonél, gweision sifil a chontractwyr yn cydweithio i ddarparu'r hyfforddiant criw awyr. Mae'r ganolfan ar yr ynys wedi'i dewis fel lleoliad Hyfforddiant Hedfan Sylfaenol Amddiffyn yn y dyfodol.

**Bae Caerdydd:** Yn 2020 agorodd canolfan Gwarchodfa Forwrol Frenhinol yn y bae, sy'n darparu cyfleoedd i ehangu presenoldeb y Llynges Frenhinol ymhellach yng Nghymru.

# Perthynas gryfach gyda diwydiant

## Pennod 8

**8.1.** Mae'r Bennod hon yn esbonio sut y byddwn yn mabwysiadu perthynas fwy strategol gyda diwydiant ac yn datblygu sylfaen ddiwydiannol mwy cynaliadwy. Yn ogystal â sicrhau bod ein lluoedd arfog yn fwy effeithiol, bydd yn creu buddiannau ar hyd a lled y DU – cynnal swyddi technegol uchel, atgyfnerthu cynhyrchiant a phweru natur gystadleuol y DU ar y farchnad fyd-eang.

**8.2.** Mae angen sylfaen ddiwydiannol gynaliadwy arnom i sicrhau bod gan y DU fynediad at y meysydd mwyaf sensitif a meysydd gweithredu hanfodol ar gyfer ein diogelwch cenedlaethol, ac i fanteisio i'r eithaf ar botensial economaidd un o sectorau mwyaf llwyddiannus ac arloesol ym Mhrydain. Ochr yn ochr â'r papur hwn, bydd Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch (DSIS) newydd yn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer partneriaeth fwy strategol rhwng y llywodraeth a'r diwydiannau amddiffyn a diogelwch.

**8.3.** Byddwn yn defnyddio dull gweithredu mwy strategol at allu diwydiannol sy'n hollbwysig i'n anghenion strategol a gweithredol. Tra bydd cystadleuaeth yn parhau i fod yn ddull pwysig i ysgogi gwerth am arian mewn llawer o feysydd, ac yn y gadwyn gyflenwi, mae DSIS yn darparu mwy o hyblygrwydd wrth ddylunio strategaethau gallu a chaffael i ddarparu'r sgiliau, technolegau a galluoedd ar y tir sydd eu hangen i wrthsefyll y bygythiadau a manteisio ar gyfleoedd. Bydd DSIS yn sicrhau ystyriaeth fwy cyson o oblygiadau tymor hwy penderfyniadau caffael Amddiffyn ar gyfer gallu milwrol a'r diwydiant sy'n ei gynhyrchu a'i gefnogi.

**8.4.** Mae'r setliad Amddiffyn yn creu sefydlogrwydd i'r rhaglen Amddiffyn ac yn darparu'r sicrwydd sydd ei angen ar ddiwydiant i gynllunio, buddsoddi a thyfu. Bydd cynyddu'r buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu a chydweithrediad agos gyda diwydiant yn ein galluogi i arbrofi a chyflwyno galluoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan greu mantais strategol a chyfleoedd economaidd.

**8.5.** Mae ein buddsoddiad yn y rhaglen System Brwydrau Awyr y Dyfodol (FCAS) yn cynrychioli newid patrwm yn sector diwydiannol brwydro awyr y DU er mwyn cyflawni'r cyflymder, y fforddiadwyedd a'r gallu gweithredol sydd ei angen arnom i gyflawni ein gofynion. Bydd y dull hwn yn cyflawni galluoedd ddwywaith yn fwy cyflym, am gost is, wedi'u cynllunio a'u cyflawni mewn menter gwbl ddigidol. Defnyddio dyluniadau ar sail modelau, peirianneg systemau ac ymgorffori'r egwyddorion dyluniad ystwyth diweddaraf er mwyn cyflawni'n gyflymach. Mae FCAS eisoes wedi creu mwy na 1,800 o swyddi STEM newydd mewn mwy na 300 o gwmnïau yn genedlaethol, mae wedi cynnal a chefnogi mwy na 18,000 o swyddi medrus iawn yn y sector, yn ogystal â degau o filoedd yn fwy yn y cadwyni cyflenwi ehangach ar hyd a lled y DU.

**8.6.** Er mwyn sicrhau ein bod gam o flaen ein gwrthwynebwyr, mae angen i ni sicrhau bod ein polisïau a'n prosesau caffael yn fwy ystwyth. Byddwn yn diwygio'r broses gaffael i fod yn fwy ymatebol i natur newidiol y diwydiant. Byddwn hefyd yn adolygu ein harferion caffael er mwyn galluogi mwy o fentrau bach a chanolig eu maint i gyfranogi ym mhrosesau caffael Amddiffyn. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol TIR yn DSIS yn gatalydd ar gyfer dull o'r fath ar gyfer system brwydro ar y tir, wrth gefnogi datblygiad sector diwydiannol a thechnegol tir yn y DU a fydd yn cystadlu ar lwyfan y byd.

**8.7.** Rydym yn gweithio i gynyddu cyfraniad amddiffyn i ffyniant y DU. Ochr yn ochr â diwydiant, rydym yn adnewyddu strategaeth y Bartneriaeth Twf Amddiffyn ar allforion a thwf economaidd. Rydym yn buddsoddi ar y cyd yng Nghanolfan Datrysiadau Amddiffyn y DU i wella ansawdd gwybodaeth am sector amddiffyn y DU a chyfleoedd posibl yn y farchnad. O fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn, gydag Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU, ac adrannau eraill o'r llywodraeth, mae yna ffocws o'r newydd ar gyflawni llwyddiant allforio ar bob cam, o ddiffinio gofynion milwrol ar gyfer ein hoffer, i greu pecynnau traws-adrannol a chefnogaeth cyllid allforio estynedig. Byddwn yn cydweithio i gefnogi amcanion ffyniant ar draws pedair gwlad y DU ac i gefnogi twf rhanbarthol a lleol drwy gyfranogiad y Sbardunwr Amddiffyn a Diogelwch mewn Clystyrau Amddiffyn a Diogelwch Rhanbarthol. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu ein gwaith ffyniant gydag ysgogwyr rhyngwladol allweddol i greu cyfleoedd ar gyfer cadwyn gyflenwi amddiffyn galluog ac arloesol iawn y DU. Byddwn yn cynnwys meini prawf Gwerth Cymdeithasol newydd y Llywodraeth mewn contractau sy'n cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus Amddiffyn a Diogelwch newydd, a fydd yn cynorthwyo i greu busnesau newydd, swyddi newydd a sgiliau newydd yn y DU.

**8.8.** Mae'r DU yn agored i gydweithrediad ymchwil, gallu a diwydiannol gyda Chynghreiriaid a phartneriaid dibynadwy, a byddwn yn cefnogi ein sylfaen ddiwydiannol a thechnoleg i weithio'n rhyngwladol ac atgyfnerthu yr un pryd ein hamddiffyniad rhag buddsoddiadau mewn cadwyni cyflenwi a allai niweidio diogelwch cenedlaethol. Ochr yn ochr â hyn rydym yn atgyfnerthu ein diogelwch yn erbyn risgiau economaidd a buddsoddiadau gelyniaethus mewn technoleg sensitif, amddiffyn a defnydd deuol sy'n gweithredu yn erbyn diogelwch cenedlaethol. Fel yr amlinellwyd ymhellach yn y DSIS, bydd Amddiffyn yn edrych i fuddsoddi mewn partneriaethau strategol rhyngwladol blaenoriaeth ar draws y byd, gan gynnwys gyda gwledydd y Pum Llygad, Ewrop, y Gwlff ac Indo-Môr Tawel.

**8.9.** Byddwn hefyd yn gweithio ar gyflymder gyda'n cynghreiriaid i leihau rhwystrau ar gyfer rhannu technoleg, sgiliau a gwybodaeth, a chyflymu cydweithrediad arloesol a diwydiannol i sicrhau ac ehangu ein mantais ar y cyd dros ein gwrthwynebwyr posibl. O'r gofod busnes i'r gofod brwydro, byddwn yn gwella sylfaen academaidd a diwydiannol y DU, cydweithio gyda phartneriaid i siapio syniadau, safonau a normau byd-eang ar gyfer mabwysiadu'r technolegau newydd hyn mewn ffyrdd cyfrifol a moesol. Byddwn yn gweithio i leihau rhwystrau at gydweithrediad gyda'n cynghreiriaid agosaf. A byddwn yn darparu'r sylfeini ar gyfer perthnasoedd strategol newydd gyda diwydiant i siapio'r farchnad, ysgogi arloesedd, datblygu sgiliau a meithrin sector ffyniannus a chystadleuol.



# System Brwydrau Awyr y Dyfodol

**Bydd Brwydrau Awyr yn chwarae rôl hollbwysig yn ein galluoedd strategol milwrol am ddegawdau i ddod, yn ein galluogi i wneud cyfraniad pendant i ddiogelwch byd-eang yn ogystal â chreu swyddi ac ehangu ffyniant ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Rydym yn buddsoddi yn awr i lansio cam nesaf Rhaglen Gaffael FCAS ac i gyflawni'r Cysyniad Tempest: systemau arloesol o systemau criwiau dewisol ac awtonomaidd i ddiogelu ein mantais weithredol ymhell i'r dyfodol. Bydd Tempest yn manteisio ar ein sylfaen ddiwydiannol unigryw i greu 6ed cenhedlaeth menter brwydrau awyr yn y DU. Bydd y fenter gwbl ddigidol hon yn trawsnewid dulliau cyflenwi, cyflawni cyflymder a lleihau cost a tharfu ar ddulliau traddodiadol o gaffael amddiffyn. Rydym yn dwysáu partneriaeth FCAS gyda'r Eidal a Sweden drwy Gam Cysyniad ac Asesiad rhyngwladol sy'n dechrau eleni ac yn archwilio cyfleoedd pwysig i gydweithredu gyda Japan. Bydd Brwydrau Awyr yn parhau i fod yn elfen allweddol o ddull gweithredu byd-eang y DU wrth i ni atgyfnerthu rhyngweithrededd a chydweithrediad gyda'r UD a chryfhau ein perthnasoedd gyda'r consortiwm Typhoon yn Ewrop a gwledydd eraill o'r un anian. Mae diwydiant Brwydrau Awyr y DU yn cefnogi 18,000 o swyddi yn uniongyrchol, gyda degau o filoedd o swyddi eraill yn y gadwyn gyflenwi ehangach, a disgwylir i'r nifer o swyddi medrus iawn gynyddu'n gyflym o 2021. Mae hyn yn ymdrech genedlaethol a rhyngwladol mawr, a fydd yn buddsoddi yn ein sylfaen technoleg a sgiliau domestig ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ac arddangos arweinyddiaeth y DU ar y llwyfan rhyngwladol.**





# Trawsnewid ein ffyrdd o weithio

## Pennod 9

**9.1.** Mae angen i ni wneud newidiadau hefyd i'r ffordd yr ydym yn rheoli ein busnes. Mae'r Bennod hon yn esbonio rôl Swyddfa Asesu a Herio Net newydd ein Hysgrifennydd Gwladol (SONAC) a fydd yn sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei hysbysu gan y darlun sy'n esblygu o'r bygythiadau. Hefyd, mae angen i ni gynnal rhaglen ddiwygio, optimeiddio ein seilwaith ar sail gwerth, potensial a chynaliadwyedd a meithrin gwytnwch ein hystâd a'n lluoedd arfog er mwyn ymateb i'r heriau a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd.

### Swyddfa Asesu a Herio Net yr Ysgrifennydd Gwladol

**9.2.** O ystyried yr heriau cymhleth, amlochrog a wynebwn, mae'n rhaid i brosesau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol gael eu llywio gan amcanion clir, sy'n canolbwyntio ar fygythiadau ac wedi'u hysgogi gan dystiolaeth. Rydym yn sefydlu'r SONAC a fydd yn dod â'r gorau o'r gwasanaeth sifil, y lluoedd arfog, y byd academaidd a busnes at ei gilydd.

**9.3.** Bydd SONAC yn herio'r doethineb a'r ffyrdd o wneud pethau a dderbynnir. Bydd yr uned yn darparu canolfan ganolog ar gyfer dadansoddi strategol yn ein Pencadlys, gan sicrhau bod ein strategaeth a'n datblygiad ar draws y llu yn parhau i gael eu harwain gan y bygythiadau a thystiolaeth, yn awr ac ymhell yn y dyfodol. Bydd yn datblygu ffyrdd newydd i ddeall y bygythiad, gan gynnwys drwy ymgorffori'r dull Asesu Net i asesu sut yr ydym yn cymharu â'n gwrthwynebwyr yn awr ac yn y dyfodol. Bydd yn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi strategol o'n gweithgarwch ein hun, ond hefyd, yn bwysicach, dulliau gweithredu cyfranogwyr rhyngwladol eraill.

**9.4.** Bydd y tîm yn gwella ei ddefnydd o heriau ac yn sbarduno ffyrdd newydd arloesol o feddwl yn yr adran. Bydd SONAC yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i ddefnyddio eu harbenigedd a'u technegau dadansoddi arloesol i ddwysáu ein ffordd o feddwl ac archwilio opsiynau strategol dyfeisgar i gynnig safbwyntiau gwahanol i Weinidogion. Bydd hyn yn cynnwys gwaith rhyfela a gwaith tîm coch, wedi'i hysbysu gan Gudd-wybodaeth Amddiffyn, i sicrhau bod strategaethau yn cael eu profi gan leisiau annibynnol ac amrywiol cyn iddynt gael eu gweithredu.

**9.5.** Bydd y newidiadau hyn yn newid y ffordd mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn meddwl am strategaeth yn radical – gan newid o ddull sydd wedi'i seilio yn yr 20fed Ganrif i un sy'n edrych ar fygythiadau'r dyfodol ac yn barod i lywio mantais y DU i ganol yr 21ain Ganrif.

### Cudd-wybodaeth Amddiffyn

**9.6.** Mae angen i elfen cudd-wybodaeth Amddiffyn addasu hefyd i'r bygythiad newydd. Mae cudd-wybodaeth ffynhonnell agored, awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial yn darparu ffyrdd a allai weddnewid y dulliau i ddeall ac atal yr heriau newydd hyn. Drwy ddeall y bygythiadau gallwn ddiogelu ein hasedau mwyaf gwerthfawr, p'un a yw'r rhain yn bersonél y lluoedd arfog, ein seilwaith cenedlaethol hollbwysig, ein eiddo deallusol neu ein hataliaeth niwclear. Gallwn ddiogelu ein gwendidau yn ogystal â nodi cyfleoedd er mwyn manteisio ar rai ein gwrthwynebwyr. Wrth i'r bygythiad barhau i esblygu ac wrth i dechnoleg gyflwyno cyfleodd newydd, bydd Cudd-wybodaeth Amddiffyn yn cyfeirio ac yn cydlynu gweithrediadau cudd-wybodaeth ar draws Amddiffyn ac yn defnyddio ei gwybodaeth yn fwy ystwyth er mwyn cael effaith.

### Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd

**9.7.** Byddwn yn arweinydd byd-eang yn yr




ymateb i'r bygythiadau geo-wleidyddol ac sy'n gysylltiedig â gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg, ac sydd wedi'u dwysáu gan y newid yn yr hinsawdd. Wedi'i lywio gan Strategaeth uchelgeisiol Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, byddwn yn cynyddu gwytnwch ein lluoedd arfog i gyflyrau tywydd mwy eithafol er mwyn cynnal ein mantais strategol a'n rhyddid i symud mewn amgylcheddau sydd hyd yn oed yn fwy didrugaredd. Hefyd, byddwn yn lliniaru effaith ein ôl-troed Adrannol ar yr hinsawdd ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella cynaliadwyedd ein gweithrediadau.

**9.8.** Byddwn ar flaen y gad wrth gyfrannu at y gwaith o gyflawni ymrwymiad cyfreithiol HMG i allyriadau Sero-Net erbyn 2050. Hyd yma, mae Amddiffyn wedi rhagori ar ei dargedau i leihau ei allyriadau, gan leihau ei allyriadau o 48% yn erbyn targed o 39.9% yn ogystal â chynyddu ei ailgylchu 56%, a lleihau gwastraff cyffredinol 38%, o gymharu â gwaelodlin 2009/2010. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy. Byddwn yn croesawu'r cyfle a gyflwynwyd gan lywyddiaeth y DU o COP26 i weithio gyda'n cynghreiriaid a'n partneriaid i gyflawni ymrwymiadau ar weithgareddau addasu, gwytnwch a lliniaru. Byddwn hefyd yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn manteisio ar gyfleodd i ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd ym mhob rhan o Amddiffyn, o'r seilwaith a'r ystadau, i gontractio, diwylliant, offer ac arferion gweithredu; pob un wedi'u cefnogi gan dechnoleg. Bydd hyn yn galluogi i Amddiffyn gyfrannu'n weithredol at gyflawni ymrwymiad Sero-Net y DU ac ymrwymiadau cynaliadwyedd ehangach.

## Seilwaith

**9.9.** Byddwn yn buddsoddi i drawsnewid ein hystad er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei gwerth a'i photensial. Byddwn yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer ein prosiectau seilwaith hollbwysig i wella ein gwytnwch a lleihau maint yr ystad yr un pryd, gan gydgrynhoi ein sylfaen asedau a pharhau i gynnal ystad ddiogel, sy'n cydymffurfio. Mae'r Portffolio Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn (DE) yn bortffolio uchelgeisiol 25 o flynyddoedd ar hyd a lled y DU, gan gynnwys gweithgarwch adeiladu, symud unedau a phersonél a rhyddhau tir. Rydym yn buddsoddi tua £4.3bn yn y rhaglen hon yn ystod y degawd nesaf, gan sicrhau y byddwn yn ailgodi'n well, yn gyflymach ac yn fwy gwyrdd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am tua 1% o dirfas y DU yn ei hystadau, a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant yn bennaf. Mae allyriadau o'r seilwaith yn cynrychioli tua 30% o allyriadau gwaelodlin Amddiffyn. Bydd y Rhaglen DEO yn moderneiddio'r seilwaith ac yn cynyddu effeithlonrwydd wrth reoli ystadau yn ystod y 25 mlynedd nesaf.

**9.10.** Dros amser byddwn yn symud i ffwrdd o systemau cynnal a chadw adweithiol ac yn newid ein safonau adeiladu i sicrhau ein bod ond yn adeiladu llety a swyddfeydd sy'n cyflawni disgwyliadau ein personél yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i'n llety ar gyfer y lluoedd arfog er mwyn gwella profiad byw ein personél. Rydym yn bwriadu gwario tua £1.5bn yn y deg mlynedd nesaf ar waith uwchraddio i Lety Byw Sengl.

## Cynaliadwyedd Ariannol

**9.11.** Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar ymateb i'r bygythiadau a wynebwn mewn ffyrdd fforddiadwy ac ar y cyflymder sydd ei angen i'n cadw'n ddiogel. Mae'r cyfle hwn yn hollbwysig i Amddiffyn symud i sylfaen ariannol gadarn. Rydym yn gweithio i atgyfnerthu ein systemau i ysgogi a sicrhau gwerth am arian. Rydym yn cyflwyno gwelliannau i'r dulliau o gyflenwi rhaglenni, caffael a'r gallu i reoli materion cymhleth, risg a chyflymder newid technolegol yn fforddiadwy a thrylwyr.

# Acronymau

| | |
|---|---|
| **AI** | Deallusrwydd Artiffisial |
| **AMISOM** | Cenhadaeth Undeb Affrica i Somalia |
| **ARRC** | Corfflu Ymateb Cyflym y Cynghreiriaid |
| **ASEAN** | Cymdeithas Gwledydd De-ddwyrain Asia |
| **BCT** | Tîm Brwydro Brigâd |
| **CBRN** | Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear |
| **CJEF** | Llu Alldeithiol ar y Cyd |
| **CT** | Gwrthderfysgaeth |
| **DEO** | Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn |
| **DSIS** | Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a Diogelwch |
| **Dstl** | Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn |
| **ECOWAS** | Cymuned Economaidd Gwledydd Gorllewin Affrica |
| **FPDA** | Trefniadau Amddiffyn y Pum Pŵer |
| **GCHQ** | Pencadlys Cyfathrebu y Llywodraeth |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **GMLRS** | System Rocedi Lansio Lluosog Annel |
| **HMG** | Llywodraeth Ei Mawrhydi |
| **HQ** | Pencadlys |
| **ISTAR** | Cudd-wybodaeth, Goruchwylio, Caffael Targed a Rhagchwilio |
| **IOpC** | Cysyniad Gweithredu Integredig |
| **JEF** | Llu Alldeithiol ar y Cyd |
| **KFOR** | Llu Kosovo (llu cadw heddwch wedi'i arwain gan NATO) |
| **LRG** | Grŵp Ymateb Arfordirol |
| **MINUSMA** | Cenhadaeth Sefydlogi Aml-ddimensiwn Integredig y Cenhedloedd Unedig ym Mali |
| **MOD** | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| **NATO** | Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd |
| **NCF** | Llu Seiber Cenedlaethol |
| **PPE** | Cyfarpar Diogelu Personol |
| **R&D** | Ymchwil a Datblygu |
| **SIS** | Gwasanaeth Diogelwch a Chudd-wybodaeth |
| **STEM** | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| **UAV** | Cerbyd Awyr heb Griw |
| **UNCLOS** | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr |

# Terminoleg Dechnegol

| Gallu | Disgrifiad |
|---|---|
| **Brigâd Ymosodiadau Awyr 16** | Brigâd y Fyddin y gellir ei lleoli gyflymaf |
| **Brigâd 1af Brwydrau Awyr** | Trefniant sy'n cynnwys hofrenyddion ymosod a rhagchwilio y Fyddin a hofrenyddion cefnogaeth yr RAF |
| **Adran 1af (DU)** | Ail adran lleoli symudiadau y Fyddin |
| **3edd Adran (DU)** | Prif allu ffurfio rhyfela arfog y Fyddin |
| **6ed Adran (DU)** | Adran rhyfela anghonfensiynol y Fyddin |
| **A400M** | Awyren sy'n darparu swyddogaeth dactegol a strategol |
| **AH64 Apache** | Hofrennydd ymosod gyda galluoedd goruchwylio a diogelu'r llu |
| **Ajax** | Teulu'r fyddin o gerbydau ymladd rhagchwilio arfog |
| **Brigâd Gweithrediadau Arbennig y Fyddin** | Trefniant y fyddin ar gyfer paratoi a chynhyrchu gweithrediadau arbennig – lluoedd abl (Catrawd Ranger) i'w lleoli |
| **Dosbarth Astute** | Llong danfor pŵer niwclear |
| **Ffrigad ASW** | Llong ryfel arwyneb ar gyfer Rhyfela Gwrth-danfor |
| **BAE 146 – CSAT** | Rheolaeth Trafnidiaeth Awyr Cefnogi sy'n gallu cludo teithwyr a chargo |
| **Llong danfor Taflegrau Balistig** | Llong danfor sy'n gallu tanio taflegrau balistig rhyng-gyfandirol |
| **Llong gymorth dosbarth Bay** | Llong Ategol y Fflyd Frenhinol a ddefnyddir mewn gweithrediadau tir a môr |
| **Boxer** | Cerbyd Troedfilwyr Mecanyddol ar olwynion y Fyddin (MIV) cerbyd arfog symudol iawn i gludo milwyr o bellter i theatrau gweithredol |
| **Bataliynau Cefnogi'r Gwasanaeth Brwydro** | Unedau integredig newydd y Fyddin sy'n cyfuno elfennau logisteg, offer a chefnogaeth feddygol |
| **C130J Hercules** | Awyren gludo tactegol aml-rôl |
| **C-17 Globemaster** | Awyren drafnidiaeth filwrol gor-faint strategol |
| **Grŵp Cludwyr Ymosod** | Cludwr awyrennau y bumed genhedlaeth wedi'i ategu gan ffrigadau, llongau distryw, llongau tanfor ac awyrennau jet F-35B |
| **CH-47 Chinook** | Hofrennydd cymorth codi trwm aml-rôl |
| **Challenger III** | Uwchraddio tanc brwydro Challenger II er mwyn gallu symud mwy, goroesi ac sy'n fwy angheuol |
| **CJEF** | Llu Ymdeithiol ar y Cyd Cyfunol – Llu dwyochrog y DU-Ffrainc, a gynlluniwyd i fod yn llu ymyrraeth mynediad cynnar |
| **Brigâd Rhagchwilio Dwfn** | Trefniant ymladd y fyddin ar gyfer cyflawni gweithgareddau ymosod a rhagchwilio o bell |
| **Ysgol Seiber Amddiffyn** | Canolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant ac ymarferion seiber yn yr Academi Amddiffyn |
| **Arfau Ynni wedi'u Cyfeirio** | Ynni â ffocws uchel ar gyfer difrodi targed, gan gynnwys laser, microdonnau a gronynnau |
| **Dosbarth Dreadnought** | Llong danfor taflegrau balistig â phŵer niwclear a fydd yn disodli Dosbarth Vanguard |
| **Gwarchodaeth E-3D** | Awyren rhybudd cynnar a rheolaeth a rheoli yn yr awyr |
| **E-7A Wedgetail** | Y genhedlaeth nesaf o awyrennau rhybudd cynnar a rheolaeth a rheoli yn yr awyr |
| **System Taflegrau Exactor** | Gallu i dywys taflegrau yn electro-optegol |
| **F-35B Lightning II** | Y bumed genhedlaeth o awyrennau aml-rôl |
| **FCAS** | System Brwydrau Awyr y Dyfodol sy'n cynnwys awyrennau rhwydweithiau llawn, dronau heb griw, synwyryddion ac arfau, wedi'u cysylltu ar draws pob parth |
| **Pum Llygad (gwledydd)** | Cymuned rhannu cudd-wybodaeth Awstralia, Canada, Seland Newydd, y DU a'r UD |
| **Llong Cefnogaeht Gadarn y Fflyd** | Llong Ategol y Fflyd Frenhinol a ddefnyddir yn bennaf i gyflenwi cyflenwadau a ffrwydron i'r Grŵp Cludwyr Ymosod |
| **Llu Rheolaeth y Dyfodol (FCF)** | Gallu ymosod arfordirol newydd y DU, sy'n seiliedig ar y Môr-filwyr Brenhinol |
| **Llu Ymateb Byd-eang** | Gallu ymateb i argyfwng parodrwydd uchel iawn y DU sy'n tynnu ar Frigâd Ymosodiadau Awyr 16 a Brigâd Brwydrau Awyr 1af |
| **Hawk T1** | Awyren hyfforddi a ddefnyddir gan unedau rheng flaen yr RAF a'r Llynges Frenhinol |
| **Y Gogledd Uchel** | Yr Arctig a'r rhanbarth cyfagos |
| **Ffrigad Dosbarth Hunter** | Enw fersiwn Awstralia o'r Ffrigad Math 26 |
| **Cerbydau Gleidio Hypersonig** | System arfau strategol sy'n gallu cyflawni cyflymderau sy'n fwy na phum gwaith cyflymder sŵn |
| **Taflegrau Hypersonig** | Taflegryn sy'n gallu teithio fwy na phum gwaith cyflymder sŵn |
| **Llong Patrôl Iâ** | Llong y Llynges Frenhinol sy'n gallu torri iâ |
| **Pencadlys Corfflu Ymateb Cyflym y Cynghreiriaid** | Pencadlys 3 seren NATO sy'n cael ei rheoli gan y DU yn y DU |

| Gallu | Disgrifiad |
|---|---|
| **JEF** | Mae'r Llu Ymdeithiol ar y Cyd yn gynghrair sy'n cael ei harwain gan y DU o Genhedloedd Partner o'r un anian (Denmarc, Estonia, y Ffindir, Latfia, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden a Gwlad yr Iâ o'r gwanwyn 2021), sy'n cynnwys lluoedd parodrwydd uchel, sydd wedi'u cyflunio yn bennaf er mwyn ymateb yn gyflym i argyfyngau yn Rhanbarth y Gogledd Uchel a'r Môr Baltig |
| **Doc Llwyfan Glanio (LPD)** | Llong y Llynges Frenhinol a ddefnyddir mewn gweithrediadau tir a môr |
| **Doc Llwyfan Glanio Ategol (LSD(A))** | Llong Ategol y Llynges Frenhinol a ddefnyddir yn bennaf i gefnogi gweithrediadau tir a môr |
| **Timau Brwydro y Frigâd Ysgafn** | Trefniant ymladd y Fyddin sy'n cynnwys unedau troedfilwyr ysgafn |
| **Lightning II Force** | F-35B Lightning II (gweler diffiniad F-35) |
| **Grŵp Ymateb Arfordirol** | Llu pwrpasol sy'n cael ei aseinio i ardal ddaearyddol, sy'n cynnwys llongau, hofrenyddion a llongau pwrpasol |
| **Gallu Ganfod Ffrwydron** | System awtonomaidd o bell newydd y Llynges Frenhinol ar gyfer canfod a dinistrio ffrwydron |
| **Llwyfan Tanio Symudol** | System arfau tanio anuniongyrchol y dyfodol |
| **Llong Goruchwyliaeth Cefnfor Aml-rôl** | Llong arfaethedig y Llynges Frenhinol a fydd yn cefnogi llawer o gyrchoedd |
| **Grŵp y Gogledd** | Cenhedloedd sy'n ymrwymedig i gynnal diogelwch a sefydlogrwydd yn rhanbarth Gogledd Ewrop a'r cyfandir ehangach. Maent yn cynnwys Denmarc, Estonia, y Ffindir, yr Almaen, Gwlad yr Iâ, Latfia, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Sweden a'r DU |
| **Llong Patrôl Alltraeth** | Llong y Llynges Frenhinol sy'n cynnal cyrchoedd cwnstabliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant o amgylch y byd |
| **P8-A Poseidon** | Llong Patrôl Morol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ryfela Gwrth-danfor |
| **Protector** | System awyr newydd wedi'i llywio o bell |
| **Puma** | Hofrennydd codi canolig |
| **Radar 2** | System radar newydd i'w gosod i awyrennau Typhoon y Llu Awyr Brenhinol |
| **Catrawd Ranger** | Unedau arbennig pob arf newydd y Fyddin sy'n gallu cyflawni gweithrediadau arbennig |
| **Brigâd Cefnogi'r Llu Diogelwch** | Trefniant y Fyddin ar gyfer cynnal cyrchoedd meithrin gallu a chefnogaeth tramor |
| **Skynet 6** | Rhwydwaith cyfathrebu lloeren Milwrol |
| **SPEAR Cap 3** | Arf manwl-gywir sy'n cael ei lansio yn yr awyr |
| **Syntheteg** | Y defnydd o dechnoleg ddigidol fodern i gefnogi hyfforddiant a chynllunio |
| **Tempest** | Gweler FCAS |
| **Dosbarth Trafalgar** | Llong danfor niwclear |
| **System Arfau Strategol Trident** | Ataliaeth niwclear y DU |
| **Ffrigad Math 23** | Ffrigad aml bwrpas, a ddefnyddir ar gyfer Rhyfela Gwrth-danfor fel arfer |
| **Ffrigad Math 26** | Llong frwydro fyd-eang wedi'i hoptimeiddio ar gyfer Rhyfela Gwrth-danfor |
| **Ffrigad Math 31** | Llong ryfel arwyneb aml-ddefnydd. Wedi disodli ffrigadau Math 23 |
| **Ffrigad Math 32** | Dosbarth newydd o longau rhyfel arwyneb |
| **Llongau Distryw Math 45** | Llong ddistryw sydd wedi'i hoptimeiddio ar gyfer Rhyfela Amddiffyn yr Awyr |
| **Llongau Distryw Math 84** | Llong ryfel cysyniad newydd ar gyfer Math 45 |
| **Typhoon** | Awyren frwydro aml-rôl pedwaredd genhedlaeth |
| **Dosbarth Vanguard** | Llong danfor taflegrau balistig pŵer niwclear |
| **Voyager** | Tancer ail-lenwi â thanwydd yn yr awyr sy'n gallu cludo yn yr awyr |
| **Watchkeeper** | Cerbyd awyr heb griw gyda gallu Cudd-wybodaeth, Goruchwylio, Caffael Targed a Rhagchwilio |
| **Y-20** | Awyrennau cludo trwm Tsieineaidd |
| **Skynet 6** | Rhwydwaith cyfathrebu lloeren milwrol |
| **SPEAR Cap 3** | Arfau manwl-gywir sy'n cael eu lansio yn yr awyr |
| **Syntheteg** | Y defnydd o uwch dechnoleg ddigidol i gefnogi hyfforddiant a chynllunio |
| **Tempest** | Gweler FCAS |
| **Dosbarth Trafalgar** | Llong danfor pŵer niwclear |
| **System Arfau Strategol Trident** | Ataliad niwclear y DU |
| **Ffrigad Math 23** | Ffrigad diben cyffredinol, sy'n cael ei optimeiddio fel arfer ar gyfer Rhyfela Gwrth-danfor |
| **Ffrigad Math 26** | Llong frwydro fyd-eang wedi'i hoptimeiddio ar gyfer Rhyfela Gwrth-danfor |




**CCS:** CCS0221109268

**ISBN:** 978-1-5286-2462-6